



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mercher 8 Rhagfyr 1999

Wednesday 8 December 1999

Cynnwys Contents

- 3 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
Questions to the Secretary for Education and Children
- 11 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development
- 17 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 20 Datganiad ar Fodwleiddio Cymorthdaliadau Uniongyrchol i Ffermwyr
Statement on the Modulation of Direct Subsidies to Farmers
- 28 Pwyntiau o Drefn
Points of Order
- 31 Blaen-raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth: Parhad o Ddadl 30 Tachwedd
The Government's Forward Legislative Programme: Debate Continued from 30 November
- 80 Datganiad gan Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru
Statement by the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales
- 87 Adroddiad Grant Arbennig ar y Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid
Special Grant Report on the Children and Youth Partnership Fund

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwyswyd cyfieithiad Saesneg o eiriau a lefarwyd yn y Gymraeg. Bydd cofnod dwyieithog cyflawn ar gael bum niwrnod gwaith ar ôl cynnal y sesiwn.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches has been included. A fully bilingual record will be available five working days after the session was held.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant Questions to the Secretary for Education and Children

Camddefnyddio Cyffuriau mewn Ysgolion Drug Misuse in Schools

Q1 Alison Halford: What role do schools in Wales have in combating drug misuse and potential drug misuse among pupils? (OAQ2563)

C1 Alison Halford: Pa rôl sydd gan ysgolion yng Nghymru wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau a'r camddefnydd posibl o gyffuriau ymhlith disgyblion? (OAQ2563)

The Secretary for Education and Children (Rosemary Butler): This is a serious issue. Schools have a responsibility to work in partnership with health and social services, the police and the community to combat drug or other substance misuse and potential misuse through appropriate education and management of incidents on school premises. Schools should also liaise closely with their local drug and alcohol action team. Drug education features in each key stage under the existing national curriculum guidance. That is provided for under circular 54/95, 'Drug Misuse: Prevention and Schools', a copy of which can be found in the Library.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler): Mae hwn yn fater difrifol. Mae gan ysgolion gyfrifoldeb i weithio mewn partneriaeth ag iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gymuned i frwydro yn erbyn camddefnyddio a chamddefnyddio posibl o gyffuriau neu sylweddau eraill. Dylid mynd i'r afael â hyn drwy addysg briodol a thrwy reoli digwyddiadau o fewn yr ysgol yn briodol. Dylai ysgolion fod mewn cysylltiad agos â'u tîm gweithredu alcohol a chyffuriau lleol hefyd. Dan ganllawiau presennol y cwricwlwm cenedlaethol mae addysg gyffuriau i'w gweld ym mhob cyfnod allweddol. Darperir ar gyfer hynny dan gylchlythyr 54/95 'Camddefnyddio Cyffuriau: Atal ac Ysgolion', y mae copi ohono ar gael yn y Llyfrgell.

Alison Halford: Would the Secretary join me in congratulating our national Government in appointing a drug tsar who has initiated a series of youth parliaments whereby school pupils can focus on all aspects of drug misuse and suggest meaningful solutions to the drug scourge, which has been particularly prevalent in my constituency, Delyn? Would you congratulate the national Minister responsible and the drug tsar?

Alison Halford: A wnaiff yr Ysgrifennydd ymuno â mi i longyfarch ein Llywodraeth genedlaethol ar benodi tsar cyffuriau sydd wedi dechrau cyfres o seneddau ieuenticid lle gall disgyblion ysgol ganolbwyntio ar holl agweddau camddefnyddio cyffuriau ac awgrymu atebion ystyrion i'r pla cyffuriau, sydd wedi bod yn gyffredin iawn yn fy etholaeth i yn Nelyn? A wnewch chi longyfarch y Gweinidog cenedlaethol sydd yn gyfrifol ynghyd â'r tsar cyffuriau?

Rosemary Butler: Any innovative scheme, under whatever heading, should be applauded. I would be delighted if the drug tsar undertakes this initiative. We should be aware that the revised national curriculum for Wales will continue to feature drug education at each key stage, principally in the science

Rosemary Butler: Dylid cymeradwyo unrhyw gynllun arloesol, o dan pa bynnag bennawd y daw. Buaswn wrth fy modd petai'r tsar cyffuriau yn ymgymryd â'r cynllun hwn. Dylem fod yn ymwybodol y bydd cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig Cymru yn parhau i gynnwys addysg

curriculum. That will be further enhanced by references to drugs throughout the new framework for personal and social education, to be implemented in September 2000 alongside the revised national curriculum for Wales. We have also taken a whole raft of other actions. Jane Hutt initiated the Welsh network of healthy schools schemes. A fortnight ago in Swansea I launched the 'Burning Issues' school pack on smoking. Jane will be launching the north Wales version of that in a week or two. Much is being done to help tackle this dreadful problem.

John Griffiths: Do you agree that it is important that drugs education in schools is realistic? Pointing to the dangers of drug use, without bearing them out with facts, can be unrealistic and might undermine the real concerns about the misuse of drugs. I do not suggest that there are not real dangers, but youngsters sometimes have their own street knowledge of drugs and if schools exaggerate the dangers in any way it undermines the general message and can be counter-productive.

Rosemary Butler: Our approach should be holistic as well as realistic. You are right; young children are aware of the damage drugs can do and often think that it will affect someone other than them. We must ensure that they are aware of the dangers without glamorising drugs in any way, which is a difficult path to tread. Alison mentioned the youth assembly; that is the kind of thing that we can initiate through our youth assembly when it is up and running next year. We must ensure that the drugs education in schools is also taken to youth clubs, football clubs and other extra curricular activities so that there is a general, holistic approach to ensure that children are aware of the dangers of taking drugs.

Owen John Thomas: While schools play a key part in providing education about drugs,

gyffuriau ym mhob cyfnod allweddol, yn y cwricwlwm gwyddoniaeth yn bennaf. Ategir hynny ymhellach gan gyfeiriadau at gyffuriau drwy'r fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, a ddaw i rym ym mis Medi 2000 ynghyd â chwricwlwm cenedlaethol diwygiedig Cymru. Mae ystod eang o weithgarwch arall gennym ar y gweill hefyd. Dechreuodd Jane Hutt rwydwaith cynlluniau ysgolion iach Cymru. Bythefnos yn ôl yn Abertawe, lansiws becyn ysgol, 'Pwnc Llog', ar ysmegu. Bydd Jane yn lansio fersiwn gogledd Cymru y pecyn ymhen wythnos neu ddwy. Caiff llawer ei wneud i helpu i fynd i'r afael â'r broblem erchyll hon.

John Griffiths: A gytunwch ei bod yn bwysig bod addysg gyffuriau mewn ysgolion yn realistig? Gall tynnu sylw at beryglon defnyddio cyffuriau, heb gefnogi hynny gyda ffeithiau, fod yn afrealistig a gallai danseilio'r gwir bryderon ynghylch camddefnyddio cyffuriau. Nid wyf yn awgrymu nad oes yna beryglon gwirioneddol, ond ambell waith mae gan bobl ifainc wybodaeth lefel y stryd eu hunain ac os yw'r ysgolion yn gorliwio'r peryglon mewn unrhyw ffordd mae'n tansilio'r neges gyffredinol a gall hynny fod yn wrthgynhyrchol.

Rosemary Butler: Dylai fod gennym agwedd gyfannol a realistig. Yr dydych yn iawn; mae plant ifanc yn ymwybodol o'r difrod y gall cyffuriau ei achosi ac yn aml maent yn meddwl y bydd yn effeithio ar rywun arall yn hytrach nag arnynt hwy eu hunain. Rhaid inni sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r peryglon heb bortreadu cyffuriau fel rhywbeth deniadol o gwbl, ac mae hwn yn drywydd anodd i'w ddilyn. Soniodd Alison am y cynulliad ieuentid; dyna'r math o beth y gallwn ei ddechrau drwy ein cynulliad ieuentid pan fydd hwnnw wedi ei sefydlu y flwyddyn nesaf. Rhaid inni sicrhau bod addysg gyffuriau mewn ysgolion yn cael ei hymestyn i glybiau ieuentid, clybiau pêl-droed a gweithgareddau allgyrsiol eraill hefyd, fel y ceir agwedd gyffredinol, gyfannol i sicrhau bod plant yn ymwybodol o beryglon cymryd cyffuriau.

Owen John Thomas: Tra bod ysgolion yn chwarae rhan allweddol drwy roi addysg am

teenagers also gain experience outside the school gates. What plans does the Government have to encourage parents to take an interest in the dangers to their children of drug and alcohol misuse?

Rosemary Butler: That is a good point. Making parents realise that it could happen to their children is important. The Department for Education and Employment has already updated its guidance on drug misuse in light of the anti-drugs strategy paper, 'Tackling Drugs to Build a Better Britain', which shows that reported use of illegal drugs by 15 and 16-year-olds decreased slightly between 1996 and 1998. There is a slight decrease in some areas. The next survey will be in 2000 and we will hopefully have some good results from this out of school activity as well.

It is important, however, that schools are not left to do this on their own—it is a matter for the health service, social services, and the police. Gwent Police does a huge amount in drug education. However, parents are not always aware of the issues. I have organised drug awareness evenings with the local constabulary for the parents of 14-year-olds. The first time we did this, hundreds of people turned up and there was no room for anyone else in the hall. When we did the same thing two years later, only six parents turned up. It was just the perception. We must ensure that parents are aware of the dangers. I welcome suggestions from anyone and we will try to take them on board.

David Melding: According to the Chief Medical Officer's latest annual report, one third of 15 and 16-year-olds report having used cannabis, 20 per cent of them within the last month. Is it important to recognise the link between cannabis and experimenting with other illicit drugs? We must focus on this problem and not dismiss cannabis merely as a soft drug.

gyffuriau, mae pobl ifainc yn eu harddegau hefyd yn ennill profiad y tu allan i glwydi'r ysgol. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i annog rhieni i ystyried peryglon camddefnyddio cyffuriau ac alcohol o ran eu plant?

Rosemary Butler: Dyna bwynt da. Mae tynnu sylw rhieni at yr hyn a allai ddigwydd i'w plant yn bwysig. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth eisoes wedi diweddarau ei chanllawiau ar gamddefnyddio cyffuriau gyda golwg ar y papur strategaeth atal-cyffuriau 'Mynd i'r afael â Chyffuriau i Adeiladu Gwell Dyfodol i Brydain', sydd yn dangos bod y lefel defnyddio cyffuriau anghyfreithlon sydd yn hysbys ymysg plant 15 ac 16 mlwydd oed wedi gostwng rhwng 1996 a 1998. Mae gostyngiad bach mewn rhai ardaloedd. Bydd yr arolwg nesaf yn cael ei gynnal yn 2000 a gobeithio y byddwn yn cael canlyniadau da o'r gweithgarwch hwn y tu allan i'r ysgol hefyd.

Mae'n bwysig, fodd bynnag, nad yw'r ysgolion yn cael eu gadael i ddelio â hyn ar eu pennau eu hunain—mae'n fater ar gyfer y gwasanaeth iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Mae Heddlu Gwent yn cynorthwyo'n arw gydag addysg gyffuriau. Fodd bynnag, nid yw rhieni yn ymwybodol o'r sefyllfa bob tro. Yr wyf wedi trefnu nosweithiau ymwybyddiaeth cyffuriau gyda'r heddlu lleol ar gyfer rhieni plant 14 mlwydd oed. Y tro cyntaf y gwnaethom hyn, daeth cannoedd o bobl draw ac nid oedd lle i neb arall yn y neuadd. Pan wnaethom yr un peth ddwy flynedd yn ddiweddarach, dim ond chwe rhiant oedd yn bresennol. Mater o ddirniadaeth oedd hyn yn llwyr. Rhaid inni sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r peryglon. Croesawaf awgrymiadau gan unrhyw un a cheisiwn ein gorau i'w rhoi ar waith.

David Melding: Yn ôl adroddiad blynyddol diweddaraf y Prif Swyddog Meddygol, mae traean y bobl ifainc rhwng 15 a 16 oed yn cyfaddef eu bod wedi defnyddio canabis, 20 y cant ohonynt o fewn y mis blaenorol. A ydyw'n bwysig cydnabod y cysylltiad rhwng canabis ac arbrofi gyda chyffuriau anghyfreithlon eraill? Rhaid inni ganolbwyntio ar y broblem hon a pheidio â diystyru canabis fel cyffur meddal yn unig.

Rosemary Butler: There are two schools of thought on this. Some people believe that cannabis, if prescribed, can be a useful drug in preventing pain. On the other hand, we must ensure that young children do not experiment with it illegally. It is a serious matter and much good research is being done on it. We will hopefully be looking at this matter within the next year, in the Under-16 Education Committee, the Post-16 and Training Committee or the Health and Social Services Committee. We need an approach across the board from the whole Assembly on this matter.

Rosemary Butler: Mae dau feddylfryd gwahanol ar hyn o beth. Cred rhai pobl os rhoddir canabis i rywun gan feddyg, ei fod yn gyffur defnyddiol i atal poen. Ar y llaw arall, rhaid inni sicrhau nad yw plant ifanc yn arbrofi'n anghyfreithlon gyda'r cyffur. Mae'n fater difrifol ac mae llawer o waith ymchwil da yn cael ei gynnal yn y maes. Gobeithiaf y byddwn yn ystyried y mater hwn o fewn y flwyddyn nesaf, yn y Pwyllgor Addysg Cyn 16, y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 neu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid inni gael agwedd ambleidiol gan yr holl Gynulliad ar y pwnc hwn.

Proffil y Proffesiwn Dysgu Profile of the Teaching Profession

C2 Gareth Jones: Sut y mae'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant yn bwriadu codi proffil y proffesiwn dysgu yng Nghymru? (OAQ2539)

Q2 Gareth Jones: How does the Secretary for Education and Children plan to raise the profile of the teaching profession in Wales? (OAQ2539)

Rosemary Butler: I am committed to the establishment of a general teaching council for Wales, to speak for, and raise standards in, the teaching profession. The council will provide an independent and authoritative voice for the profession, and provide advice on everything from the recruitment and supply of new teachers, through initial teacher training and induction, to professional development and conduct.

Rosemary Butler: Yr wyf â'm bryd ar sefydlu cyngor dysgu cyffredinol i Gymru, i gynrychioli ac i godi safonau'r proffesiwn dysgu. Bydd y cyngor yn darparu llais annibynnol ac awdurdodol i'r proffesiwn a bydd yn cynnig cyngor ar bob dim o benodi a chyflenwi athrawon newydd, drwy hyfforddiant cychwynnol i athrawon a chyflwyniad, i ddatblygiad ac ymddygiad proffesiynol.

2:09 p.m.

Gareth Jones: Diolch am yr ateb yna. Nid oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â'ch ymrwymiad, fel Ysgrifennydd, i'r cyngor hwnnw. Mae'n ymdrech allweddol i godi proffil y proffesiwn dysgu. Yr wyf yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, er bod symudiadau cyffrous wedi digwydd eisoes yn Lloegr—mae prif weithredwr wedi'i benodi i'r cyngor yno—mae'r cynlluniau yng Nghymru yn llanastr llwyr. Defnyddiwyd y gair 'shambles' yn *The Times Educational Supplement* yr wythnos diwethaf wrth gyfeirio at y sefyllfa yng Nghymru.

Gareth Jones: Thank you for that answer. There is no doubt about your commitment as Secretary to that council. It is a vital effort to raise the profile of the teaching profession. I acknowledge that. However, while exciting moves have already taken place in England—a chief executive has been appointed to the council there—the plans in Wales are a total mess. The word 'shambles' was used in *The Times Educational Supplement* last week in reference to the situation in Wales.

Nid yw nifer o athrawon sydd yn gymwys i bleidleisio wedi derbyn eu papurau i gadarnhau hynny. Nid yw swydd prif

A number of teachers who are eligible to vote have not yet received their ballot papers to confirm that. The post of chief executive to

weithredwr y cyngor wedi'i hysbysebu eto. Yn lle codi proffil y proffesiwn, oni fydddech yn cytuno bod y sefyllfa fel y mae yn niweidio enw da a delwedd y proffesiwn yng Nghymru ac yn dangos diffyg ymrwymiad y Cynulliad i sefydlu'r cyngor addysgu cyffredinol?

Rosemary Butler: I am sorry, Gareth, but in this case I do not agree with you at all. You raised several issues. The first concerns the appointment of a chief executive to the council. That advertisement has been agreed. It has gone through the legal process and will, I hope, appear in next week's journals. Your second point concerns teachers who assume that they are not registered to vote. This has been an interesting exercise, because a list of teachers has never before been required in Wales; it has always been the responsibility of the Department for Education and Employment in London. However, I have some figures that might interest you. Ballot papers were sent to 45,200 contact addresses. Compare that with a qualified teaching population in Wales of 28,000. Huge numbers of ballot papers have been sent out and, as a safeguard, headteachers have been asked to check that teachers in their schools are included on the register. The local education authorities held stocks of these forms and were encouraged to ensure that as many teachers as possible were aware of their existence. We have sent some ballot papers directly to teachers' home addresses. The ballot paper is also on the internet and bilingual leaflets and forms are available. We ensure that all the people we know about are notified, but it is partly the individual's responsibility to ensure that he or she is on the register, in the same way as they ensure that they are on the ordinary electoral register. The difference between Wales and England is the sheer size of England. We are convinced that our timetable will keep us on track to ensure that this general teaching council is up and running successfully by next September. That is vital for the profession in Wales.

the council has not yet been advertised. Instead of raising the profile of the profession, would you not agree that the situation as it stands damages the reputation and image of the profession in Wales and shows the Assembly's lack of commitment to establishing the general teaching council?

Rosemary Butler: Mae'n ddrwg gennyf Gareth, ond yn yr achos hwn nid wyf yn cytuno â chi o gwbl. Yr ydych wedi codi sawl mater. Mae'r cyntaf yn ymwneud â phenodi prif weithredwr i'r cyngor. Cytunwyd ar yr hysbyseb ar gyfer hynny. Mae wedi mynd drwy'r broses gyfreithiol a bydd, gobeithiaf, yn ymddangos ym mhapurau'r wythnos nesaf. Mae eich ail bwynt yn ymwneud ag athrawon sydd yn cymryd yn ganiataol nad ydynt yn gymwys i bleidleisio. Mae hwn wedi bod yn ymarferiad diddorol gan na fu galw am restr athrawon yng Nghymru erioed o'r blaen; cyfrifoldeb yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn Llundain ydoedd. Fodd bynnag, mae gennyf rai ffigurau a fydd efallai o ddiddordeb i chi. Anfonwyd papurau pleidleisio i 45,200 cyfeiriad cyswllt. Cymharwch hynny gyda nifer yr athrawon cymwysedig yng Nghymru sef 28,000. Anfonwyd nifer enfawr o bapurau pleidleisio, ac i ddiogelu nad oedd dim yn mynd o'i le gofynnwyd i brifathrawon wneud yn siŵr bod athrawon eu hysgolion wedi eu cynnwys ar y gofrestr. Yr oedd yr awdurdodau addysg lleol yn cadw stoc o'r ffurflenni hyn ac fe'u hanogwyd i sicrhau bod cymaint ag yr oedd modd o athrawon yn ymwybodol o'u bodolaeth. Yr ydym wedi anfon rhai papurau pleidleisio'n uniongyrchol i gyfeiriadau cartref yr athrawon. Mae'r papur pleidleisio ar y rhyngwrwyd ac mae taflenni a ffurflenni dwyieithog ar gael hefyd. Yr ydym yn sicrhau bod pawb y gwyddwn ni amdanynt yn cael gwybod, ond cyfrifoldeb yr unigolyn yn rhannol yw sicrhau ei fod ef neu hi ar y gofrestr, yn yr un modd ag y maent yn sicrhau eu bod ar y gofrestr etholiadol gyffredin. Yr hyn sydd yn wahanol rhwng Cymru a Lloegr yw maint anferth Lloegr. Yr ydym yn ffyddiog y bydd ein hamserlen yn ein cadw ar y llwybr cywir i sicrhau y sefydlir y cyngor dysgu cyffredinol a'i fod ar waith yn llwyddiannus erbyn mis Medi nesaf. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer y proffesiwn yng Nghymru.

Cynog Dafis: A all Rosemary Butler gadarnhau y bydd yn sicrhau bod y cyngor addysgu cyffredinol yn cydweithio â sefydliadau perthnasol eraill megis Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon (Cymru) a'r undebau athrawon i sicrhau ein bod yn cael strategaeth ar gyfer recriwtio athrawon sydd yn briodol i amgylchiadau Cymru? A all hi esbonio hefyd beth fydd rôl yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon mewn perthynas â hyn? Mae'n eithriadol o bwysig fod gennym wybodaeth ynglŷn â'r proffesiwn yng Nghymru yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth ail-law o Loegr fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

Rosemary Butler: Yes, I agree with you, Cynog. It is important that this teaching council works with every relevant professional body. That is essential and I will make it my business to ensure that they do that. However, given that they are professional people I do not think that I will have to instruct them on this. I am sure that they will do a good job.

As you are aware, we have already increased this year's funding for the Teacher Training Agency. This will allow the agency to work on teacher supply and recruitment matters and extend that work into Wales. I met representatives of university teacher training departments and we are having interesting discussions. Unions must be involved and consulted, but there will be representatives of the unions on the general teaching council itself.

Teaching training in Wales is coming under the auspices of the Assembly. That will give us more say and control over what goes on. The national recruitment officer will be in post soon. That is important, as it will give us a better directed approach to ensure that the excellent teacher training courses in Wales are filled with high quality students.

Brian Gibbons: Most of the professions involved in self-regulation, including my own profession, recognise the importance of continuing professional development. Provision for this is made in most

Cynog Dafis: Can Rosemary Butler confirm that she will ensure that the general teaching council will collaborate with other relevant institutions such as the Universities Council for the Education of Teachers (Cymru) and the teachers' unions to ensure that we have a strategy for teacher recruitment which is appropriate to Wales's circumstances? Can she also explain what the role of the Teacher Training Agency will be in relation to this? It is exceptionally important that we have information about the profession in Wales rather than relying on second-hand information from England as has been the case in the past.

Rosemary Butler: Ydyw, yr wyf yn cytuno â chi, Cynog. Mae'n bwysig bod y cyngor dysgu hwn yn gweithio gyda phob corff proffesiynol perthnasol. Mae hynny'n hanfodol a byddaf yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gan eu bod yn bobl broffesiynol nid wyf yn meddwl y bydd rhaid imi eu cyfarwyddo ar hyn o beth. Yr wyf yn siŵr y byddant yn gwneud gwaith da.

Fel yr ydych yn ymwybodol, yr ydym eisoes wedi cynyddu cyllid y flwyddyn hon ar gyfer yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon. Bydd hyn yn galluogi'r asiantaeth i weithio ar faterion sydd yn ymwneud â chyflenwi a phenodi athrawon ac ymestyn y gwaith hwnnw i Gymru. Yr wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr adrannau hyfforddi athrawon prifysgolion ac yr ydym yn cael trafodaethau diddorol. Rhaid cynnwys yr undebau ac ymgynghori â hwy, ond bydd cynrychiolwyr yr undebau ar y cyngor dysgu cyffredinol ei hun.

Daw hyfforddi athrawon yng Nghymru dan gochl y Cynulliad. Bydd hynny'n rhoi rhagor o reolaeth ar yr hyn sydd yn mynd ymlaen inni. Bydd y swyddog penodi cenedlaethol yn cael ei benodi'n fuan. Mae hynny'n bwysig, gan y bydd yn rhoi agwedd wedi ei hanelu'n well i sicrhau bod y cyrsiau hyfforddi athrawon gwyh yng Nghymru yn cael eu llenwi gyda myfyrwyr o safon uchel.

Brian Gibbons: Mae'r rhan fwyaf o broffesiynau sydd yn ymwneud â chyrrff sydd yn rheoli eu hunain, gan gynnwys fy mhroffesiwn fy hun, yn cydnabod pwysigrwydd datblygiad proffesiynol

professions. In the context of the teachers' council and the other announcements, what are your proposals for the continuing professional development of teachers in Wales?

Rosemary Butler: It is important that teachers in Wales are open to continuing professional development and that relevant courses are available to them. This is true not only from the teachers' point of view but also that of the children that they teach. Given that we have increased the local authorities' education budgets, money will be available to ensure that high quality training is available to teachers.

Difficulties arise with, for example, teachers in mid Wales who do not have easy access to education establishments. We must develop our use of information and communication technology such as video-conferencing to ensure that the opportunities available in Cardiff and Swansea are also available in Pembroke, Powys and other areas and that teachers in Wales have equal treatment in terms of training. I am committed to ensuring that this training is available, relevant and easily accessible.

Jonathan Morgan: With reference to the appointment of Lord Puttnam as chairman of the General Teaching Council, will the Secretary for Education and Children give an assurance that the teaching council in Wales will have a chair of standing and not someone who is a Labour luvvie?

Rosemary Butler: Yes.

parhaol. Ceir darpariaeth ar gyfer hyn gan y rhan fwyaf o broffesiynau. Yng nghyd-destun cyngor yr athrawon a'r cyhoeddiadau eraill, beth yw eich cynigion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaol athrawon Cymru?

Rosemary Butler: Mae'n bwysig bod athrawon yng Nghymru yn barod i barhau gyda'u datblygiad proffesiynol a bod cyrsiau perthnasol ar gael iddynt. Mae hyn yn wir o safbwynt yr athrawon yn ogystal ag o safbwynt y plant y maent yn eu dysgu. Gan ein bod wedi cynyddu cyllidebau addysg yr awdurdodau lleol, bydd arian ar gael i sicrhau bod hyfforddiant o safon uchel ar gael i athrawon.

Cyfyd anawsterau gyda, er enghraifft, athrawon yng nghanolbarth Cymru nad ydynt o fewn cyrraedd agos i sefydliadau addysg. Rhaid inni ddatblygu ein defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu megis fideo-gynadledda i sicrhau bod y cyfleoedd sydd ar gael yng Nghaerdydd ac Abertawe hefyd ar gael yn Abergwaun, Powys ac mewn ardaloedd eraill a bod athrawon yng Nghymru yn cael eu trin yn gyfartal o ran hyfforddiant. Yr wyf wedi ymroi i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn ar gael, ei fod yn berthnasol ac ar gael yn hawdd i bawb.

Jonathan Morgan: Gyda golwg ar benodi yr Arglwydd Puttnam yn gadeirydd y Cyngor Dysgu Cyffredinol, a wnaiff yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant ein sicrhau y bydd gan y cyngor yng Nghymru gadeirydd ag enw da ac nid rhywun sydd yn llyfu tin Llafur?

Rosemary Butler: Bydd.

Maint Dosbarthiadau (Blynyddoedd Ysgol 7-11) Class Sizes (School Years 7-11)

Q3 William Graham: Have average class sizes for pupils in South Wales East in school years 7 to 11 increased or decreased since 1997? (OAQ2505)

Rosemary Butler: That is an interesting question. The average class size for school years seven to 11 in South Wales East has increased slightly since 1997, from 22.1 in January 1997 to 22.2 in January 1998 to 22.5 in January 1999.

C3 William Graham: A yw maint cyfartalog dosbarthiadau disgyblion blynyddoedd ysgol 7 i 11 yn Nwyrain De Cymru wedi codi neu ostwng ers 1997? (OAQ2505)

Rosemary Butler: Dyna gwestiwn diddorol. Mae maint cyfartalog dosbarthiadau ar gyfer blynyddoedd ysgol saith i 11 yn Nwyrain De Cymru wedi cynyddu ychydig ers 1997, o 22.1 ym mis Ionawr 1997 i 22.2 ym mis Ionawr 1998 i 22.5 ym mis Ionawr 1999.

William Graham: In view of that information, would you share your proposals to reduce these numbers? Although you emphasised this issue in your election manifesto, we now find that class sizes are rising. Could you tell the Assembly what you have in mind?

William Graham: Gyda golwg ar y wybodaeth honno, a wnewch chi rannu eich cynigion i ostwng y niferoedd hyn? Er i chi bwysleisio'r mater hwn yn eich maniffesto etholiadol, gwelwn nawr bod maint dosbarthiadau ar gynydd. A allwch chi ddweud wrth y Cynulliad beth sydd gennych mewn golwg?

Rosemary Butler: I am glad that you read my election manifesto. Our manifesto promise was to reduce infant and reception class sizes. During the Labour Government's time in office, most class sizes have fallen to less than 30 pupils. I gave this information to the last meeting of the Pre-16 Education Committee but I will repeat it. All infant class sizes will be reduced to 30 or less by September 2001. The number of infant classes over 30 has fallen from 38 per cent in January 1998 to 31 per cent in September 1999. We are well on the way to ensuring that our manifesto promise on infant class sizes will be kept. We gave no commitment to reduce class sizes in secondary schools. We are putting more money into education and through the revenue support grant—*[Interruption.]*

Rosemary Butler: Yr wyf yn falch eich bod wedi darllen fy maniffesto etholiadol. Ein haddewid maniffesto oedd lleihau maint dosbarthiadau babanod a dosbarthiadau derbyn. Yn ystod cyfnod y Llywodraeth Lafur mewn grym, mae maint y rhan fwyaf o ddsbarthiadau wedi gostwng o dan 30 disgybl. Rhoddais y wybodaeth hon gerbron cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Addysg Cyn-16 ond fe'i dywedaf eto. Bydd pob dosbarth babanod yn gostwng i 30 disgybl neu lai erbyn mis Medi 2001. Mae nifer y dosbarthiadau babanod sydd â dros 30 disgybl wedi gostwng o 38 y cant ym mis Ionawr 1998 i 31 y cant ym mis Medi 1999. Yr ydym ar y trywydd cywir i sicrhau y cedwir ein haddewid maniffesto ar faint dosbarthiadau babanod. Nid oes gennym unrhyw ymrwymiad i leihau maint dosbarthiadau mewn ysgolion uwchradd. Yr ydym yn rhoi ychwaneg o arian i mewn i addysg a thrwy'r grant cynnal refeniw—*[Torri ar draws.]*

The Presiding Officer: Order.

Y Llywydd: Trefn

Rosemary Butler: We are putting a huge amount of resources into education in the local government settlement. An additional £70 million went in last year, there will be an additional £76 million next year plus an additional £14.5 million for the possible teachers' pay scheme. Money is available to help ensure that class sizes are reduced and not increased.

Rosemary Butler: Yr ydym yn rhoi swm enfawr o adnoddau i addysg yn y setliad llywodraeth leol. Cafwyd £70 miliwn yn ychwanegol y llynedd, bydd £76 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn nesaf, yn ogystal â £14.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y cynllun cyflogau athrawon posibl. Mae arian ar gael i helpu i sicrhau y caiff maint dosbarthiadau ei leihau nid ei gynyddu.

2:19 p.m.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

Codi'r Gwaharddiad ar Allforion Byw Lifting the Ban on Live Exports

C1 David Lloyd: Pa gamau y mae'r **Q1 David Lloyd:** What steps has the

Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi eu cymryd i ymateb i'r angen i godi'r gwaharddiad ar allforion byw fel ymateb cadarnhaol i'r argyfwng yn y diwydiant? (OAQ2554)

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): I assume that you are talking about the live export of calves, because the live export of other animals already takes place. We have already been successful in securing European Commission adoption of a measure that allows the export of British beef to resume, subject to strict conditions. Further relaxation of the ban, including a stage covering live animals, is foreseen in the Florence agreement and will be considered in due course as a separate issue. However, it should be noted that, prior to the onset of BSE, the live export market had collapsed due to animal welfare issues. The Assembly and the Welsh Development Agency are investigating ways to help Welsh farmers develop new markets for their calves, whether reared for beef or veal, in welfare friendly conditions. We are already discussing such proposals with Welsh Lamb and Beef Promotions Limited and a Dutch company that is interested in buying veal from Britain.

David Lloyd: A fydddech yn cytuno felly fod adfer y farchnad allforion byw yn bwysig i adfywiad y diwydiant amaeth hyd nes y bydd gennym yr adnoddau priodol i ladd a phrosesu anifeiliaid yn lleol?

Christine Gwyther: As I said, the agreement allows for the eventual resumption of live exports and it is important to remember that we are not yet exporting beef on the bone. You cannot talk about live exports while that partial ban is still in place. However, it is important that we realise that, if this is to take two or three years, we must seriously consider addressing the issue in Wales. We must try to add value to our products, growing on veal and bull beef. We are still importing bull beef, and our farmers could be taking advantage of that market, but are not doing so to the full at present. As I said, the Welsh Development Agency, the agriculture

Secretary for Agriculture and Rural Development taken to respond to the need to lift the ban on live exports as a positive means of responding to the crisis in the industry? (OAQ2554)

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Yr wyf yn cymryd eich bod yn cyfeirio at allforio lloi byw, gan fod allforio anifeiliaid byw eraill eisoes yn digwydd. Yr ydym eisoes wedi llwyddo i sicrhau bod y Comisiwn Ewropeaidd yn mabwysiadu mesur sydd yn caniatáu ailddechrau allforio cig eidion o Brydain, yn amodol ar delerau caeth. Mae llacio'r gwaharddiad ymhellach yn cael ei ragweld yng nghytundeb Florence, gan gynnwys cam ar allforio anifeiliaid byw. Caiff hwn ei ystyried fel mater ar wahân cyn bo hir. Fodd bynnag, dylid nodi bod y farchnad allforion byw wedi methu oherwydd materion yn ymwneud â lles anifeiliaid, cyn i'r argyfwng BSE ddod i'r golwg. Mae'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru yn archwilio ffyrdd i helpu ffermwyr Cymru i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer eu lloi, boed hwy'n cael eu magu ar gyfer cig eidion neu gig llo, mewn amgylchiadau sydd yn ffafrio lles yr anifeiliaid. Yr ydym eisoes wedi trafod cynigion o'r fath gyda Hyrwyddo Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyfyngedig a chwmni o'r Iseldiroedd sydd â diddordeb mewn prynu cig llo o Brydain.

David Lloyd: Would you therefore agree that restoring the live exports market is important to the regeneration of the agriculture industry until we have the appropriate resources to slaughter and process animals locally?

Christine Gwyther: Fel y dywedais, mae'r cytundeb yn galluogi ailddechrau allforion byw yn y pen draw ac mae'n bwysig cofio nad ydym eto yn allforio cig eidion ar yr asgwrn. Ni allwch siarad am allforion byw tra mae'r gwaharddiad rhannol hwnnw mewn grym o hyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli, os bydd hwn yn parhau am ddwy neu dair blynedd, y bydd yn rhaid inni fynd i'r afael â'r mater yng Nghymru o ddifrif. Rhaid inni geisio ychwanegu gwerth at ein cynnyrch, gan ddatblygu marchnadoedd cig llo a chig eidion tarw. Yr ydym yn parhau i fewnforio cig eidion tarw, a gallai ein ffermwyr fod yn manteisio ar y

department and the unions have taken this on board, and we are working to produce home-grown veal and bull beef.

Peter Rogers: Dai Lloyd is right to ask about the crisis in British and Welsh agriculture. However, you will remember the young farmer in my area who lost his suckler cow premium last year. With the leasing into the quota, that premium would be worth about £6,000. That man has five young children. I made representation to you and you turned the appeal down. I wrote to you by return to tell you that you had been misinformed on one item. Last week, you told me that you had not received the letter, so I sent you another by return. Christmas is approaching, so will you be able to meet me so that I can show you where I believe the mistake has been made?

Christine Gwyther: I will be able to meet you but, with respect to your constituent, this Chamber is not the right place to discuss his private business. I will discuss generalities in the Chamber but, in deference to your constituent, we should discuss this privately. It includes a matter of commercial confidentiality and maybe you should seek your constituent's permission before raising it in Plenary.

Mick Bates: Part of this question demands positive action, and I am pleased to hear of some of the measures that you have already taken. I would like to move on to the organic situation, because I attended an event promoting Welsh organic produce in this building today. There was a beautiful display and top-notch people but no press or camera. This event should have been launched with the publicity that it deserves. Is it not time that we employed a marketing company to do a decent public relations job on behalf of our Agriculture and Rural Development Committee?

farchnad honno, ond nid ydynt yn gwneud hynny'n llawn ar hyn o bryd. Fel y dywedais, mae Awdurdod Datblygu Cymru, yr adran amaethyddiaeth a'r undebau wedi ystyried hyn ac yr ydym yn gweithio i gynhyrchu cig llo a chig eidion tarw a dyfwyd gartref.

Peter Rogers: Mae Dai Lloyd yn iawn i'ch holi ynghylch yr argyfwng amaeth ym Mhrydain ac yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwch yn cofio'r ffermwr ifanc yn fy ardal i a gollodd ei breimiwm buchod sugno y llynedd. Gyda'r les i'r cwota, byddai'r premiwm hwnnw'n werth tua £6,000. Mae gan y dyn hwnnw bump o blant bach. Yr wyf wedi rhoi sylwadau i chi ac yr ydych wedi gwrthod yr apêl. Yn dilyn hynny ysgrifennais atoch i ddweud wrthyf eich bod wedi cael eich camarwain ar un mater. Yr wythnos diwethaf, dywedoch wrthyf nad oeddech eto wedi derbyn y llythyr, felly fe anfonais un arall atoch yn syth. Mae'r Nadolig ar ein gwarthaf, felly a fyddwch yn gallu fy nghyfarfod fel y gallaf ddangos ichi lle yr wyf fi'n credu y cafodd y camgymeriad ei wneud?

Christine Gwyther: Byddaf yn gallu eich cyfarfod, ond gyda pharch i'ch etholwr, nid y Siambr hon yw'r lle i drafod busnes preifat. Yr wyf yn fodlon trafod pynciau cyffredinol yn y siambr ond, er parch i'ch etholwr, dylem drafod hyn yn gyfrinachol. Mae'n cynnwys mater o gyfrinachedd masnachol ac efallai y dylech gael caniatâd eich etholwr cyn ei drafod mewn Cyfarfod Llawn.

Mick Bates: Mae rhan o'r cwestiwn hwn yn galw am weithredu cadarnhaol, ac yr wyf yn falch i glywed am rai o'r mesurau yr ydych eisoes wedi eu cymryd. Hoffwn symud ymlaen i'r sefyllfa organig, oherwydd yr oeddwn yn bresennol mewn digwyddiad a oedd yn hyrwyddo cynnyrch organig Cymru yn yr adeilad hwn heddiw. Yr oedd arddangosfa hyfryd a phobl bwysig iawn yno ond nid oedd unrhyw un o'r wasg yno ac nid oedd camera ychwaith. Dylai'r digwyddiad hwn fod wedi ei lansio gyda'r cyhoeddusrwydd haeddiannol. Onid yw'n bryd cyflogi cwmni marchnata i sicrhau cysylltiadau cyhoeddus teilwng ar ran ein Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig?

The Presiding Officer: Order. This question is about live exports.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r cwestiwn hwn ar allforion byw.

Mick Bates: We can export organic produce.

Mike Bates: Gallwn allforio cynnyrch organig.

Christine Gwyther: Can we please export Liberal Assembly Members, but maybe not for another three and a half years?

Christine Gwyther: A allwn ni allforio Aelodau Rhyddfrydol y Cynulliad os gwelwch yn dda, ond ddim am rhyw ddwy neu dair blynedd arall efallai.

I am very keen on organic food and produce, and on promoting it, because it yields such premium prices for our producers. I had to go to a funeral this morning so I could not attend the event you mentioned. No other reason would have stopped me. I returned in time to eat a meal upstairs before I came to the Chamber and I am still digesting it. It was wonderful and I would commend the food that was on offer here today to anybody. As far as a photographer is concerned, I have been told that one was commissioned but failed to turn up, so alternative provision had to be made. That is regrettable.

Yr wyf yn hoff iawn o fwyd a chynnyrch organig ac yn awyddus i'w hyrwyddo, gan ei fod yn golygu prisiau da i'n cynhyrchwyr. Yr oedd yn rhaid imi fynd i angladd y bore yma felly nid oeddwn yn gallu bod yn bresennol yn y digwyddiad yr oeddech yn ei grybwyll. Ni fyddai unrhyw reswm arall wedi fy nghadw draw. Yr oeddwn wedi dychwelyd mewn da bryd i gael cyfle i fwyta pryd o fwyd i fyny'r grisiau cyn dod i'r Siambr. Yr wyf yn dal i'w dreulio. Yr oedd yn arbennig, ac yr wyf yn argymhell y bwyd a oedd ar gael yma heddiw i unrhyw un. O ran cael ffotograffydd, dywedwyd wrthyf y cafodd un ei gomisiynu ond nad oedd wedi gallu bod yn bresennol, felly bu rhaid gwneud trefniadau eraill. Yr wyf yn gresynu am hynny.

Costau Archwiliadau Glendid mewn Llaethdai Dairy Hygiene Inspection Charges

Q2 Alun Cairns: What plans does Christine Gwyther have to alleviate the dairy hygiene inspection charges? (OAQ2554)

C2 Alun Cairns: Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i ostwng costau archwiliadau glendid mewn llaethdai? (OAQ2530)

Christine Gwyther: The Assembly has taken a decision, in principle, to fund dairy hygiene inspection charges in Wales, which will relieve the hard-pressed dairy industry of a significant burden. European approval issues must be clarified before this can be implemented. However, we are determined to do everything possible to resolve, or find a way around these problems.

Christine Gwyther: Mae'r Cynulliad wedi dod i benderfyniad, ar egwyddor, i gyllido costau archwiliadau glendid mewn llaethdai yng Nghymru, a fydd yn lliniaru'r baich sylweddol sydd yn pwysu ar y diwydiant llaeth, sydd eisoes dan straen aruthrol. Rhaid egluro'r materion sydd yn ymwneud â chymeradwyaeth Ewropeaidd cyn y gellir rhoi hyn ar waith. Fodd bynnag, yr ydym yn benderfynol ein bod am wneud pob dim sydd o fewn ein gallu i ddatrys neu ddod o hyd i ffordd o gylch y problemau hyn.

Alun Cairns: Do you accept that the intervention of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food in this issue is yet another example of the Blair Government and the

Alun Cairns: A ydych chi'n derbyn bod ymyrraeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y mater hwn yn enghraifft arall o Lywodraeth Blair a

Millbank machine seeking to undermine the Assembly's credibility, and what guarantees can you give that this issue will not result in the same fiasco as the calf processing aid scheme issue did?

Christine Gwyther: I totally refute everything that you have just orated, Alun. It is nothing to do with the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, or its Minister, getting in the way. It is to do with a difference of opinion between two legal bodies. We are seeking to resolve this problem to ensure, as you quite rightly highlighted, that we do not fall foul of the European Commission.

Ieuan Wyn Jones: Christine, yr oeddech yn ymwybodol fod y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi cytuno'n unfrydol y dylid cyflwyno cynnig i'r Cynulliad ein bod yn talu'r costau archwiliadau glendid mewn llaethdai, a bod cyfreithwyr y Cynulliad wedi dweud, drwy eu swyddogion, bod hawl gennym i wneud hyn. Felly, onid oeddech yn siomedig bod cyfreithwyr y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi dweud bod yn rhaid inni gael cadarnhad gan Ewrop?

A allwch roi addewid i'r Cynulliad heddiw na fyddwch yn gwrando ar sylwadau'r Weinyddiaeth, a bod angen inni wrando ar y dystiolaeth yr ydym wedi ei derbyn gan ein cyfreithwyr ein hunain a bwrw ymlaen â'r cynllun hwn yn ddi-oed?

Christine Gwyther: Yes, you are right. This has support across the board. It has the support of the Cabinet and the Finance Secretary, who announced it in her budget statement. Dairy farmers will benefit enormously from it. In case people get the wrong idea, I should mention that we are only saying that the inspection charge for each dairy farmer should be lifted once every three years. Farmers will have to meet the cost themselves if an additional inspection is required because they are not following instructions, or because their standards are not up to scratch. Therefore, we are rewarding good, not bad practice, which is also important. It is good use of public money.

pheiriant Millbank yn ceisio tanseilio hygrededd y Cynulliad, a pha warantau y gallwch chi eu rhoi na fydd y mater hwn yn arwain at yr un anrhefn ag a welwyd gyda'r cynllun cymorth prosesu lloi?

Christine Gwyther: Yr wyf yn gwrthod popeth a oedd yn eich araith yn llwyr, Alun. Nid oes a wnelo'r peth ag ymyrraeth gan yr Adran Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd na'i Gweinidog. Mae'n ymwneud â gwahaniaeth barn rhwng dau gorff cyfreithiol. Yr ydym yn bwriadu datrys y broblem hon i sicrhau, fel yr oedd yn ddigon teg ichi ei nodi, nad ydym yn tynnu'r Comisiwn Ewropeaidd i'n pen.

Ieuan Wyn Jones: Christine, you were aware that the Agriculture and Rural Development Committee had agreed unanimously that a motion should be proposed to the Assembly that we pay dairy hygiene inspection charges, and that the Assembly's lawyers had stated, through their officials, that we have a right to do so. Therefore, were you not disappointed that the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food's lawyers said that we had to have confirmation from Europe?

Can you give an assurance to the Assembly today that you will not be listening to MAFF's comments and that we need to listen to the evidence received from our own lawyers and proceed with this scheme without delay?

Christine Gwyther: Gallaf, yr ydych yn gywir. Mae hwn yn derbyn cefnogaeth amlbleidiol. Caiff ei gefnogi gan y Cabinet a'r Ysgrifennydd Cyllid, a gyhoeddodd hynny yn ei datganiad cyllid. Bydd ffermwyr llaeth ar eu hennill yn fawr o'i herwydd. Rhag ofn i bobl gamddeall, dylwn grybwyll mai dim ond dweud yr ydym ni y dylid diddymu'r gost archwilio ar gyfer pob ffermwr llaeth unwaith bob tair blynedd. Bydd rhaid i'r ffermwyr dalu'r costau eu hunain os bydd angen archwiliad ychwanegol arnynt oherwydd nad ydynt yn dilyn y cyfarwyddiadau neu os nad yw eu safonau'n ddigon da. Felly, yr ydym yn gwobrwyo arferion da nid drwg sydd hefyd yn bwysig iawn wrth drafod arian cyhoeddus.

Our Welsh lawyers gave us their opinion and then asked lawyers from MAFF for their opinion—not approval. It is because that opinion was different that our lawyers are reconsidering. That does not mean that our resolve has been sapped at all.

Rhoddodd ein cyfreithwyr Cymreig eu barn inni ac yna gofynnwyd i gyfreithwyr MAFF am eu barn—nid eu cymeradwyaeth. Oherwydd bod y farn honno yn wahanol y mae ein cyfreithwyr yn ailystyried y mater. Nid yw hynny'n golygu ein bod wedi colli ein gallu i ddod i benderfyniad o gwbl.

Cost y Ddeddfwriaeth Hawl i Grwydro Cost of Right to Roam Legislation

Q3 Glyn Davies: What are the costs to the agriculture and rural affairs budget of the proposed right to roam legislation in 2000-01? (OAQ2548)

C3 Glyn Davies: Beth fydd cost y ddeddfwriaeth hawl i grwydro arfaethedig yn 2000-01 i'r gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig? (OAQ2548)

Christine Gwyther: The main additional costs will be for work undertaken by the Countryside Council for Wales, whose responsibility it will be to identify and map the land to which the new right of access will apply; to decide on the closure or restriction of access to that land; to issue guidance and codes of practice to walkers and landowners; and to support the new National Access Forum for Wales. An extra £200,000 has been allocated to the Countryside Council for Wales in the Assembly's draft budget in recognition of increased workload from the European directives and new primary legislation, including that providing access to the open countryside.

Christine Gwyther: Y prif gostau ychwanegol fydd cost gwaith a wneir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, a fydd yn gyfrifol am ddiffinio a mapio'r tir lle bydd yr hawl mynediad newydd yn bodoli; penderfynu ar gau neu gyfyngu mynediad i'r tir hwnnw; rhoi canllawiau a chodau ymarfer i gerddwyr a thirfeddianwyr; a chefnogi'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol newydd i Gymru. Dyrannwyd £200,000 ychwanegol i Gyngor Cefn Gwlad Cymru yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad i gydnabod y llwyth gwaith ychwanegol yn sgîl y cyfarwydddebau o Ewrop a deddfwriaeth gynradd newydd, yn cynnwys honno sy'n darparu mynediad i gefn gwlad.

2:29 p.m.

Glyn Davies: Your answer identifies the financial cost and that is what I asked for. More importantly, do you accept that the real cost to this Assembly, in supporting this, the most bullying, confiscatory piece of 'New Labour, new envy' legislation yet to emanate from the Blair Government, will be more countryside antipathy towards your Labour Government and, unfortunately, this Assembly?

Glyn Davies: Mae eich ateb yn nodi'r gost ariannol a dyna y gofynnais amdano. Yn bwysicach, ydych chi'n derbyn mai'r wir gost i'r Cynulliad o gefnogi hyn, y darn mwyaf llawdrwm, gwaharddol o ddeddfwriaeth 'Llafur Newydd, eiddigedd newydd' eto i ddeillio o Lywodraeth Blair, fydd mwy o ddrwgdeimlad yng nghefn gwlad tuag at eich Llywodraeth Lafur ac, ysywaeth, tuag at y Cynulliad hwn?

Christine Gwyther: I am glad that you recognised that I answered the question finally. That was nice of you. *[Interruption.]* You said I did. I was listening carefully. *[Interruption.]* Do you not think I did? I referred to the budget that has been provided and that is what you asked.

Christine Gwyther: Yr wyf yn falch ichi gydnabod imi ateb y cwestiwn o'r diwedd. Yr oedd hynny'n glên ar eich rhan. *[Torri ar draws.]* Dywedasoeh fy mod wedi. Yr oeddwn yn gwrando'n astud. *[Torri ar draws.]* Ydych chi ddim yn meddwl i mi wneud? Cyfeiriais at y gyllideb a ddarparwyd at dyna oedd eich cwestiwn.

The Presiding Officer: Order. We cannot have a conversation.

Christine Gwyther: I apologise, and I am sure that they also apologise. I think that you were talking about the cost, perhaps the human cost, to landowners. Landowners will have the same rights towards those who go on their land as they do now. There will be no increased costs. Walkers will not be allowed to walk on cultivated fields and on curtilage, so they will not be tramping around people's houses. The cost benefit to the people who will take advantage of the right to roam is that they will be able to go to areas that they have not visited previously and will receive health benefits. I am sure that Jane Hutt agrees that health is not only about what happens in hospitals but in other walks of life.

Nick Bourne: You said that there would be no costs to landowners as a result of this legislation. You may care to reflect on that. Will there be any costs and, if not, how will this be paid for? You did not answer Glyn Davies's question. It is either being paid for out of the budget or by landowners. I appreciate that I am only a consultee. As I am not a member of the Agriculture and Rural Development Committee, Rosemary Butler would not even consider me a consultee. Will you confirm that there will be no costs to landowners from these proposals?

Christine Gwyther: There will be no increased costs for landowners.

Nick Bourne: No additional costs?

Christine Gwyther: Absolutely not. The mutterings about insurance claims are only anecdotal. All the evidence suggests that insurance companies will be as competitive with their insurees as they are now. You should not worry about that. I have talked to those organisations, such as the national parks, which have walkers on their lands. We must realise that people like walking where they know they will be safe and like the well-trodden footpaths that they already use. Fears that hordes will run across people's lands are unfounded.

Y Llywydd: Trefn. Ni allwn gynnal sgwrs.

Christine Gwyther: Ymddiheuraf, ac yr wyf yn siŵr eu bod hwythau hefyd yn ymddiheuro. Yr wyf yn meddwl eich bod yn sôn am y gost, efallai y gost ddynol, i dirfeddianwyr. Bydd gan dirfeddianwyr yr un hawliau tuag at bobl sydd yn mynd ar eu tir ag sydd ganddynt yn awr. Ni fydd costau cynyddol. Ni chaniateir i gerddwyr gerdded ar gaeau sydd wedi'u trin nac ar libart, felly ni fyddant yn trampio o gwmpas tai pobl. Y fantais o ran cost i'r bobl fydd yn manteisio ar yr hawl i grwydro yw y byddant yn cael mynd i lefydd lle na fuont o'r blaen ac fe gânt fanteision iechyd. Yr wyf yn siŵr fod Jane Hutt yn cytuno fod a wnelo iechyd â mwy na'r hyn sydd yn digwydd mewn ysbytai, ond â gweithgareddau eraill mewn bywyd.

Nick Bourne: Dywedasoeh na fyddai dim costau i dirfeddianwyr o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon. Efallai yr hoffech bendroni ar hynny. A fydd yna unrhyw gostau, ac os na fydd, sut y telir am hyn? Ni wnaethoch ateb cwestiwn Glyn Davies. Mae'n cael ei ariannu naill ai gan y gyllideb neu gan y tiffeddianwyr. Deallaf mai dim ond un yr ymgynghorir ag ef ydwyf fi. Gan nad wyf yn aelod o'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ni fyddai Rosemary Butler hyd yn oed yn ystyried ymgynghori â mi. A wnewch chi gadarnhau na fydd dim costau i dirfeddianwyr yn deillio o'r cynigion hyn?

Christine Gwyther: Ni fydd costau cynyddol i dirfeddianwyr.

Nick Bourne: Dim costau ychwanegol?

Christine Gwyther: Dim o gwbl. Anecdotaidd pur yw'r sibrydion am hawliadau yswiriant. Mae pob tystiolaeth yn awgrymu y bydd cwmnïau yswiriant yr un mor gystadleuol gyda'u cwsmeriaid ag y maent ar hyn o bryd. Ni ddylech boeni am hynny. Yr wyf wedi siarad â'r cyrff hynny, fel y parciau cenedlaethol, sydd yn derbyn cerddwyr ar eu tiroedd. Rhaid inni sylweddoli bod pobl yn hoffi cerdded lle gwyddant y byddant yn ddiogel a hoffant y llwybrau cyfarwydd a ddefnyddiant yn barod. Nid oes unrhyw sail i ofnau y bydd lluoedd o

bobl yn rhedeg dros diroedd pobl.

Rhodri Glyn Thomas: Wrth wrando ar yr atebion i gwestiynau Glyn Davies a Nick Bourne, yr wyf yn mynd yn fwyfwy amheus ynglŷn â'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r rhai sydd o'r farn fod y darn o ddeddfwriaeth sydd yn ymdrin â'r hawl i grwydro yn mynd i wneud pobl yn gyfrifol ac yn ofalus wrth gerdded yng nghefn gwlad yn byw mewn byd ffantasi. Bydd problemau yn codi a dyna'r cwestiwn sylfaenol ynglŷn â chost y goruchwyllo. Yr ydym fel plaid o'r farn mai partneriaeth wirfoddol ddylai reoli'r hawl i bobl gerdded yng nghefn gwlad. Serch hynny, os ydych yn gorfodi hyn ar gefn gwlad rhaid ichi sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer goruchwyllo. Nid wyf o'r farn fod £200,000 yn ddigonol.

Christine Gwyther: There is £200,000 for the Countryside Council for Wales to carry out work. It had £80,000 last year to carry out mapping work. That was the Secretary of State for Wales's decision and not ours. The national park authorities have been allocated an additional £500,000 in our green budget this year.

That will help with footpaths and way marking. I think we will find that most people will stick to areas they know. However, the right to roam legislation will ensure that serious walkers can go into areas that they could not have gone into before. They will not cause damage, they respect wildlife and farm life. I am sure that there will not be problems, but considerable benefits.

Rhodri Glyn Thomas: Listening to the answers to Glyn Davies and Nick Bourne's questions, I am becoming increasingly sceptical about this legislation. Those who believe that the part of the legislation that deals with the right to roam will make people responsible and careful when they walk in the countryside live in a fantasy world. Problems will arise and that is the basic question about the cost of supervision. We as a party believe that the right to roam in the countryside should be governed by a voluntary partnership. However, if you force this on rural areas you must ensure that there are enough resources available for supervision. I do not think that £200,000 is sufficient.

Christine Gwyther: Mae £200,000 i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gyflawni gwaith. Cafodd £80,000 y llynedd i wneud gwaith mapio. Penderfyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd hynny ac nid ein penderfyniad ni. Dyrannwyd £500,000 yn ychwanegol i awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn ein cyllideb werdd eleni.

Bydd hynny'n helpu gyda llwybrau a chyfeirbyst. Yr wyf yn meddwl y gwelwn y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cadw at ardaloedd y maent yn eu hadnabod. Fodd bynnag, bydd y ddeddfwriaeth hawl i grwydro'n sicrhau y gall cerddwyr difrifol fynd i ardaloedd lle na allent fod wedi mynd o'r blaen. Ni wnânt achosi difrod, maent yn parchu bywyd gwylt a bywyd y fferm. Yr wyf yn siŵr nad problemau a geir, ond manteision sylweddol.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Helen Mary Jones: Point of order. My point relates to Standing Order No. 6.31 on emergency questions. I would appreciate clearer guidance for my own benefit as to what constitutes an emergency. In my view, the fact that every hospital between Carmarthen and Cardiff is closed to emergency admissions this afternoon constitutes an emergency. I would appreciate clarification on why it is not possible to ask

Helen Mary Jones: Pwynt o drefn, ynglŷn â Rheol Sefydlog Rhif 6.31 ar gwestiynau brys. Hoffwn arweiniad cliriach er fy mwyn i ynghylch beth sydd yn cael ei gyfrif yn fater brys. Yn fy marn i, mae'r ffaith fod pob ysbyty rhwng Caerfyrddin a Chaerdydd wedi cau i achosion argyfwng y prynhawn yma yn fater brys. Hoffwn eglurhad ynghylch pam nad ydyw'n bosibl gofyn y cwestiwn hwnnw.

that question.

The Presiding Officer: This happened last week. Someone I will not name, who was not allowed to ask an emergency question, asked the question as a point of order and received a reply. I remarked on that at the time. It is not appropriate. If Members want to discuss my discretion on urgent matters of public importance, my door is always open. Sometimes I think it is too open. That would offer an opportunity to raise these matters. These are not matters on which we pronounce in the Chamber. I would be grateful if Members would not follow this interesting practice, which has recently developed, of asking their questions anyway.

Lorraine Barrett: Point of order relating to Standing Order No. 7.3, which states that

‘speeches shall be relevant to the business before the Assembly, and avoid tedious repetition.’

Reference has been made on several occasions today and yesterday to comments made by Rosemary Butler at last week’s meeting of the Pre-16 Education Committee. Her comments have been taken out of context and she has been misrepresented on each occasion. I have been trying to get the opportunity to put the record straight. The matter was raised by Nick Bourne during the Secretary for Agriculture and Rural Development’s questions. I thought it was tedious and irrelevant.

The Presiding Officer: I am afraid that being tedious does not apply to questions. It applies to speeches. However, it was a good try.

Elin Jones: Pwynt o drefn. Mae’n ymwneud â Rheol Sefydlog Rhif 6.8 ynglŷn â datganiadau gan Ysgrifenyddion. Ddoe cawsom ddau ddatganiad gan y Prif Ysgrifennydd nad oeddent ar yr agenda, un ohonynt yn dilyn datblygiadau annisgwyl ym Mae Caerdydd a’r llall ar y cynllun Llais Ifanc. Yr oeddwn o dan yr argraff mai cyfle i wneud datganiad ar faterion brys na fedrid eu rhoi ar yr agenda oedd y datganiadau hyn. Nid datganiad felly oedd Llais Ifanc. Yr oedd cryn baratoi wedi mynd i drefnu’r

Y Llywydd: Digwyddodd hyn yr wythnos diwethaf. Bu i rywun nad wyf am ei enwi, na chawsai ganiatâd i ofyn cwestiwn brys, ofyn y cwestiwn fel pwynt o drefn a chael ateb. Gwneuthum sylw ar hynny ar y pryd. Nid yw’n briodol. Os yw Aelodau eisiau trafod fy nisgresiwn ar faterion brys o bwys cyhoeddus, mae fy nrws bob amser yn agored. Weithiau byddaf yn meddwl ei fod yn rhy agored. Byddai hynny’n rhoi cyfle i godi’r materion hyn. Nid materion yw’r rhain i’w cyhoeddi yn y Siambr. Byddwn yn ddiolchgar pe na bai Aelodau’n dilyn yr arfer diddorol hwn, a ddatblygodd yn ddiweddar, o ofyn eu cwestiynau beth bynnag.

Lorraine Barrett: Pwynt o drefn ynglŷn â Rheol Sefydlog Rhif 7.3, sydd yn datgan

‘bydd areithiau yn berthnasol i’r busnes sydd gerbron y Cynulliad, ac yn osgoi ailadrodd diflas.’

Cyfeiriwyd sawl gwaith heddiw a ddoe at sylwadau a wnaethpwyd gan Rosemary Butler yng nghyfarfod y Pwyllgor Addysg Cyn-16 yr wythnos diwethaf. Cymerwyd ei sylwadau allan o’u cyd-destun a chafodd ei chamgyfleu bob tro. Yr wyf wedi bod yn ceisio cael y cyfle i gywiro’r gwall. Codwyd y mater gan Nick Bourne yn ystod cwestiynau’r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yr oeddwn o’r farn ei fod yn ddiflas ac yn amherthnasol.

Y Llywydd: Mae arnaf ofn nad yw bod yn ddiflas yn berthnasol i gwestiynau. Mae’n berthnasol i areithiau. Fodd bynnag, yr oedd yn ymgais dda.

Elin Jones: Point of order. This relates to Standing Order No. 6.8 on statements by Secretaries. Yesterday we had two statements by the First Secretary which were not on the agenda, one following the unexpected developments in Cardiff Bay and the other on the Young Voice initiative. I was under the impression that statements were an opportunity to make an announcement on urgent issues that could not be put on the agenda. Young Voice was not such a statement. Substantial preparation was

digwyddiad yn neuadd y Cynulliad lle'r oedd tua 50 o bobl ifainc, sgrîn fawr gyfrifiadurol a ffotograffwyr. Yr oedd nifer o bobl yn gwybod am y digwyddiad hwn ond ni chafodd y gwrthbleidiau wybod. Nid oedd copi o'r datganiad ar gael tan tua hanner awr cyn hynny. Golygai hynny na chawsom drafodaeth lawn a chytbwys ar y fenter bwysig hon yn y Cynulliad. Collwyd cyfle.

Gofynnaf i'r Llywydd am ganllawiau clir ynglŷn â'r hyn sydd yn galw am ddatganiad Ysgrifennydd. Mae'n fy nharo mai materion brys o bwysigrwydd cenedlaethol sydd yn haeddu datganiad o'r fath. Nid yw'n gyfle i'r Ysgrifennydd drefnu datganiad i'r wasg.

Y Llywydd: Cyn belled ag y mae'r Llywydd yn y cwestiwn ac yn ôl Rheolau Sefydlog—ac fe ymatebaf ymhellach i hyn os bydd angen—mae hawl gan Ysgrifennydd Cynulliad i ofyn am gael gwneud datganiad ar unrhyw adeg yn ystod y Cyfarfod Llawn. Y rheswm fod y ddarpariaeth hon yn bod yn y Rheolau Sefydlog yw i roi cyfle i wneud datganiadau ar fyr rybudd. Mater i'r Llywodraeth ac i'r Cabinet yw penderfynu pa ddatganiadau y maent yn teimlo bod angen eu dwyn gerbron. Yr wyf yn eu hannog i wneud datganiadau yn hytrach nag ateb cwestiynau brys oherwydd ei fod yn rhoi mwy o gyfle i Aelodau ofyn cwestiynau.

2:39 p.m.

Dyna pam fy mod yn amddiffyn hawl aelodau'r Cabinet i wneud datganiadau yn ôl y Rheolau Sefydlog ar unrhyw adeg a ddewisant o fewn yr amserlen. Nid oes angen rhoi rhybudd ar yr agenda ymlaen llaw o ddatganiad gan Ysgrifennydd. Credaf fod y drefn hon yn dderbyniol oherwydd ei bod yn rhoi cyfle i gyflwyno gwybodaeth a chyfle i Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau. Yr wyf yn sicr na fyddai unrhyw Aelod am golli'r cyfle i ofyn cwestiynau.

involved in staging this event in the Assembly hall where there were around 50 young people, a large computerised screen and photographers. Quite a few people knew about the event but the opposition parties were not informed. A copy of the statement was not available until about half an hour before. That meant that we did not have a full and balanced discussion on this important enterprise in the Assembly. An opportunity was lost.

I ask the Presiding Officer for clear guidelines on what calls for a Secretary's statement. It strikes me that urgent matters of national importance deserve such a statement. It is not an opportunity for the Secretary to arrange a press release.

The Presiding Officer: As far as the Presiding Officer is concerned and according to Standing Orders—and I will respond further if necessary—an Assembly Secretary has the right to request to make a statement at any point during Plenary. The reason for this provision under Standing Orders is to give Assembly Secretaries an opportunity to make a statement at short notice. It is for the Cabinet to decide which statements they feel need to be brought before us. I encourage them to make statements rather than answer urgent questions because it gives Members more of an opportunity to ask questions.

That is why I defend the right of Cabinet members to make statements in accordance with the Standing Orders at any time they choose within the timetable. There is no need to give prior notice on the agenda of a Secretary's statement. I believe that is an acceptable procedure because it gives an opportunity to present information and an opportunity for Assembly Members to ask questions. I am sure that no Member would wish to lose the opportunity to ask questions.

Datganiad ar Fodwleiddio Cymorthdaliadau Uniongyrchol i Ffermwyr

Statement on the Modulation of Direct Subsidies to Farmers

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): This is a statement about the UK Government's proposals that direct subsidies to farmers should be modulated to help fund rural development measures. I will summarise the proposal.

A small percentage of the subsidy that now goes to farmers directly would be taken out, matched with a similar sum of new money from the Treasury and used to fund action designed to boost the long-term future of farming in Wales. That would help us to increase the impact we can make on farming and to move from short-term handouts to strategic action to help build a sustainable future for farming in Wales. This would enable us to invest extra money in the priorities of the rural development plan, which we will consider next week. These include grants for processing and marketing lamb, beef and dairy products so as to add value, make the industry more viable and create more jobs in rural areas. Other priorities are to provide support for farmers to co-operate in marketing their produce and support for training, information and advisory services to help farmers to adapt. That builds on the idea of Farming Connect from our Liberal Democrat friends. Another priority is to provide help for young farmers, if the study we are commissioning demonstrates the potential value of doing so. Also, there is the Tir Gofal scheme, and grants to help farmers to convert to organic production so that they can take advantage of those market opportunities.

Nick Brown's announcement yesterday in Parliament offers us a real opportunity, which both the First Secretary and myself have discussed with him. His plan would give us twice the money saved by modulation to plough back into farming in Wales. European member states have been given the discretion to modulate direct subsidy payments through the horizontal regulation agreed as part of Agenda 2000. This means that under

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Datganiad yw hwn ynghylch cynigion Llywodraeth y DU y dylid modiwliddio cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermwyr er mwyn helpu i dalu am fesurau datblygu gwledig. Crynhoaf y cynnig.

Byddai canran fechan o'r cymhorthdal sydd yn mynd i ffermwyr yn uniongyrchol yn awr yn cael ei thynnu allan, a byddai swm tebyg o arian newydd yn cael ei ychwanegu ati gan y Trysorlys, a defnyddid yr arian i dalu am weithredu i hybu dyfodol tymor-hir ffermio yng Nghymru. Byddai hynny'n ein helpu i gynyddu'r effaith y gallwn ei chael ar ffermio ac i symud o daliadau cymorth tymor byr i weithredu strategol i helpu i adeiladu dyfodol cynaliadwy i ffermio yng Nghymru. Byddai hyn yn ein galluogi i fuddsoddi arian ychwanegol ym mlaenoriaethau'r cynllun datblygu gwledig, a ystyrir gennym yr wythnos nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys grantiau ar gyfer prosesu a marchnata cynnyrch cig oen, eidion a llaeth er mwyn ychwanegu gwerth, gwneud y diwydiant yn fwy hyfyw a chreu mwy o swyddi mewn ardaloedd gwledig. Mae blaenoriaethau eraill yn cynnwys darparu cefnogaeth i ffermwyr gydweithredu wrth farchnata'u cynnyrch a chefnogaeth i wasanaethau hyfforddi, gwybodaeth a chynghori i helpu ffermwyr i ymaddasu. Mae hynny'n adeiladu ar y syniad o Gyswllt Ffermio gan ein cyfeillion yn y Democratiaid Rhyddfrydol. Blaenoriaeth arall yw darparu cymorth i ffermwyr ifanc, os bydd yr astudiaeth yr ydym yn ei chomisiynu'n dangos bod gwerth potensial i wneud hynny. Hefyd, ceir y cynllun Tir Gofal, a grantiau i helpu ffermwyr i newid i gynhyrchu organig fel y gallant fanteisio ar y cyfleoedd hynny yn y farchnad.

Mae cyhoeddiad Nick Brown yn y Senedd ddoe yn rhoi cyfle gwirioneddol inni, ac mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau wedi trafod gydag ef. Byddai ei gynllun yn rhoi dwy waith yr arian a arbedid drwy fodiwliddio i'w roi yn ôl i mewn i ffermio yng Nghymru. Cafodd aelod-wladwriaethau Ewrop yr hawl i fodiwliddio taliadau cymhorthdal uniongyrchol drwy'r rheoliad llorweddol a gytunwyd yn rhan o Agenda

European law, direct subsidy payments can be reduced by up to 20 per cent. The money saved can be spent on the four accompanying measures of the rural development regulation.

These four measures are the reform scheme for support for hill farmers, agri-environmental schemes including support for organic farming, early retirement schemes for farmers and afforestation of agricultural land. Modulation would have to apply consistently throughout the UK. Agreement by the Assembly, the Scottish Executive and the Northern Ireland Assembly, as well as the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, is needed if modulation is to apply.

The Agriculture and Rural Development Committee discussed modulation in September and recommended that I negotiate with other Agriculture Ministers on the basis of applying modulation at a rate of 5 per cent across the board. This was on the basis that funds resulting from modulation would be returned to Wales and that full match funding would be made available from the Treasury. Nick Brown, the Minister of Agriculture, Fisheries and Food, made a statement in Parliament yesterday, setting out the UK Government's proposals on modulation. They are that direct subsidy payments for all farmers should be modulated by 2.5 per cent in 2001 and rise gradually so that by 2005 the rate of modulation will be 4.5 per cent. The money raised in Wales would be retained here for spending in support of the rural development plan. In addition, and this needs to be ratified in the forthcoming spending review, the UK Treasury will provide £1 of matching money for every £1 raised in modulation from farmers. The system is intended to work in a way that would allow this matching money to be used on any of the measures covered in the rural development regulation, including the priorities outlined at the start of this statement and not only the four accompanying measures.

There is opposition in the farming community to modulation at a time when farm incomes are so low. That is why there is

2000. Mae hyn yn golygu y gall taliadau cymhorthdal uniongyrchol, dan gyfraith Ewrop, gael eu lleihau hyd at 20 y cant. Gall yr arian a arbedir gael ei wario ar y pedwar mesur a gyflwynwyd gyda'r rheoliad datblygu gwledig.

Y pedwar mesur hyn yw'r cynllun diwygio ar gyfer cefnogaeth i ffermwyr mynydd, cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cynnwys cefnogaeth i ffermio organig, cynlluniau ymddeol yn gynnar i ffermwyr a choedwigo tir amaethyddol. Byddai'n rhaid i fodiwleiddio ddigwydd yn gyson ar draws y DU. Mae angen cytundeb gan y Cynulliad, Gweithrediaeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, os yw modiwlleiddio i ddigwydd.

Trafodwyd modiwlleiddio gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ym mis Medi ac argymhellwyd fy mod yn negodi gyda Gweinidogion Amaeth eraill ar sail gweithredu modiwlleiddio ar gyfradd o 5 y cant yn gyffredinol. Yr oedd hyn ar y sail y byddai arian a ddeiliai o fodiwleiddio'n cael ei ddychwelyd i Gymru ac y byddai'r Trysorlys yn darparu cyllid cyfatebol llawn. Gwnaeth Nick Brown, y Gweinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ddatganiad yn y Senedd ddoe, yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar fodiwleiddio, sef y dylai cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermwyr gael eu modiwlleiddio 2.5 y cant yn 2001 a chodi'n raddol nes bydd y gyfradd fodiwleiddio erbyn 2005 yn 4.5 y cant. Byddai'r arian a godid yng Nghymru yn cael ei gadw yma i'w wario i gefnogi'r cynllun datblygu gwledig. Ar ben hynny, ac mae angen cadarnhau hyn yn yr adolygiad gwariant sydd i ddod, bydd Trysorlys y DU yn darparu £1 o arian cyfatebol am bob £1 a godir drwy fodiwleiddio oddi wrth ffermwyr. Bwriedir i'r system weithio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i'r arian cyfatebol hwn gael ei wario ar unrhyw rai o'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliad datblygu gwledig, gan gynnwys y blaenoriaethau a amlinellwyd ar ddechrau'r datganiad hwn ac nid dim ond y pedwar mesur cyfochrog.

Mae gwrthwynebiad ymhlith ffermwyr i fodiwleiddio ar adeg pan fo incwm ffermydd mor isel. Dyna pam nad oes dim

no modulation for 2000, why the starting level in 2001 is 2.5 per cent and why the rate only rises gradually thereafter. Modulation will not apply to compensatory allowances for less favoured areas, such as hill livestock compensatory allowances. The proposals offer us a real opportunity, but we cannot expect anything in this complex area to be perfect. During the discussions we pressed hard on the issue of future funding levels and compensatory allowances for less favoured areas, such as the reformed HLCA scheme.

Agriculture and Rural Development Committee members are familiar with this problem. In November 1998, and in October this year, the Treasury allocated extra money for increased HLCA payments. Both payments were clearly marked as one-off necessary payments because of acute financial pressures experienced by people in the industry. Given how hard we worked for this extra cash, as I can testify from my own experience this year, and as the First Secretary can confirm having fought for the cash as Secretary of State for Wales, it was disappointing to hear some in the industry taking it for granted. They even said that this year's payment was not new money. However, it is new money and it has helped. Given that they were one-off payments, that extra cash does not affect the baseline and we must, therefore, show next year's provision reverting to the lower historic level.

In a statement to Parliament yesterday, Nick Brown said that the normal annual review for hill farm support would take place in autumn 2000. He has assured us that he will fight hard to secure adequate funding for compensatory allowances for the less favoured areas, making a similar case to the one that secured the extra cash this year and last year. He cannot guarantee success in advance but the bid will have our strong support. That has been put clearly on the record and I re-emphasise it today.

Some farmers will say that the modulation proposal should be dismissed out of hand. However, this Assembly must address the

modiwlleiddio am 2000, pam mai 2.5 y cant yw'r lefel dechrau yn 2001 a pham mai dim ond yn raddol y mae'r gyfradd yn codi wedi hynny. Ni fydd modiwlleiddio'n berthnasol i lwfansau digolledu i ardaloedd llai ffafriol, fel lwfansau iawndal da byw tir uchel (HLCA). Mae'r cynigion yn cynnig cyfle gwirioneddol inni, ond ni allwn ddisgwyl i ddim yn y maes cymhleth hwn fod yn berffaith. Yn ystod y trafodaethau buom yn pwyso'n galed ar fater lefelau ariannu yn y dyfodol a lwfansau digolledu ar gyfer ardaloedd llai ffafriol fel y cynllun lwfansau iawndal da byw tir uchel diwygiedig.

Mae aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn gyfarwydd â'r broblem hon. Ym mis Tachwedd 1998, ac ym mis Hydref eleni, dyrannodd y Trysorlys arian ychwanegol ar gyfer taliadau HLCA uwch. Yr oedd y ddau daliad wedi'u nodi'n glir fel taliadau angenrheidiol unwaith-ac-am-byth oherwydd pwysau ariannol difrifol a wynebai bobl yn y diwydiant. O feddwl mor galed y buom yn gweithio i gael yr arian ychwanegol yma, fel y gallaf dystio o'm profiad i fy hun eleni, ac fel y gall y Prif Ysgrifennydd gadarnhau ac yntau wedi ymladd am yr arian pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr oedd yn siom clywed rhai yn y diwydiant yn ei gymryd yn ganiataol. Dywedasant hyd yn oed nad arian newydd oedd taliad eleni. Fodd bynnag, arian newydd ydyw ac mae wedi helpu. Gan mai taliadau unigryw oeddent, nid yw'r arian ychwanegol hwnnw'n effeithio ar y llinell sylfaen a rhaid inni, felly, ddangos darpariaeth y flwyddyn nesaf yn dychwelyd i'r lefel hanesyddol is.

Mewn datganiad i'r Senedd ddoe, dywedodd Nick Brown y byddai'r adolygiad blynyddol arferol ar gyfer cymorth i ffermydd mynydd yn digwydd yn hydref 2000. Rhoddodd sicrwydd inni y bydd yn ymladd yn galed i sicrhau cyllid digonol ar gyfer lwfansau iawndal i'r ardaloedd llai ffafriol, gan wneud achos tebyg i'r un a sicrhaodd yr arian ychwanegol eleni a'r llynedd. Ni all warantu llwyddiant o flaen llaw, ond bydd y cais yn cael cefnogaeth gref gennym ni. Cofnodwyd hynny'n glir ac fe'i hailbwysleisias heddiw.

Dywed rhai ffermwyr y dylid gwrthod y cynnig modiwlleiddio yn ddiseremoni. Fodd bynnag, rhaid i'r Cynulliad hwn fynd i'r afael

fundamental question of how farming in Wales can adapt. The challenges were clearly outlined in our consultation document, 'Farming for the Future' which was published in the summer.

We must face facts. We need resources to assist long-term reform. We estimate that the proposals made yesterday by the UK Government would make an additional £39 million available to the Assembly during the period from 2000 to 2007, through match funding from the Treasury. That is new money in addition to money raised through modulation. The financial tables of the rural development plan, which we will debate next week, clearly show what schemes can be funded whether we proceed with modulation or not. The plan can be submitted to the commission while consultation continues on whether we should proceed with modulation.

The Assembly should support these proposals. Reform is never without pain. However, this scheme could help the Assembly proceed with a coherent approach to the future of farming. I will issue a consultation document on these proposals shortly. That consultation will seek views from farming organisations and others concerned with the future of farming and rural communities in Wales. Furthermore, I will work closely with the Agriculture and Rural Development Committee to consider feedback from that consultation and to determine how the Assembly should respond to the UK Government on this issue.

Rhodri Glyn Thomas: Nid oes gennyf gwestiwn ond fe ymatebaf i'r datganiad. Fel y dywedodd Christine, fe dderbyniodd hi gefnogaeth unfrydol y Pwyllgor i symud ymlaen gyda modwleiddio ac i drafod y mater â'r gwledydd eraill i weld a ellir cytuno. Croesawn y datganiad hwn ac yr wyf yn falch fod Christine yn cydnabod bod undebau amaethyddol a mudiadau eraill yng nghefn gwlad yn gwrthwynebu'r cynllun. Pwysaf ar Christine i sicrhau bod y broses ymgynghorol hon yn rhoi cyfle i bawb fynegi eu barn a'n bod yn ystyried y farn honno o ddifrif.

2:49 p.m.

â'r cwestiwn sylfaenol o sut y gall ffermio yng Nghymru ymaddasu. Amlinellwyd yr her yn glir yn ein dogfen ymgynghori, 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' a gyhoeddwyd yn yr haf.

Rhaid inni wynebu ffeithiau. Mae arnom angen adnoddau i helpu diwygiad tymor hir. Amcangyfrifwn y byddai'r cynigion a wnaethpwyd ddoe gan Lywodraeth y DU yn golygu bod £39 miliwn ychwanegol ar gael i'r Cynulliad yn ystod y cyfnod o 2000 i 2007, drwy gyllid cyfatebol gan y Trysorlys. Arian newydd yw hynny yn ychwanegol at yr arian a godir drwy fodiwleiddio. Mae tablau ariannol y cynllun datblygu gwledig, a drafodir yr wythnos nesaf, yn dangos yn glir pa gynlluniau y gellir eu hariannu os awn ymlaen â modiweiddio neu beidio. Gellir cyflwyno'r cynllun i'r comisiwn tra bod ymgynghori'n parhau ar a ddylem fynd ymlaen â modiweiddio ai peidio.

Dylai'r Cynulliad gefnogi'r cynigion hyn. Ni cheir diwygio heb boen. Fodd bynnag, gallai'r cynllun hwn helpu'r Cynulliad i fynd ati mewn ffordd gydlynol i ymdrin â dyfodol ffermio. Byddaf yn cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y cynigion hyn cyn hir. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n holi barn sefydliadau ffermio ac eraill sydd yn poeni am ddyfodol ffermio a chymunedau gwledig yng Nghymru. Ar ben hynny, byddaf yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i ystyried adborth yr ymgynghoriad hwnnw ac i benderfynu sut y dylai'r Cynulliad ymateb i Lywodraeth y DU ar y mater hwn.

Rhodri Glyn Thomas: I do not have a question but I will respond to the statement. As Christine stated, she received the Committee's unanimous support to proceed with modulation and to discuss the matter with the other countries to see whether an agreement could be reached. We welcome this statement and I am pleased that Christine acknowledges that agricultural unions and other movements in rural Wales oppose the scheme. I urge Christine to ensure that this consultation process allows everyone to voice their opinions and that we consider those opinions seriously.

Cynigiaf iddi, fel model, y modd yr ymdriniwyd â thaliadau lwfans iawndal da byw tir uchel. Dyna'r ffordd i gynnal proses ymgynghorol er mwyn sicrhau ein bod yn cael cefnogaeth lwyr i'r symudiadau hyn. Cafwyd gwrandawriad gwirioneddol i broblemau a gofidiau pobl yn ystod yr ymgynghoriad ynglŷn â iawndal da byw tir uchel. Yr wyf yn cytuno gyda Christine bod angen y math hwn o fenter er mwyn sicrhau dyfodol i'n diwydiant amaethyddol, ond mae'n eithriadol bwysig ein bod ni'n rhoi pob cyfle i bawb fynegi barn.

Christine Gwyther: I think you were probably being ironic about the HLCA consultation, which was squeezed into such a short period that I was impressed that the unions managed to get a full response from their members. It is an outstanding achievement for them and they have helped us complete the HLCA consultation. With the modulation consultation, it is important, as Rhodri said, that everybody has their say. I will instruct officials to undertake a six-week consultation—rather than the truncated HLCA consultation—including Christmas. It will therefore be six weeks and a bit starting as soon as possible.

Peter Rogers: I welcome today's statement, particularly the match funding and the extra money. It is a long-term solution and it is welcomed in the industry. However, there is nothing for the short term and that worries me. You were in Builth Wells yesterday, and would have spoken to many people, as I did. The crisis in agriculture is worse than it has ever been and there is a long hard winter ahead. However, the event in the cafeteria lunchtime today was a tribute to Welsh food. These are the sort of events that we should be organising across Wales to make people realise that they can support the rural economy by supporting Welsh produce.

There is no getting away from certain facts. Pig farmers have been devastated by unfair competition from right across the world. It is unfair that we have brought in animal rights.

I propose to her, as a model, the way hill livestock compensatory allowance payments were dealt with. That is the way to hold a consultation process in order to ensure that we get full support for these measures. The HLCA consultation listened carefully to people's problems and fears. I agree with Christine that we need this sort of initiative in order to safeguard the future of our agriculture industry, but it is important that we give everybody the opportunity to express a view.

Christine Gwyther: Mae'n debyg gen i mai bod yn eironig yr oeddech chi ynghylch yr ymgynghori ar lwfansau iawndal da byw tir uchel, a wasgwyd i mewn i gyfnod mor fyr nes imi ryfeddu bod yr undebau wedi llwyddo i gael ymateb llawn gan eu haelodau. Mae'n gamp arbennig ganddynt ac maent wedi'n helpu ni i gwblhau'r ymgynghori ar y lwfansau iawndal da byw tir uchel. Gyda'r ymgynghori ar fodiwleiddio, mae'n bwysig, fel y dywedodd Rhodri, fod pawb yn cael dweud eu dweud. Byddaf yn dweud wrth swyddogion am ymgynghori dros gyfnod chwe wythnos—yn hytrach na'r cyfnod byr a gafwyd ar gyfer yr HLCA—gan gynnwys y Nadolig. Felly bydd yn chwe wythnos a thipyn bach mwy, gan ddechrau cyn gynted ag y bo modd.

Peter Rogers: Croesawaf ddatganiad heddiw, yn enwedig y cyllid cyfatebol a'r arian ychwanegol. Mae'n ateb tymor hir ac fe'i croesewir yn y diwydiant. Fodd bynnag, nid oes dim ar gyfer y tymor byr ac mae hynny'n fy mhoeni. Yr oeddech yn Llanfair-ym-Muallt ddoe, a byddech wedi siarad â llawer o bobl, fel y gwneuthum i. Mae'r argyfwng ym myd amaeth yn waeth nag erioed ac mae gaeaf caled hir o'n blaen. Fodd bynnag, yr oedd y digwyddiad yn y ffreutur amser cinio heddiw yn deyrnged i fwyd Cymru. Dyma'r math o ddigwyddiadau y dylem fod yn eu trefnu ledled Cymru i ddangos i bobl y gallant gefnogi'r economi wledig drwy gefnogi cynnyrch Cymreig.

Nid oes modd osgoi rhai ffeithiau. Mae ffermwyr moch wedi dioddef yn enbyd gan gystadleuaeth annheg o bob rhan o'r byd. Mae'n annheg ein bod wedi dod â hawliau

We have brought in so many different regulations into the pig industry that they have destroyed the economic situation of our farmers while allowing much cheaper food into the country without any form of labelling. The length of time the report on the dairy industry took has caused the downfall of the industry. The loss of the cull ewe trade to France has stripped billions of pounds from the sheep industry, which is in dire straits.

Tony Blair had a high-profile meeting in London last week with union leaders to look at how we can get beef exports to Europe going. I welcome that. However, we must press ahead and try to alleviate the hardships in our rural areas particularly during this winter. I welcome the extra money and that we are going to build for the future, but for goodness' sake, let us all try to rally together to do something in the short term so that we can support rural areas.

Christine Gwyther: I will respond briefly, Llywydd.

Lorraine Barrett *rose*—

Christine Gwyther: Am I allowed to take an intervention?

The Presiding Officer: Order. I am taking questions on the statement.

Christine Gwyther: I apologise. I understand what Peter said. He is an exponent of the industry and therefore speaks with passion. I have attended other winter fairs in the rain and I thought that yesterday's fair was a positive and good event. I thoroughly enjoyed it. The best part of the event was the Welsh Lamb and Beef Promotions Limited stand. It is taking forward orders for over £2 million worth of beef exports to places such as Holland, and looking for other mainland continental destinations, starting in the new year. It is doing a professional job on behalf of the industry and there was a good buzz about the winter fair yesterday, which it was my pleasure to attend and see for myself.

anifeiliaid i mewn. Yr ydym wedi cyflwyno cymaint o wahanol reoliadau yn y diwydiant moch fel eu bod wedi dinistrio sefyllfa economaidd ein ffermwyr tra'n caniatáu i fwyd llawer rhatach ddod i mewn i'r wlad heb unrhyw fath o labelu. Cymerwyd cymaint o amser i lunio'r adroddiad ar y diwydiant llaeth nes peri cwmp y diwydiant. Mae colli'r fasnach famogiaid i Ffrainc wedi dwyn biliynau o bunnoedd oddi ar y diwydiant defaid, sydd mewn cyfyngder.

Cafodd Tony Blair gyfarfod proffil-uchel yn Llundain yr wythnos diwethaf gydag arweinwyr yr undebau i ystyried sut y gallwn gychwyn allforio cig eidion i Ewrop. Croesawaf hynny. Fodd bynnag, rhaid inni bwysu ymlaen a cheisio lleddfu'r caledi yn ein hardaloedd gwledig, yn enwedig yn ystod y gaeaf yma. Croesawaf yr arian ychwanegol a'r ffaith ein bod am adeiladu ar gyfer y dyfodol, ond er mwyn popeth, dewch inni geisio dod at ein gilydd i wneud rhywbeth yn y tymor byr fel y gallwn gefnogi'n hardaloedd gwledig.

Christine Gwyther: Ymatebaf yn fyr, Lywydd.

Lorraine Barrett *a gododd*—

Christine Gwyther: A wyf i'n cael cymryd myriad?

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn cymryd cwestiynau ar y datganiad.

Christine Gwyther: Ymddiheuraf. Yr wyf yn deall beth a ddywedodd Peter. Mae'n aelod o'r diwydiant ac felly'n siarad gydag angerdd. Yr wyf wedi mynychu ffeiriau gaeaf eraill yn y glaw ac yr oeddwn yn meddwl fod ffair ddoe'n ddigwyddiad positif a da. Fe'i mwynheais yn fawr. Rhan orau'r digwyddiad oedd stonin cwmni Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyf. Mae'n cymryd blaen-archebion am werth dros £2 filiwn o allforion cig eidion i lefydd fel yr Iseldiroedd, ac yn edrych am gyrchfannau eraill ar dir mawr y cyfandir, gan ddechrau yn y flwyddyn newydd. Mae'n cyflawni gwaith proffesiynol ar ran y diwydiant ac yr oedd teimlad da am y ffair aeaf ddoe, y cefais i'r pleser o'i mynychu a'i gweld dros fy hun.

Mick Bates: Thank you for your considered statement and, particularly, for the praise about the far-sighted Liberal Democrat agricultural policy which contains, as you rightly identified, an excellent suggestion called 'Farming Connect'. I am sure you will eventually get round to implementing that. However, I have never, in the history of this Assembly, felt such mixed emotions when hearing an announcement. I have long held a belief that the redistribution of agricultural support money is one of the many mechanisms to help secure and sustain our Welsh family farming structure.

It has been noted that the principle of modulation received unanimous support in the Committee. This however, comes at a time when agriculture is at an all time low. I am pleased that you accepted the principle of consultation over modulation and I am sure that the critical issues about the threshold and how it will be implemented will be dealt with fully. I was pleased to hear you announce that this modulated money would bring extra money above the Barnett formula funding into Wales. In the light of recent experiences, I hope that this has been confirmed by the best lawyers in the land. Our average income is low and I am concerned that this depression has led to a negative perception of modulation in a large part of the industry. This view—unlike your own—was confirmed by my conversations in Builth Wells on Tuesday. As a body, we must eliminate the perception that we seek a policy of robbing the many to pay a little bit to the few. In the long term, that could mean fewer farmers. I welcome that you mention in your statement that efforts will be made to retain the increases over the last two years in the hill livestock compensatory allowance payments. That is vital. We should also make clear that the money will be used for many people and that the implementation of an environmental scheme open to all farmers can assist us in ensuring that people perceive this as an acceptable long-term policy. I hope that you will create this positive image because we need confidence in this industry for people to carry on.

Christine Gwyther: I am sorry that I called you a Liberal earlier, it is only Liberal

Mick Bates: Diolch am eich datganiad pwylllog ac, yn enwedig, am y ganmoliaeth i bolisi amaethyddol craff y Democratiaid Rhyddfrydol sydd yn cynnwys, fel y dywedasoch yn gwbl gywir, awgrym ardderchog o'r enw 'Cyswllt Ffermio'. Yr wyf yn siŵr y llwyddwch i weithredu hynny maes o law. Fodd bynnag, nid wyf erioed yn hanes y Cynulliad hwn wedi profi teimladau mor gymysg wrth glywed cyhoeddiad. Yr wyf yn credu ers tro byd fod aiddosbarthu arian cynnal amaethyddiaeth yn un o'r nifer o fecanweithiau i helpu sicrhau a chynnal ein strwythur ffermydd teulu Cymreig.

Nodwyd fod egwyddor modiwlleiddio wedi'i gefnogi'n unfrydol yn y Pwyllgor. Daw hyn, fodd bynnag, ar adeg pan fo amaethyddiaeth yn y gwaelodion. Yr wyf yn falch eich bod wedi derbyn yr egwyddor o ymgynghori ar fodiwlleiddio ac yr wyf yn sicr yr ymdrinnir yn llawn â'r materion allweddol ynghylch y trothwy a sut y caiff ei weithredu. Yr oeddwn yn falch o'ch clywed yn cyhoeddi y byddai'r arian modiwlledig hwn yn dod ag arian ychwanegol uwchben arian fformwla Barnett i Gymru. Yng ngoleuni profiadau diweddar, gobeithiaf fod hyn wedi'i gadarnhau gan y cyfreithwyr gorau yn y wlad. Mae'n hincwm cyfartalog yn isel ac yr wyf yn poeni fod y dirwasgiad hwn wedi arwain at ddarlun negyddol o fodiwlleiddio mewn rhan helaeth o'r diwydiant. Cadarnhawyd y farn hon—yn wahanol i'ch un chi—gan fy sgysiau yn Llanfair-ym-Muallt ddydd Mawrth. Fel corff, mae'n rhaid inni ddileu'r syniad ein bod am ddilyn polisi o ddwyn oddi ar laweroedd i dalu ychydig bach i'r ychydig. Croesawaf eich bod yn sôn yn eich datganiad y gwneir ymdrechion i gadw'r codiadau dros y ddwy flynedd diwethaf yn y taliadau lwfans iawndal da byw tir uchel. Mae hynny'n hanfodol. Dylem hefyd ddweud yn glir y defnyddir yr arian ar gyfer llawer o bobl ac y gall gweithredu cynllun amgylcheddol sydd yn agored i bob ffermwr ein helpu i sicrhau fod pobl yn gweld hyn fel polisi tymor hir derbyniol. Gobeithiaf y gwnewch chi greu'r ddelwedd gadarnhaol hon oherwydd mae arnom angen hyder yn y diwydiant hwn i bobl gario ymlaen.

Christine Gwyther: Mae'n ddrwg gennyf am eich galw'n Rhyddfrydwr yn gynharach,

Democrats whom I want to export. I am grateful for your considered response. It is fair to say that there has been cross party support for dragging this extra money into Wales. If there was a way to do it without causing pain to a single farmer, we would seek that way. We are trying to ensure that where there is financial pain, it starts off low and ramps up very gradually. That is why I did not go for the 5 per cent which I was empowered to do by the Committee. That would have been rather hasty and no other Agriculture Minister was keen to go down that route. You will know that France is modulating at a rate of 20 per cent.

Mick Bates: It is 1 per cent.

Christine Gwyther: I am sorry, I thought it was 20 per cent. Perhaps they have had a consultation. Our proposals are modest but they will deliver the benefits we need.

Lorraine Barrett: Does Christine agree that everyone in this Chamber should distance themselves from Peter Rogers's comments about animal rights being unfair? I am sure that it is not precisely what he meant but I wanted to put this on record. I cannot believe that he said that. I do not think that anyone in this Chamber believes that animal rights are unfair, particularly for the animals.

Christine Gwyther: I welcome your comment Lorraine. I think that Peter's statement came out slightly wonky. The pig process that he was talking about was stall and tether, which has given pig breeding a bad name in some countries. We are trying to make pig production in Wales and the rest of the UK positive. We no longer have a stall and tether method of production in the UK. I am glad to say that Peter was one of the Assembly Members who wrote letters to their local authorities, urging them to use pork products from Britain because British pigs are reared with regard for animal welfare. Peter was kind enough to tell me that he had a good response. Therefore, I think that the message came out slightly wrong; I do not think that Peter does not believe in animal welfare.

dim ond Democratiaid Rhyddfrydol yr wyf fi eisiau eu hallforio. Yr wyf yn ddiolchgar am eich ymateb pwylllog. Mae'n deg dweud y bu cefnogaeth drawsbleidiol i lusgo'r arian ychwanegol hwn i mewn i Gymru. Pe bai ffordd i wneud hynny heb achosi poen i'r un ffermwr, byddem yn ceisio'r ffordd honno. Yr ydym yn ceisio sicrhau lle ceir poen ariannol, fod hwnnw'n dechrau'n isel ac yn cynyddu'n raddol iawn. Dyna pam nad euthum am y 5 y cant a ganiatawyd imi gan y Pwyllgor. Buasai hynny braidd yn fyrbwyll ac nid oedd unrhyw Weinidog Amaeth arall yn awyddus i ddilyn y trywydd hwnnw. Fe wyddoch fod Ffrainc yn modiwlleiddio ar gyfradd o 20 y cant.

Mick Bates: 1 y cant yw'r ffigur.

Christine Gwyther: Mae'n ddrwg gennyf, yr oeddwn i'n meddwl mai 20 y cant ydoedd. Efallai eu bod wedi cael ymgynghoriad. Mae'n cynigion ni'n gymedrol ond fe roddant y manteision y mae arnom eu hangen.

Lorraine Barrett: A ydyw Christine yn cytuno y dylai pawb yn y Siambr hon ymbellhau oddi wrth sylwadau Peter Rogers fod hawliau anifeiliaid yn annheg? Yr wyf yn siŵr nad dyna'n union yr oedd yn ei olygu ond yr oeddwn eisiau rhoi hyn ar gof a chadw. Ni allaf gredu ei fod wedi dweud hynny. Nid wyf yn meddwl fod neb yn y Siambr hon yn credu fod hawliau anifeiliaid yn annheg, yn enwedig i'r anifeiliaid.

Christine Gwyther: Croesawaf eich sylw, Lorraine. Yr wyf yn meddwl y daeth gosodiad Peter allan braidd yn garbwl. Y broses moch yr oedd yn sôn amdani oedd pesgi ar dennyn, sydd wedi rhoi enw drwg i ffermio moch mewn rhai gwledydd. Yr ydym yn ceisio sicrhau bod cynhyrchu moch yng Nghymru a gweddill y DU yn broses gadarnhaol. Nid oes gennym dull cynhyrchu pesgi ar dennyn mwyach yn y DU. Yr wyf yn falch o ddweud fod Peter yn un o Aelodau Cynulliad a ysgrifennodd lythyrau at eu hawdurdodau lleol, yn eu hannog i ddefnyddio cynnyrch porc o Brydain am fod moch Prydain yn cael eu magu gyda gofal am eu lles. Bu Peter yn ddigon caredig i ddweud wrthyf ei fod wedi cael ymateb da. Felly, yr wyf yn meddwl fod y neges wedi dod allan ychydig yn gam; nid wyf yn meddwl nad yw

Peter yn credu mewn lles anifeiliaid.

2:59 p.m.

Pwyntiau o Drefn Points of Order

Phil Williams: Point of order. This is on the corporate nature of the Assembly. An issue which points to an important principle has come to my attention. A recent document on forestry was described as a document by the National Assembly for Wales. I have received a letter—as have other Members—asking me to review the discussions that took place in the Assembly on this matter, and asking to what extent they had influenced the opinions presented. I understand that this document has not been discussed by the Agriculture and Rural Development Committee. Although this is a technical issue, the principle is important. I wonder whether there is a case for keeping the phrase ‘by the National Assembly for Wales’ to describe policy matters that have been fully discussed and agreed by the Assembly. Perhaps the term ‘on behalf of the Assembly’ could be used for documents issued by officers or Government bodies.

The Presiding Officer: You gave me notice by e-mail of your interest in this matter. First Secretary.

The First Secretary: I am delighted that Phil is taking up a point that has been of great interest to me for some time. That is because, under previous arrangements, the Secretary of State for Wales was held responsible and blamed for all sorts of things that he had not done. That was because it was assumed that everything done by officials and others was done by the Secretary of State. I have been at some pains to pick up on that point. You may have noticed that planning decisions now show clearly whether the decision was made by an inspector on behalf of the Assembly, by an Assembly Secretary or by the Assembly as a whole. This is a new way for the machinery of Government to respond, but I agree entirely with the principle that Phil has propounded.

Phil Williams: Pwynt o drefn. Mae hyn ynglŷn â natur gorfforaethol y Cynulliad. Daeth mater sydd yn pwyntio at egwyddor bwysig i'm sylw. Disgrifiwyd dogfen ddiweddar ar goedwigaeth fel dogfen gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf wedi derbyn llythyr—fel y gwnaeth Aelodau eraill—yn gofyn imi adolygu'r trafodaethau a fu yn y Cynulliad ar y mater hwn, ac yn gofyn i ba raddau yr oeddent wedi dylanwadu ar yr opiniynau a gyflwynwyd. Deallaf nad yw'r ddogfen hon wedi'i thrafod gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Er mai mater technegol yw hyn, mae'r egwyddor yn bwysig. Tybed a oes achos dros gadw'r ymadrodd ‘gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru’ i ddisgrifio materion polisi a drafodwyd yn llawn ac a gytunwyd gan y Cynulliad? Efallai y gellid defnyddio'r term ‘ar ran y Cynulliad’ i ddisgrifio dogfennau a gyhoeddir gan swyddogion neu gyrff y Llywodraeth.

Y Llywydd: Fe roesoch rybudd imi drwy e-bost am eich diddordeb yn y mater hwn. Brif Ysgrifennydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wrth fy modd fod Phil yn codi pwynt sydd o ddiddordeb mawr i mi ers cryn amser. Mae hynny oherwydd, dan drefniadau blaenorol, y câi Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei ddal yn gyfrifol a'i feio am bob math o bethau nad ydoedd wedi'u gwneud. Gwneid hynny oherwydd y tybid fod popeth a wnaed gan swyddogion ac eraill wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bûm yn awyddus iawn i godi'r pwynt yma. Efallai ichi sylwi fod penderfyniadau cynllunio erbyn hyn yn dangos yn glir p'r un ai a wnaethpwyd y penderfyniad gan arolygydd ar ran y Cynulliad, gan Ysgrifennydd Cynulliad ynteu gan y Cynulliad cyfan. Mae hyn yn ffordd newydd i beirianwaith Llywodraeth ymateb, ond cytunaf yn llwyr â'r egwyddor y mae Phil wedi'i phledio.

We now try, wherever possible, to pick up on

Ceisiwn bellach, lle bynnag y bo modd, nodi

such points and make clear who has exercised what power on behalf of the Assembly. Legally, the decisions of Assembly Secretaries or the Cabinet are decisions of the Assembly. However, that is misleading because when people hear the words 'a decision of the Assembly' most of them assume that all 60 of us have sat down and come solemnly to a decision. I therefore apologise if there has been a slip in the description of the document. However, that is understandable in moving from what has been a tradition for many decades—for as long as the Welsh Office was in existence—to a new way of describing things. I hope that the intention is accepted and I give the assurance that we wish to move in the direction that Phil has suggested.

Alun Cairns: Further to that point of order. I am glad that Phil has raised this, because earlier this week or at the end of last week, another document was launched, 'Cymru/Wales Succeeding in the Global Market Place'. The Federation of Small Businesses discussed that document with me this morning. I was alarmed that it was published without the knowledge of any Members. I spoke to my Conservative colleagues, who confirmed that that document had not come their way. I have not seen it in the Library either. Therefore, this is a question about the publication of documents and how Members can become aware of publications so that they can use them in their deliberations.

The First Secretary: We are all learning in the sense that, in the past, many documents were produced without reference to Ministers if they were regarded as very much in the ordinary course of business. We are in a different environment and, as a Cabinet, we are conscious of the need to keep colleagues informed by ensuring that people know that documents have been produced and that if they are purely information documents, that copies are available in the Library. If examples come to mind—and perhaps you can give me more detail about the one you mentioned—I am happy to look at how documents have been brought forward.

pwyntiau fel hyn a dangos yn glir pwy sydd wedi arfer pa rym ar ran y Cynulliad. Yn gyfreithiol, mae penderfyniadau Ysgrifenyddion y Cynulliad neu'r Cabinet yn benderfyniadau'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae hynny'n gamarweiniol oherwydd pan glyw pobl y geiriau 'penderfyniad gan y Cynulliad' bydd y rhan fwyaf ohonynt yn cymryd bod y 60 ohonom i gyd wedi eistedd yn ddifrifol i wneud penderfyniad. Ymddiheuraf felly os bu lliithriad wrth ddisgrifio'r ddogfen. Fodd bynnag, mae hynny'n ddealladwy wrth symud oddi wrth yr hyn a fu'n draddodiad ers degawdau—drwy gydol oes y Swyddfa Gymreig—at ffordd newydd o ddisgrifio pethau. Gobeithiaf y derbynnir y bwriad a rhoddaf sicrwydd ein bod yn dymuno symud i'r cyfeiriad y mae Phil wedi'i awgrymu.

Alun Cairns: Ymhellach i'r pwynt hwnnw o drefn. Yr wyf yn falch fod Phil wedi codi hyn, achos yn gynharach yr wythnos hon neu ddiwedd yr wythnos diwethaf, lansiwyd dogfen arall, 'Cymru/Wales yn Llwyddo ym Marchnad y Byd'. Trafododd y Ffederasiwn Busnesau Bach y ddogfen honno gyda mi y bore yma. Yr oeddwn wedi dychryn ei bod wedi'i chyhoeddi yn ddiamrwng i unrhyw Aelodau. Siaradais â'm cyd-Geidwadwyr, a gadarnhaodd nad oeddent hwy wedi gweld y ddogfen. Nid wyf wedi sylwi arni yn y Llyfrgell ychwaith. Felly, mae hwn yn gwestiwn ynglŷn â chyhoeddi dogfennau a sut y gall Aelodau ddod i wybod am gyhoeddiadau fel y gallant eu defnyddio yn eu trafodaethau.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydym i gyd yn dysgu, yn yr ystyr fod llawer o ddogfennau yn y gorffennol wedi'u cyhoeddi heb gyfeirio at Weinidogion os tybid eu bod yn rhan o gwrs arferol busnes. Yr ydym mewn amgylchfyd gwahanol ac, fel Cabinet, yr ydym yn ymwybodol o'r angen i roi gwybodaeth i gydaelodau drwy sicrhau fod pobl yn gwybod os yw dogfennau wedi'u llunio, ac os ydynt yn ddogfennau er gwybodaeth yn unig, fod copïau ar gael yn y Llyfrgell. Os daw enghreifftiau i gof—ac efallai y gallwch roi mwy o fanylion imi am yr un y sonioch amdani—byddaf yn falch o edrych ar y ffordd y cyflwynwyd y dogfennau hyn.

There have been occasions when the information has been provided in a form that meant that people did not realise that they were being given it. Therefore, it may have been notified and available to colleagues. However, I accept the principle that everybody should be notified about what is being published in the name of the Assembly. We do not want a situation where all sorts of routine documents have to be studied by Committee. That would hold up the provision of information to the public, business, local government and so on. I hope we can get the balance right.

Mick Bates: Further to Phil Williams's point of order, I seek clarification about the significance of the document in question. Will the First Secretary state whether or not the forestry budget is under the Assembly's jurisdiction?

The Presiding Officer: That is not a point of order. The forestry budget is a matter to be raised either with the Finance Secretary or in another debate.

The First Secretary: I am responding to questions of which there has been no notice. Some aspects of forestry are outwith the Assembly's powers and responsibilities. I referred, in an earlier debate, to some considerations about where these matters should lie. I am happy to clarify the position for Mick and Phil. The Assembly covers an enormous range of responsibilities and if colleagues could give some advance warning of questions to which they genuinely want answers, I and my colleagues will try to ensure that we are fully briefed and able to answer. However, we are also happy to answer questions informally, as we are doing now, or in correspondence.

Bu achlysuron pan ddarparwyd y wybodaeth ar ffurf a olygai nad oedd pobl yn sylweddoli ei bod yn cael ei rhoi iddynt. Felly, efallai ei bod yn hysbys ac ar gael i gydaelodau. Fodd bynnag, derbyniaf yr egwyddor y dylid hysbysu pawb am yr hyn a gyhoeddir yn enw'r Cynulliad. Nid oes arnom eisiau sefyllfa lle mae'n rhaid i bob math o ddogfennau rhigolaidd gael eu hastudio gan Bwyllgor. Byddai hynny'n arafu'r gwaith o ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd, busnes, llywodraeth leol ac ati. Gobeithiaf y gallwn sicrhau'r cydbwysedd iawn.

Mick Bates: Ymhellach i bwynt o drefn Phil Williams, hoffwn gael eglurhad o arwyddocâd y ddogfen dan sylw. A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatgan a yw'r gyllideb goedwigaeth dan reolaeth y Cynulliad ai peidio?

Y Llywydd: Nid pwynt o drefn yw hwnnw. Mae'r gyllideb goedwigaeth yn fater i'w godi naill ai gyda'r Ysgrifennydd Cyllid neu mewn dadl arall.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ymateb i gwestiynau na roddwyd rhybudd amdanynt. Mae rhai agweddau ar goedwigaeth y tu allan i hawliau a chyfrifoldebau'r Cynulliad. Cyfeiriais, mewn dadl gynharach, at rai ystyriaethau ynghylch ble y dylai'r materion hyn orwedd. Yr wyf yn hapus i egluro'r sefyllfa i Mick a Phil. Mae'r Cynulliad yn ymdrin ag amrediad enfawr o gyfrifoldebau a phe gallai cydaelodau roi rhywfaint o rybudd ymlaen llaw am gwestiynau y maent o ddifrif eisiau atebion iddynt, fe geisïaf fi a'm cydaelodau sicrhau ein bod wedi'n briffio'n llawn ac yn gallu ateb. Fodd bynnag, yr ydym hefyd yn hapus i ateb cwestiynau, yn anffurfiol fel ar hyn o bryd, neu drwy ohebiaeth.

Blaen-raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth The Government's Forward Legislative Programme

*Parhad o Ddadl 30 Tachwedd.
Debate Continued from 30 November.*

Motion proposed:

that the Assembly

thanks the Secretary of State for Wales for his account of the UK Government's legislative programme for 1999-2000;

notes that the programme includes a number of Bills (Care Standards, Children (Leaving Care), Countryside, Freedom of Information, Fur Farming, Learning and Skills, Local Government, Race Relations, Special Educational Needs, Transport and Utilities) with a direct impact on the Assembly, and others of close interest to the Assembly and the people of Wales;

calls on the First Secretary to consider further the points raised in the debate, to submit a written response to the Assembly for further approval, and to communicate the Assembly's views to the Secretary of State for Wales and other UK Ministers; and

calls on the First Secretary and the Secretary for State to establish a protocol to enable the Assembly formally to put forward legislative proposals each year, in the expectation that the UK Government will consider their inclusion in subsequent legislative programmes.

Richard Edwards: I am told that when a backbencher opens a debate in the House of Commons, it is indicative either of an illustrious pedigree or of rising star potential. [Laughter.] Patience. Here I am today, showing that the Assembly can and does do things differently.

It is a privilege to open the second part of this debate as a representative of the people of Preseli Pembrokeshire. My constituency is rich in natural beauty, and the many

Y cynnig a gynigiwyd:

bod y Cynulliad

yn diolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei adroddiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 1999-2000;

yn nodi bod y rhaglen yn cynnwys nifer o Fesurau sydd yn cael effaith uniongyrchol ar y Cynulliad (Safonau Gofal, Plant (yn Gadael Gofal), Cefn Gwlad, Rhyddid Gwybodaeth, Ffermio Ffwr, Dysgu a Sgiliau, Llywodraeth Leol, Cysylltiadau rhwng yr Hiliau, Anghenion Addysgol Arbennig, Trafnidiaeth a Chyfleustodau) ynghyd â Mesurau eraill sydd o ddiddordeb mawr i'r Cynulliad a phobl Cymru;

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i ystyried ymhellach y pwyntiau a godwyd yn y ddadl, i lunio ymateb ysgrifenedig i'r Cynulliad i'w gymeradwyo ymhellach, ac i hysbysu Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion eraill y DU am farn y Cynulliad; ac

yn galw ar y Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Gwladol i lunio protocol i alluogi'r Cynulliad i gyflwyno cynigion deddfwriaethol yn ffurfiol bob blwyddyn, gyda'r disgwyl y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried eu cynnwys yn ei rhaglenni deddfwriaethol yn y dyfodol.

Richard Edwards: Dywedir wrthyf pan fydd aelod o'r meinciau cefn yn agor dadl yn Nhŷ'r Cyffredin, bod hynny'n arwydd naill ai o dras disglair neu o botensial seren lachar. [Chwerthin.] Amynedd. Dyma fi heddiw, yn dangos bod y Cynulliad yn gwneud pethau mewn ffordd wahanol.

Braint yw agor ail ran y ddadl hon fel cynrychiolydd pobl Preseli Sir Benfro. Mae fy etholaeth yn gyfoethog o ran harddwch naturiol, ac fe dystir i hynny gan y miloedd

thousands of visitors to Pembrokeshire each year will attest to that. However, outstanding natural beauty and unparalleled scenery does not protect my constituents from unemployment, poor housing, low pay, ill health or poverty in old age. I welcome the Queen's Speech because of its commitment to the people for whom I have spent my entire political life campaigning: young people, disabled people, carers, pensioners, people on low incomes, people who face discrimination and the disadvantaged. There are many such people in Wales and in my constituency.

This is a programme of enterprise and fairness that seeks to build on the solid achievements of the last two years: the New Deal, the minimum wage, the working families tax credit, multiple rises in child benefits, low inflation and a stable economy. I will focus on two or three areas of particular concern to me, starting with local government. Modernising public services and the constitutional arrangements for delivering them, based on the principles of democracy and decentralisation, lie at the heart of the Government's main programme. The Assembly's existence is testament to that.

3:09 p.m.

The Local Government Bill will help Welsh councils to be more responsive to their communities' needs. It will also help to restore public confidence in councils through a strong and transparent ethical framework. That will strengthen and empower local communities. The net result must be an improvement in local services. This is in stark contrast to the Conservative approach of eroding and denuding local government continually. Local people should have the power to effect the best decisions for local people.

As a former mayor, like several Assembly Members, I believe that elected mayors could provide an opportunity for greater civic pride and also help to focus more energy on local needs. On the continent, major towns have a democratically elected leader to represent their interests who has the ability to negotiate

lawer o ymwelwyr a ddaw i Sir Benfro bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw harddwch naturiol eithriadol a golygfeydd digymar yn gwarchod fy etholwyr rhag diweithdra, tai gwael, cyflogau isel, iechyd gwael na thlodi yn eu henaint. Croesawaf Araith y Frenhines oherwydd ei hymrwymiad i'r bobl yr wyf wedi treulio fy oes wleidyddol gyfan yn ymgyrchu drostynt: pobl ifainc, pobl anabl, gofalwyr, pensiynwyr, pobl ar incwm isel, pobl sydd yn wynebu camwahaniaethu a phobl ddifreintiedig. Mae llawer o bobl o'r fath yng Nghymru ac yn fy etholaeth i.

Rhaglen o fenter a thegwch yw hon sydd yn ceisio adeiladu ar y pethau cadarnhaol a gyflawnwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf: y Fargen Newydd, yr isafswm cyflog, y credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio, codiadau lluosog mewn budd-daliadau plant, chwyddiant isel ac economi sefydlog. Canolbwyntiaf ar ddau neu dri maes sydd yn peri pryder arbennig i mi, gan ddechrau gyda llywodraeth leol. Mae moderneiddio gwasanaethau cyhoeddus a'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer eu cyflwyno, yn seiliedig ar egwyddorion democratiaeth a datganoli, wrth galon prif raglen y Llywodraeth. Mae bodolaeth y Cynulliad yn destament i hynny.

Bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn helpu cynghorau Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion eu cymunedau. Bydd yn helpu hefyd i adfer hyder y cyhoedd mewn cynghorau drwy fframwaith moesegol cadarn a thryloyw. Bydd hynny'n cryfhau ac yn arfogi cymunedau lleol. Rhaid i'r canlyniad net fod yn welliant mewn gwasanaethau lleol. Mae hyn yn cyferbynnu'n llwyr ag arfer y Ceidwadwyr o erydu a dinoethi llywodraeth leol yn barhaus. Dylai pobl leol gael y grym i wneud y penderfyniadau gorau ar ran y bobl leol.

A minnau'n gyn-faer, fel llawer o Aelodau'r Cynulliad, credaf y gallai meiri etholedig roi cyfle i greu mwy o falchder cymunedol a hefyd helpu i ganolbwyntio mwy o egni ar anghenion lleol. Ar y cyfandir, mae gan y prif drefi arweinydd wedi'i ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli eu buddiannau,

and to be effective. Continental visitors find it hard to understand why our mayors are merely ceremonial, officially representing their towns but having little or no power to act on their behalf.

Peter Black: Do you believe that it is appropriate to have a directly elected mayor for Pembrokeshire, which is a large rural county? By having such a mayor you concentrate power into too few hands or into just one.

Richard Edwards: As a true democrat, I believe it is a matter for the people of Pembrokeshire whether they wish to have a directly elected mayor.

I would also like to welcome measures to modernise electoral procedures, making them easier and more accessible. I welcome the prohibition of foreign donations to political parties. That will hit the Tories—sorry, the Welsh Conservatives.

David Davies: Do you think that it is morally acceptable to receive donations from racing car magnates and then change policies?

Richard Edwards: I do not think that it is morally acceptable to receive donations from Belize. I wonder if this will mean that nationalists will refuse donations from benefactors resident in England. That is a joke, by the way.

The Care Standards Bill will protect children in care from abuse and neglect, and not before time. The Children (Leaving Care) Bill will improve life chances for young people aged 16 and over who are in or are leaving local authority care. This year's Queen's Speech is the first since devolution. Both these Bills will enable Wales to find distinctive Welsh solutions to Welsh problems within a UK framework.

I know that Jane Hutt brought the UK Government's proposals to the attention of the Health and Social Services Committee in the summer. The proposals were discussed

un â'r gallu i negodi a bod yn effeithiol. Mae ymwelwyr o'r cyfandir yn ei chael hi'n anodd deall pam mai dim ond bodau seremonïol yw'n meiri ni, gan gynrychioli eu trefi'n swyddogol ond heb nemor ddim grym i weithredu ar eu rhan.

Peter Black: Ydych chi'n credu ei bod yn briodol cael maer etholedig ar gyfer Sir Benfro, sydd yn sir wledig fawr? Drwy gael maer o'r fath yr ydych yn canoli grym yn nwylo rhy ychydig o bobl neu ddim ond un.

Richard Edwards: Fel gwir ddemocrat, credaf mai mater i bobl Sir Benfro yw penderfynu a hoffent gael maer a etholir yn uniongyrchol.

Hoffwn hefyd groesawu mesurau i foderneiddio gweithdrefnau etholiadol, gan eu gwneud yn haws ac yn fwy hygyrch. Croesawaf y gwaharddiad ar roddion o dramor i bleidiau gwleidyddol. Bydd hynny'n ergyd i'r Torïaid—mae'n ddrwg gennyf, y Ceidwadwyr Cymreig.

David Davies: Ydych chi'n meddwl ei bod yn foisol dderbyniol derbyn rhoddion oddi wrth ddyinion mawr ym myd ceir rasio ac wedyn newid polisïau?

Richard Edwards: Nid wyf yn meddwl ei bod yn foisol dderbyniol derbyn rhoddion o Belize. Tybed a fydd hyn yn golygu y bydd cenedlaetholwyr yn gwrthod rhoddion gan garedigion sydd yn byw yn Lloegr? Jôc oedd hynny, gyda llaw.

Bydd y Mesur Safonau Gofal yn gwarchod plant mewn gofal rhag camdriniaeth ac esgeuluster, ac nid cyn pryd. Bydd y Mesur Plant (yn Gadael Gofal) yn gwella cyfleoedd bywyd i bobl ifainc 16 oed a throsodd sydd mewn gofal awdurdod lleol neu'n gadael y gofal hwnnw. Araith y Frenhines eleni yw'r gyntaf ers datganoli. Bydd y ddau Fesur hyn yn galluogi Cymru i ganfod atebion Cymreig arbennig i broblemau Cymreig o fewn fframwaith y DU.

Gwn fod Jane Hutt wedi dod â chynigion Llywodraeth y DU i sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr haf. Trafodwyd y cynigion a chafodd pryderon y

and the Committee's concerns were fed back prior to the publication of the Bills.

On learning and skills, there is a Bill to establish a national council for education and training in Wales. The council would have the power to fund all post-16 education and training. This would ensure greater coherence and choice for students aged over 16. It would also bring down the Berlin wall erected in education in the last two decades. From now on, education, rather than competition, will be paramount.

The Special Educational Needs Bill will improve services to parents through better partnership arrangements. It will introduce new conciliation procedures to resolve disputes between parents and local education authorities and will also promote inclusion through mainstream education of children with special needs.

On child support, I refer not only to the much-needed radical reform of the child support system but also to the Government's commitment to end child poverty in 20 years. No Government has ever made such a dramatic, humanitarian and, without question, credible commitment. Nothing can be more important.

Those of us who are blessed with secure family backgrounds take much for granted. I know that I do. My mother died suddenly just a few days before the Assembly election, and her funeral was on the day after it. The conjunction of the two events, in the midst of all the sadness, brought home to me as powerfully as anything ever could, how much I owe her and my father for my life chances and opportunities and how different it is for many other people.

Above anything else, government should be about creating opportunities for every person. Whatever other purpose the National Assembly for Wales may serve, its greatest goal is to ensure the opportunity of a decent, fulfilling life for every citizen in Wales.

Janet Ryder: I will concentrate on two aspects of the Queen's Speech Bills. Richard's comments on developing Welsh

Pwyllgor eu bwydo'n ôl cyn cyhoeddi'r Mesurau.

Ar ddysgu a sgiliau, mae Mesur i sefydlu cyngor cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Byddai gan y cyngor y grym i ariannu'r holl addysg a hyfforddiant ôl-16. Byddai hyn yn sicrhau mwy o gydlyniant a dewis i fyfyrwyr dros 16 oed. Byddai hefyd yn dymchwel y wal Berlin a godwyd ym myd addysg yn y ddau ddegawd diwethaf. O hyn ymlaen, addysg, yn hytrach na chystadleuaeth, fydd flaenaf.

Bydd y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig yn gwella gwasanaethau i rieni drwy well trefniadau partneriaeth. Bydd yn cyflwyno gweithdrefnau cymodi i ddatrys anghydfodau rhwng rhieni ac awdurdodau addysg lleol a bydd hefyd yn hyrwyddo cynnwys plant ag anghenion arbennig drwy addysg y brif ffrwd.

Ar gymorth plant, cyfeiriaf nid yn unig at y diwygiad radical y bu mawr ei angen i'r system gymorth plant ond hefyd at ymrwymiad y Llywodraeth i ddiweddu tlodi plant o fewn 20 mlynedd. Ni wnaeth unrhyw Lywodraeth erioed ymrwymiad mor ddramatig, dyngarol ac, yn ddi-os, credadwy. Ni all dim fod yn bwysicach.

Mae'r rheini ohonom sydd wedi'n bendithio â chefnidiroedd teuluol sicr yn cymryd llawer yn ganiataol. Gwn fy mod i. Bu farw fy mam yn sydyn ychydig ddyddiau cyn etholiad y Cynulliad, a chynhaliwyd ei hangladd ar y diwrnod ar ôl yr etholiad. Bu cyfuniad y ddau ddigwyddiad, yng nghanol yr holl dristwch, yn fodd i ddangos i mi, mor bwerus ag y gallai unrhyw beth byth, faint fy nyled iddi hi a'm tad am y cyfleoedd a gefais mewn bywyd ac mor wahanol ydyw i lawer o bobl eraill.

Uwchlaw pob dim, dylai llywodraeth ymhél â chreu cyfleoedd i bob un. Pa bwrpas arall bynnag a gyflawna Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei nod mwyaf yw sicrhau cyfle am fywyd da i holl ddinasyddion Cymru a chyfle i bob un gyflawni'i botensial.

Janet Ryder: Canolbwyntiaf ar ddwy agwedd ar Fesurau Araith y Frenhines. Yr oedd sylwadau Richard ynghylch datblygu

aspects to those Bills were interesting because Wales will have to struggle particularly hard to have its voice heard in the Bill that will deal with developing an integrated transport policy.

By the end of its progress through Parliament, the Transport Bill must provide sufficiently for Wales's needs by empowering the Assembly to design an integrated transport policy. For that to happen, we should have certain expectations of the Bill.

Ideally, there should be one small amendment to section 9 of the Transport Act 1968 to enable the Assembly to become a passenger transport authority. That would enable us to establish a strategic transport authority, which would promote integrated transport with local authorities through regional boards. Wales's share of train service subsidy—approximately £100 million—should be transferred to the Assembly's budget to ensure that those moneys are spent in Wales.

If that is not to happen, the least we should expect is a Welsh division of the strategic rail authority to enable Welsh priorities to be met within the British strategy. That is the minimum necessary to enable the Assembly to influence railway policy.

In July 1998, the Government said that the Scottish Executive would have the power to instruct and guide the strategic rail authority; the Greater London Authority would be able to procure enhanced rail services via the strategic rail authority and propose changes; and the Assembly would be consulted on passenger service specifications in Wales. When published, the Bill left Wales out altogether. The only reference to Wales on railway issues concerned freight rail.

That happened despite repeated representations by Peter Law on behalf of the Environment and Local Government Committee that we should have a stronger voice. Plaid Cymru—The Party of Wales

agweddau Cymreig i'r Mesurau hynny yn ddi-ddorol oherwydd bydd yn rhaid i Gymru ymdrechu'n arbennig o galed i sicrhau y clywir ei llais yn y Mesur a fydd yn delio â datblygu polisi trafnidiaeth integredig.

Erbyn diwedd ei hynt drwy'r Senedd, rhaid i'r Mesur Trafnidiaeth ddarparu'n ddigonol ar gyfer anghenion Cymru drwy roi'r grym i'r Cynulliad gynllunio polisi trafnidiaeth integredig. I hynny ddigwydd, dylem ddisgwyl rhai pethau o'r Mesur.

Yn ddelfrydol, dylai fod un gwelliant bach i adran 9 Deddf Drafnidiaeth 1968 i alluogi'r Cynulliad i ddod yn awdurdod cludiant teithwyr. Byddai hynny'n ein galluogi i sefydlu awdurdod trafnidiaeth strategol, a fyddai'n hyrwyddo trafnidiaeth integredig gydag awdurdodau lleol drwy fyrdau rhanbarthol. Dylai cyfran Cymru o'r cymhorthdal gwasanaeth trên—oddeutu £100 miliwn—gael ei throsglwyddo i gyllideb y Cynulliad i sicrhau y caiff yr arian hynny eu gwario yng Nghymru.

Os na ddigwydd hynny, y lleiaf y dylem ei ddisgwyl yw adran Gymreig o'r awdurdod rheilffyrdd strategol er mwyn gallu ateb blaenoriaethau Cymru o fewn y strategaeth Brydeinig. Dyna'r lleiaf sydd ei angen i alluogi'r Cynulliad i ddylanwadu ar bolisi rheilffyrdd.

Ym mis Gorffennaf 1998, dywedodd y Llywodraeth y byddai Gweithrediaeth yr Alban yn cael y grym i gyfarwyddo ac arwain yr awdurdod rheilffyrdd strategol; byddai Awdurdod Llundain Fwyaf yn gallu prynu gwasanaethau rheilffyrdd gwell drwy'r awdurdod rheilffyrdd strategol a chynnig newidiadau; a byddid yn ymgynghori â'r Cynulliad ar fanylebau gwasanaeth teithwyr yng Nghymru. Pan gyhoeddwyd y Mesur, nid oedd unrhyw sôn o gwbl ynddo am Gymru. Yr unig gyfeiriad at faterion rheilffyrdd yng Nghymru oedd cyfeiriad at gludo nwyddau.

Digwyddodd hynny er i Peter Law gyflwyno sylwadau dro ar ôl tro ar ran Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol y dylem gael llais cryfach. Mae Plaid Cymru—The Party of Wales eisiau sicrhad heddiw y caiff

want an assurance today that this situation will be changed. When amendments to the Bill are taken in January, we want them to give Wales a strong voice in forming the railway structure that we desperately need.

The Bill also touches on other aspects of transport, such as allowing local councils to introduce road pricing. That deals mainly with an urban problem and it must be acknowledged that it does little to solve rural problems. It is good to set targets for the reduction of road transport, but first we should perhaps set targets for the introduction of alternative methods of transport. For some councils, we should set that target first so that they know what services to introduce to encourage people to leave their cars behind.

The Bill also suggests that councils will be able to retain road tolls. That would be a good idea if the tolls were spent on developing alternative forms of transport, but those services need to be in place first.

3:19 p.m.

The experience of other European member states is that investment in public transport must take place before the introduction of parking restrictions and road charging. The Transport Bill also mentions tolls as a means of reducing road traffic and councils' ability to retain some tolls to develop alternative forms of transport. An indication that the reduction methods are working would be a reduction in the tolls taken. There is a problem here. Alternative services set up by local authorities must be sustainable and not reliant on the tolls collected.

I will also deal with the aspect of the Queen's Speech concerning local government. Paul Murphy said in the Chamber last week that he would expect local councils to develop the style and system of working that was best for them. Nobody would argue with the fact that we must make councils more accountable, more transparent and much more inclusive. Plaid Cymru has many misgivings about elected mayors and has sympathy with Peter Black's stance on that issue.

y sefyllfa hon ei newid. Pan gymerir gwelliannau i'r Mesur ym mis Ionawr, mae arnom eisiau iddynt roi llais cryf i Gymru yn y gwaith o ffurfio'r adeiledd rheilffyrdd y mae angen dybryd amdano.

Mae'r Mesur hefyd yn cyffwrdd ar agweddau eraill ar drafnidiaeth, fel caniatáu i gynghorau lleol gyflwyno prisio ffyrdd. Mae hynny'n ymwneud yn bennaf â phroblem drefol a rhaid cydnabod nad yw'n gwneud fawr ddim i ddatrys problemau gwledig. Mae'n dda gosod targedau ar gyfer lleihau trafnidiaeth ffyrdd, ond yn gyntaf efallai y dylem osod targedau ar gyfer cyflwyno dulliau eraill o gludiant. I rai cynghorau, dylem osod y targed hwnnw'n gyntaf fel eu bod yn gwybod pa wasanaethau i'w cyflwyno i annog pobl i adael eu ceir ar ôl.

Mae'r Mesur hefyd yn awgrymu y bydd cynghorau'n gallu cadw tollau ffyrdd. Byddai hynny'n syniad da pe câi'r tollau eu gwario ar ddatblygu ffurfiau cludiant amgen, ond mae angen i'r gwasanaethau hynny fod yn eu lle yn gyntaf.

Profiad aelod-wladwriaethau Ewropeaidd eraill yw fod yn rhaid buddsoddi mewn cludiant cyhoeddus cyn cyflwyno cyfyngiadau parcio a chodi tâl ar y ffordd. Mae'r Mesur Cludiant hefyd yn crybwyll tollau fel modd o leihau traffig ffyrdd ac yn sôn am ganiatáu i gynghorau gadw rhai tollau i ddatblygu ffurfiau cludiant amgen. Arwydd fod y dulliau lleihau traffig yn gweithio fyddai lleihad yn y tollau a gymerir. Mae problem yma. Rhaid i wasanaethau amgen a sefydlir gan awdurdodau lleol fod yn gynaliadwy ac nid yn ddibynnol ar y tollau a gesglir.

Deliaf hefyd â'r rhan o Araith y Frenhines a soniodd am lywodraeth leol. Dywedodd Paul Murphy yn y Siambr yr wythnos diwethaf y byddai'n disgwyl i gynghorau lleol ddatblygu'r arddull a'r system o weithio a fyddai orau iddynt hwy. Ni fyddai neb yn dadlau â'r ffaith fod yn rhaid inni wneud cynghorau'n fwy atebol, yn fwy tryloyw ac yn llawer mwy cynhwysol. Mae gan Blaid Cymru lawer o amheuan ynghylch meiri etholedig ac mae gennym gydymdeimlad â

safbwynt Peter Black ar y cwestiwn hwnnw.

We must look carefully at the role of all councillors, not only cabinet members but also the so-called backbench councillors, in this new cabinet-style of local government. We would like to see backbenchers have the right to have written questions answered by cabinet members or by officers. Backbenchers should also have full and easy access to officers for information. One of the best checks for democracy on the new cabinet-style local government will be effective backbenchers and for backbenchers to be effective they need to be well-informed.

Scrutiny committees also must have clearly defined roles. We must be careful how these roles develop. We would also like to see a system similar to that of the Assembly, in which the chairs of scrutiny committees are politically balanced. Scrutiny committees should be able to set their own agendas and backbenchers should be able to place items on those agendas.

Jenny Randerson: Do you share my concern about the progress made so far on these issues with which you are dealing so fully? I agree with everything you say. I only have experience of the situation in Cardiff City and County Council, where the council has a cabinet system and an unelected mayor, but the cabinet meetings are held in secret. Do you agree that such meetings should be held in public? In Cardiff Council, the minutes of cabinet meetings are not published for six weeks, scrutiny committees are chaired by the ruling group, their agendas are very thin and the right that Cardiff councillors and the public have had to ask questions is to be cut right back. Do you agree that this closes down rather than opens out local government?

Janet Ryder: I agree. Certain councils have experimented with different styles of cabinet government. Before we progress any further, it is time to assess how those cabinets are working and how other council members feel they are working. Many lessons can be drawn

Rhaid inni edrych yn ofalus ar rôl cynghorwyr yn gyffredinol, nid dim ond aelodau cabinet ond hefyd y cynghorwyr meinciau cefn fel y'u gelwir, yn y llywodraeth leol newydd gabinetaidd hon. Hoffem weld meincwyr cefn yn cael yr hawl i gael ateb gan aelodau'r cabinet neu swyddogion i'w cwestiynau ysgrifenedig. Dylai meincwyr cefn hefyd gael mynediad rhwydd a pharod at swyddogion er mwyn cael gwybodaeth. Un o'r arfau gorau i sicrhau democratiaeth yn y math newydd gabinetaidd o lywodraeth leol fydd meincwyr cefn effeithiol, ac i feincwyr cefn fod yn effeithiol mae angen iddynt gael y wybodaeth orau.

Rhaid i bwyllgorau archwilio hefyd gael rolau wedi'u diffinio'n glir. Rhaid inni fod yn ofalus ynghylch sut y bydd y rolau hyn yn datblygu. Hoffem hefyd weld system debyg i'r hyn a geir yn y Cynulliad, lle mae cydbwysedd gwleidyddol ymysg cadeiryddion y pwyllgorau archwilio. Dylai pwyllgorau archwilio allu gosod eu hagenda eu hunain a dylai meincwyr cefn allu rhoi eitemau ar yr agenda hynny.

Jenny Randerson: Ydych chi'n rhannu fy mhryder ynghylch yr hyn a gyflawnwyd hyd yma ar y materion hyn yr ydych yn delio mor llawn â hwy? Yr unig brofiad sydd gennyf i yw'r sefyllfa yng Nghyngor Dinas a Sir Caerdydd, lle mae gan y cyngor system gabinet a maer anetholedig, ond y cynhelir cyfarfodydd y cabinet yn gyfrinachol. Ydych chi'n cytuno y dylid cynnal cyfarfodydd o'r fath yn gyhoeddus? Yng Nghyngor Caerdydd, ni chaiff cofnodion cyfarfodydd cabinet eu cyhoeddi am chwe wythnos, cadeirir pwyllgorau archwilio gan y grŵp sydd yn rheoli, mae eu hagenda'n denau iawn ac mae bwriad i gwtogi'n llym ar yr hawl sydd gan gynghorwyr Caerdydd a'r cyhoedd i ofyn cwestiynau. A gytunwch fod hyn yn cau llywodraeth leol i mewn yn hytrach na'i hagar allan?

Janet Ryder: Yr wyf yn cytuno. Mae rhai cynghorau wedi arbrofi â gwahanol fathau o lywodraeth drwy gabinet. Cyn inni fynd dim pellach, mae'n bryd asesu sut y mae'r cabinetau hynny'n gweithio a sut y mae aelodau eraill ar y cynghorau yn teimlo eu

from the experiments that have taken place so far. We must be careful that these new cabinet styles do not become closed and inward looking but open and accessible to the public.

Cabinet members should attend every scrutiny committee meeting and be open to questioning at those meetings by backbenchers. We would also like to see an enhanced and developed role for town and community councils, although we accept the need to consider carefully how to encourage more people to take up the roles of those local councillors.

I end by summarising what Jenny has said. We must be careful how we develop these models. There is a potential to develop clearly defined lines of government. However, there is also potential for developing a closed system of government that is inaccessible to the public. That is the opposite of what everybody is trying to achieve. We want checks and balances to be brought forward as the local government legislation is developed.

David Melding: My amendment, amendment 2, which was proposed last week, dealt with my party's regret that the Government failed to guarantee waiting times based on a patient's clinical need. This Government's emphasis on waiting lists has proven to be a disaster. When the Labour Party was elected two and a half years ago, it made great play of its promise to dramatically reduce waiting lists. It was always a simplistic promise and many medical people were concerned because it is a promise that is difficult to deliver. Despite that, and despite the last Government's emphasis on waiting times and not waiting lists, the Labour Party chose to promise that waiting lists would be cut by 100,000, and by 5,000 *pro rata* in Wales. The promise has not been kept. In-patient waiting lists have increased by 2,000. The out-patient waiting lists, the list to get on the waiting list, as it were, have increased dramatically. The number waiting for more than six months has risen by over 430 per cent, from 6,000 to well over 30,000.

This Administration, by winning 28

bod yn gweithio. Gellir dysgu sawl gwrs o'r arbrofion a ddigwyddodd hyd yma. Rhaid inni ofalu nad aiff y dulliau cabinet newydd hyn yn gaeedig ac yn fewnolygol, ond yn agored ac yn hygyrch i'r cyhoedd.

Dylai aelodau cabinet fynychu pob cyfarfod pwyllgor archwilio a bod ar gael i'w holi yn y cyfarfodydd hynny gan feincwyr cefn. Hoffem weld rôl gryfach a datblygedig i gynghorau bro a thref hefyd, er y derbyniwn yr angen i ystyried yn ofalus sut i annog mwy o bobl i ymgymryd â rôl y cynghorwyr lleol hyn.

Diweddaf drwy grynhoi'r hyn a ddywedodd Jenny. Rhaid inni fod yn ofalus ynghylch sut y datblygwn y modelau hyn. Mae potensial i ddatblygu llinellau clir o lywodraeth. Fodd bynnag, mae potensial hefyd i ddatblygu system lywodraeth gaeedig sydd yn anhygyrch i'r cyhoedd. Mae hynny'n groes i'r hyn y mae pawb yn ceisio'i gyflawni. Mae arnom eisiau cyflwyno mesurau cadw llygad ac archwilio wrth i'r ddeddfwriaeth llywodraeth leol gael ei datblygu.

David Melding: Yr oedd fy ngwelliant, gwelliant rhif 2, a gynigiwyd yr wythnos diwethaf, yn ymwneud â gofid fy mhlaidd fod y Llywodraeth wedi methu gwarantu amserau aros yn seiliedig ar angen clinigol y claf. Mae pwyslais y Llywodraeth hon ar restrau aros wedi profi'n drychinebus. Pan etholwyd y Blaid Lafur ddwy flynedd a hanner yn ôl, gwnaeth sioe fawr o'i haddewid i leihau rhestrau aros yn ddramatig. Addewid simplistaidd ydoedd o'r dechrau, ac yr oedd llawer o bobl yn y byd meddygol yn bryderus oherwydd y mae'n addewid sydd yn anodd ei gwireddu. Er gwaethaf hynny, ac er gwaethaf pwyslais y Llywodraeth ddiwethaf ar amserau aros ac nid rhestrau aros, dewisodd y Blaid Lafur addo torri 100,000 ar restrau aros, a 5,000 *pro rata* yng Nghymru. Ni chadwyd yr addewid. Bu cynnydd o 2,000 yn rhestrau aros cleifion mewnol. Bu cynnydd dramatig yn rhestrau aros cleifion allanol, y rhestr i fynd ar y rhestr aros, fel petai. Cododd y nifer a fu'n aros am fwy na chwe mis dros 430 y cant, o 6,000 i ymhell dros 30,000.

Mae'r Weinyddiaeth hon, wrth ennill 28 o

Assembly seats in May, has inherited the duties of the Labour Government elected two and a half years ago and its promise to reduce waiting lists. Is it still a valid promise? I will happily give way to the Secretary for Health and Social Services if she wants to affirm the promise's validity and that in-patient waiting lists will be cut. The people of this country deserve an answer. Will the Administration turn to other measures to deal with waiting lists? If that is the case, it must be clear about what it does and why. The Conservatives have felt for a long time that the focus should be on waiting times. It is possible to have long waiting lists, but short waiting times. That is not necessarily a problem because when patients present, they are concerned about how long they will have to wait for treatment after diagnosis. If we focus on that, we will have a more rational system that delivers the best possible patient care. It would also treat patients better and involve them in their treatment. They would not be left on a waiting list for the waiting list without any idea of when they will receive treatment. That can be an anxious wait in itself.

It is important that the health service develops a new commitment based on waiting times. We are disappointed that the Queen's Speech does not refer to the Government's policy on waiting lists, and I understand why the Labour Party is embarrassed about that. Experts have told the Health and Social Services Committee that these lists are not sensitive to any of the possible inputs. If the Labour Party has accepted that its promise of two and a half years ago was not coherent, it should be honest about that and move to a measure that can be regarded as a fair indication of its work in the health service. Giving people guaranteed waiting times would reinvigorate the health service and increase staff morale. Staff would realise that they are dealing with a promise that can be delivered without undermining other priorities, such as the need to treat urgent cases, and without any suggestion that some cases get a higher priority because they can be treated quicker and not because of the seriousness of the clinical condition. If we move to an emphasis

seddi yn y Cynulliad ym mis Mai, wedi etifeddu dyletswyddau'r Llywodraeth Lafur a etholwyd ddwy flynedd a hanner yn ôl a'i haddewid i leihau rhestrau aros. A yw'r addewid yn dal yn ddilys? Ildiaf yn llawen i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol os hoffai hi gadarnhau dilysrwydd yr addewid ac y caiff rhestrau aros cleifion mewnol eu torri. Mae pobl y wlad hon yn haeddu ateb. A wnaiff y Weinyddiaeth droi at fesurau eraill i ddelio â rhestrau aros? Os felly, rhaid iddi fod yn glir ynghylch beth y mae'n ei wneud a pham. Mae'r Ceidwadwyr wedi teimlo ers tro mai ar amserau aros y dylid canolbwyntio. Mae'n bosib cael rhestrau aros hir, ond amserau aros byr. Nid yw hynny'n broblem o reidrwydd, oblegid pan fydd cleifion yn ymweld â meddyg, yr hyn sydd yn eu pryderu yw pa mor hir y bydd raid iddynt aros am driniaeth wedi diagnosis. Os canolbwyntiwn ar hynny, bydd gennym system fwy rhesymol a fydd yn rhoi'r gofal gorau posibl i gleifion. Byddai hefyd yn trin cleifion yn well ac yn galluogi iddynt gyfranogi yn eu triniaeth. Ni fyddent yn cael eu gadael ar restr aros am y rhestr aros heb unrhyw syniad ynghylch pa bryd y gallent ddisgwyl cael triniaeth. Gall hynny fod yn arhosiad poenus ynddo'i hun.

Mae'n bwysig fod y gwasanaeth iechyd yn datblygu ymrwymiad newydd yn seiliedig ar amserau aros. Yr ydym yn siomedig nad yw Araith y Frenhines yn cyfeirio at bolisi'r Llywodraeth ar restrau aros, a deallaf pam y mae'r Blaid Lafur yn teimlo embaras am hynny. Mae arbenigwyr wedi dweud wrth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nad yw'r rhestrau hyn yn sensitif i unrhyw fewnbynnau posibl. Os yw'r Blaid Lafur wedi derbyn nad oedd ei haddewid ddwy flynedd a hanner yn ôl yn ymarferol, dylai fod yn onest ynglŷn â hynny a symud at fesur y gellir ei ystyried yn ddangosydd teg o'i gwaith yn y gwasanaeth iechyd. Byddai rhoi gwarant i bobl ar amserau aros yn adfywhau'r gwasanaeth iechyd ac yn gwella morâl y staff. Byddai'r staff yn sylweddoli eu bod yn delio ag addewid y gellir ei chyflawni heb danseilio blaenoriaethau eraill, fel yr angen i drin achosion brys, a heb unrhyw awgrym fod rhai achosion yn cael blaenoriaeth uwch oherwydd y gellir eu trin yn gyflymach ac nid oherwydd difrifoldeb y cyflwr clinigol. Os

on waiting times, we can be more honest with the people that we serve.

3:29 p.m.

Jane Hutt: As you know, the Health and Social Services Committee has spent time considering this issue. There was cross-party support for developing a medium-term strategy on waiting times and clinical priorities. I am pleased that the strategy group, chaired by Enid Rowlands from the North Wales Health Authority, will meet for the first time tomorrow. That group will consider ways in which we can move towards a measurement by waiting times and clinical priorities in Wales. I know that David supports the establishment of that group along with the other party members in the Health and Social Services Committee. That is the Welsh way forward and we will be hearing from the group in due course.

David Melding: I thank Jane for that half answer. If you are moving to an emphasis on waiting times, you will receive our support. However, we would prefer you to make a guarantee so that people have some idea of how long they will have to wait for treatment. Such a guarantee would underpin the new age into which the NHS is moving. We have had 50 years of the NHS; the next 50 years would be underwritten by that powerful guarantee. However, you have not said whether you still hold to your promise to cut waiting lists in Wales by 5,000 as a first step. Let us remember that the Labour Party promised that as a first step. After two and a half years, you have not yet made that first step. Most new-born babies can take more than a few steps after two and a half years.

David Davies: Is the move towards using the phrase 'waiting times' rather than 'waiting lists' an admission by the Government of its complete and utter failure to uphold a manifesto promise that was adorned across billboards up and down the country?

David Melding: In my humble judgment—and I speak as a Conservative, so perhaps the

symudwn at bwyslais ar amserau aros, gallwn fod yn fwy gonest gyda'r bobl a wasanaethwn.

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi treulio amser yn ystyried y mater hwn. Yr oedd cefnogaeth ar draws y pleidiau i ddatblygu strategaeth tymor canolig ar amserau aros a blaenoriaethau clinigol. Yr wyf yn falch y bydd y grŵp strategaeth, dan gadeiryddiaeth Enid Rowlands o Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, yn cyfarfod am y tro cyntaf yfory. Bydd y grŵp hwnnw'n ystyried ffyrdd y gallwn symud tuag at fesur amserau aros a blaenoriaethau clinigol yng Nghymru. Gwn fod David yn cefnogi sefydlu'r grŵp hwnnw ynghyd ag aelodau eraill y blaid yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dyna'r ffordd ymlaen yng Nghymru a byddwn yn clywed gan y grŵp maes o law.

David Melding: Diolch i Jane am yr hanner ateb hwnnw. Os ydych yn symud tuag at bwyslais ar amserau aros, fe gewch ein cefnogaeth. Fodd bynnag, byddai'n well gennym i chi roi gwarant fel bod gan bobl ryw syniad o ba mor hir y bydd raid iddynt aros am driniaeth. Byddai gwarant o'r fath yn sylfaen i'r oes newydd y mae'r NHS yn symud iddi. Yr ydym wedi cael 50 mlynedd o'r NHS; byddai'r warrant gadarn honno'n sylfaen i'r 50 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, nid ydych wedi dweud a ydych yn dal i gadw at eich addewid i gwtogi 5,000 ar restrau aros yng Nghymru fel cam cyntaf. Gadewch inni gofio i'r Blaid Lafur addo hynny fel cam cyntaf. Wedi dwy flynedd a hanner, nid ydych eto wedi cymryd y cam cyntaf hwnnw. Gall y rhan fwyaf o fabanod newydd-anedig gymryd mwy nag ychydig gamau ar ôl dwy flynedd a hanner.

David Davies: A ydyw'r symud tuag at ddefnyddio'r ymadrodd 'amserau aros' yn lle 'rhestrau aros' yn gyfaddefiad gan y Llywodraeth o'i methiant llwyr i gadw addewid manifesto a arddangoswyd ar filfyrdau ar hyd a lled y wlad?

David Melding: Yn fy marn ostyngedig i— ac yr wyf yn siarad fel Ceidwadwr, felly

Labour Party will question the veracity of my comments—it is reasonable to ask the Labour Party whether it is still telling the people of Wales that it will deliver its manifesto commitment to cut in-patient waiting lists by 5,000. It is an easy question that can be answered with a ‘yes’ or a ‘no’. I would give way to the Secretary for Health and Social Services on that, although I do not think that she will seek to make an intervention at this time.

To conclude, the NHS must be patient-focused. The availability of new and more effective treatments has led to an increase in waiting lists. We can now make interventions for people over 60 that we would not have dreamed of making 20 years ago, whatever the old criteria. We can offer greater assistance and treatment, and waiting lists have increased as a result. We need a measure that can take us through the next 50 years. Waiting lists are a crude measure that the Conservatives did not emphasise, certainly not in the latter part of our administration.

We must move towards a guaranteed waiting time and if we deliver that, we will have the gratitude of the people of Wales. They will see that we are not making simple promises about the length of waiting lists and how they can be easily cut, but are working in a way that achieves goals. Clearly, after two and a half years, those waiting lists have not been cut as a first step by the Labour Party and there is no prospect of them being cut by the next election. The Labour Party will have to answer to the people if it fails to keep this promise, one of its five central manifesto commitments.

Christine Humphreys: Cyferiaf at y gwelliannau yn enw Mike German. Dymunwn gadw gwelliannau 4 a 5, ond fel Democratiaid Rhyddfrydol derbyniwn bod gwelliant 6 yn galw am yr un sicrhad â gwelliant 3 Dafydd Wigley.

Cytunwn, felly, i dynnu gwelliant 6 yn ôl, a chefnogwn welliant 3. Ni chefnogwn welliant 1, ond cefnogwn welliant 2, yn ysbryd gwleidyddiaeth gynhwysol.

hwyrach y gwnaiff y Blaid Lafur amau gwirionedd fy sylwadau—mae’n rhesymol gofyn i’r Blaid Lafur a ydyw’n dal i ddweud wrth bobl Cymru y gwnaiff wireddu ei hymrwymiad yn ei manifesto i dorri 5,000 oddi ar restrau aros cleifion mewnol. Mae’n gwestiwn hawdd y gellir ei ateb gydag ‘ie’ neu ‘na’. Byddwn yn ildio i’r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar hynny, er nad wyf yn meddwl y gwnaiff hi geisio gwneud ymyriad ar hyn o bryd.

I gloi, rhaid i’r NHS ganolbwyntio ar y claf. Mae bodolaeth triniaethau newydd a mwy effeithiol wedi arwain at gynnydd mewn rhestrau aros. Yn awr gallwn drin pobl dros 60 oed na fuasem wedi breuddwydio eu trin 20 mlynedd yn ôl, beth bynnag oedd yr hen feini prawf. Gallwn gynnig mwy o gymorth a thriniaeth ac mae rhestrau aros wedi cynyddu o ganlyniad. Mae angen mesur a all ein cario drwy’r 50 mlynedd nesaf. Mae rhestrau aros yn fesur amrwd na phwysleisiwyd gan y Ceidwadwyr, yn sicr nid yn rhan olaf ein gweinyddiaeth.

Rhaid inni symud tuag at amser aros gwarantedig ac os cyflawnwn hynny, bydd pobl Cymru’n diolch inni. Byddant yn gweld nad dim ond gwneud addewidion syml am hyd rhestrau aros a sut y gellir eu torri yr ydym, ond ein bod yn gweithio mewn ffordd sydd yn cyflawni nodau. Yn amlwg, ar ôl dwy flynedd a hanner, nid yw’r rhestrau aros hynny wedi’u cwtogi fel cam cyntaf gan y Blaid Lafur ac nid oes unrhyw argoelion y cânt eu cwtogi erbyn yr etholiad nesaf. Bydd yn rhaid i’r Blaid Lafur ateb i’r bobl os metha gadw’r addewid hon, un o bum ymrwymiad canolog ei manifesto.

Christine Humphreys: I refer to the amendments in the name of Mike German. We wish to retain amendment 4 and 5, but as Liberal Democrats we accept that amendment 6 calls for the same assurance as Dafydd Wigley’s amendment 3.

We agree, therefore, to withdraw amendment 6, and to support amendment 3. We do not support amendment 1, but we support amendment 2, in the spirit of inclusive politics.

Fel y dywedodd Mike German yn ystod rhan gyntaf y ddadl hon yr wythnos diwethaf, mae llawer i'w gefnogi a'i groesawu yn rhaglen y Llywodraeth. Y teimlad, fodd bynnag, ar ôl astudio'r manylion yw mai agenda ar gyfer Lloegr ydyw yn hytrach nag un sydd yn ceisio datrys problemau Cymru hefyd.

As Mike German said during the first part of this debate last week, there is much to support and welcome in the Government's programme. The feeling, however, having studied the details is that it is an agenda for England rather than one that also attempts to solve Wales's problems.

Fel y dywedodd David yn gynharach, nid oes unrhyw beth penodol yn y rhaglen i geisio gwella sefyllfa'r gwasanaeth iechyd gwladol. Yr wyf yn derbyn, fodd bynnag, sylw Jane y gallwn symud yr agenda ymlaen rywfaint yng Nghymru. Fodd bynnag, ers i'r Llywodraeth ddod i rym yn 1997 mae nifer y rhai sydd yn disgwyl chwe mis neu fwy am apwyntiad i weld arbenigwr wedi cynyddu bum gwaith.

As David said earlier, there is nothing specific in the programme that attempts to improve the situation of the national health service. I accept, however, Jane's comment that we are able to move the agenda forward to some extent in Wales. However, since the Government came to power in 1997 the number of those waiting six months or more for an appointment to see a specialist has increased fivefold.

Nid oes Mesurau ychwaith i ostwng maint dosbarthiadau yng Nghymru. Mae dros 50,000 o blant ysgolion cynradd yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau o 30 neu fwy.

There are no Bills either to decrease class sizes in Wales. Over 50,000 of primary school children are taught in classes of 30 or more.

Y siom fwyaf yw nad oes Mesur sydd yn gwarantu cyllid cyfatebol ar gyfer Amcan 1 ar ben yr hyn a dderbyniwn o dan fformwla Barnett. Mae'r Ysgrifennydd Cyllid wedi clustnodi £25 miliwn ar gyfer cyllid cyfatebol ond daw hyn allan o gyllideb Cymru. Arian yw hwn a ddylai gael ei wario ar ein gwasanaeth iechyd, ar ein hysgolion neu ar amaeth—unrhyw beth ond cynlluniau Amcan 1.

The biggest disappointment is that there is no Bill to guarantee match funding for Objective 1 above what we receive under the Barnett formula. The Finance Secretary has earmarked £25 million for match funding but this comes out of Wales's budget. This is money that should be spent on our health service, on our schools or on agriculture—anything but Objective 1 schemes.

Un neges glir y gobeithiaf y bydd David Hanson yn ei chludo i Tony Blair a Gordon Brown yw bod mwyafrif y Cynulliad yn disgwyl iddynt lynu at fwriad arian Amcan 1, sef symud arian o ardaloedd cyfoethog i'r rhai difreintiedig. Golyga hynny symud arian o dde Lloegr i ardaloedd megis Cymru a Glannau Mersi sydd wedi ennill arian Amcan 1.

One clear message that I hope David Hanson will take to Tony Blair and Gordon Brown is that the Assembly majority expect them to keep to the aim of Objective 1 funding, that is to move money from wealthy areas to deprived ones. That means moving money from the south of England to areas such as Wales and Merseyside that have won Objective 1 money.

Trof at rai o'r Mesurau yn Araith y Frenhines. Mae'r Cynulliad eisoes yn gweithio ar y Mesur Addysg a Hyfforddiant Ôl-16. Treuliodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 y chwe mis diwethaf yn delio ag adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant a'i awgrymiadau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16.

I turn to some of the Bills in the Queen's Speech. The Assembly is already working on the Post-16 Education and Training Bill. The Post-16 Education and Training Committee spent the past six months dealing with the Education and Training Action Group's report and its suggestions for post-16 education and training.

Fel nifer yn y Cynulliad, yr wyf yn

Like many in the Assembly, I am aware that

ymwybodol bod llawer o etholwyr yn cwestiynu sefydlu'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 yn enghraifft o'r modd y gall y Cynulliad wneud pethau yn wahanol yng Nghymru.

O dan yr hen drefn byddai adroddiad ETAG wedi glanio ar ddesg yr Ysgrifennydd Gwladol, ac ar ôl ychydig o ymgynghori a thrafod byddai'r cynllun wedi cael ei weithredu. O dan y sefyllfa newydd, fodd bynnag, mae'r rhai a effeithir gan awgrymiadau'r adroddiad wedi cael cyfle i gael gwrandawriad ac i fynegi barn, a hynny yn gyhoeddus. Mae hynny'n bwysig.

Mae'r Weinyddiaeth yng Nghaerdydd hefyd wedi gorfod dysgu sut i gyfaddawdu ar adroddiad ETAG. Cyfeiriai at barodrwydd Tom Middlehurst i gyfaddawdu yn y pen draw er mwyn symud ymlaen a pheidio â cholli'r holl gynllun. Cyfaddefaf fy mod, yn fy munudau mwyaf sinigaidd, yn meddwl tybed ai parodrwydd i gyfaddawdu yw hyn ynteu'r realiti o fod yn aelod o weinyddiaeth leiafrifol.

Trof at y Mesur Trafnidiaeth. Mae hwn yn cynnig awdurdod rheilffyrdd strategol, ond heb swyddfa yng Nghymru. Caiff Cymru gynrychiolaeth ar yr awdurdod hwn ond ni fydd gan y Cynulliad yr hawl i benderfynu pwy fydd yn ein cynrychioli arno. Mae problemau gyda'r rheilffyrdd yng Nghymru ac wrth dderbyn hyn, rhaid inni dderbyn yr angen i hyrwyddo ffyrdd eraill o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn awyddus i weld awdurdod trafnidiaeth i deithwyr yn gyfrifol am bob math o drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn creu system integredig.

3:39 p.m.

I turn to our concerns about the Queen's Speech. One or two measures seem rather draconian. For example, introducing mandatory drug tests for all crimes. We would agree with mandatory drug tests in cases where there is a link between drugs and the crime, but not for all crimes or suspects.

We are also concerned that many of the

many electors question the establishment of the Assembly. However, the Post-16 Education and Training Committee is an example of how the Assembly can do things differently in Wales.

Under the old order the ETAG report would have landed on the Secretary of State's desk, and after a short consultation and discussion the scheme would have been implemented. Under the new order, however, those affected by the suggestions in the report have had a chance to be heard and to express their opinion, and to do so publicly. That is important.

The Administration in Cardiff has also had to learn how to compromise on the ETAG report. I refer to Tom Middlehurst's willingness to compromise in the end in order to move forward and avoid losing the whole scheme. I confess that, in my most cynical moments, I wonder whether this is willingness to compromise or the reality of being a member of a minority administration.

I turn to the Transport Bill. This proposes a strategic rail authority, but without an office in Wales. Wales will be represented on this authority but the Assembly will not have the right to decide who will represent us on it. There are problems with the railways in Wales and in accepting that we must accept the need to promote other means of public transport. The Liberal Democrats are keen to see a passenger transport authority with responsibility for all public transport in order to create an integrated system.

Trof at ein pryderon ynglŷn ag Araith y Frenhines. Mae un neu ddau o'r mesurau yn ymddangos braidd yn llym. Er enghraifft, cyflwyno profion cyffuriau gorfodol am bob trosedd. Byddem yn cytuno â phrofion cyffuriau gorfodol mewn achosion lle mae cysylltiad rhwng cyffuriau a'r drosedd, ond nid ar gyfer pob trosedd neu bob un a amheuir o drosedd.

Yr ydym hefyd yn poeni bod llawer o'r

measures, especially those introduced in the Local Government Bill, are likely to lead to more centralisation of power. Jenny Randerson has already referred to the new council structures and this gives rise to much concern, because they are likely to make, and are already making, councils more secretive, shutting out backbenchers and opposition councillors from decision-making. This will make councils less accountable.

Perhaps central to all future legislation is amendment 4, which calls on the Assembly and the UK Parliament to establish a mechanism for dialogue. Our present system involves dialogue between the Cabinet in Cardiff and the Cabinet in London, but this must be extended. Shaping legislation is a crucial task for Parliament and we need an effective mechanism whereby we can inform Members of Parliament of our views when they draft new legislation and do not have to wait until the legislation has been presented. This mechanism would be vital to Wales, because unlike Northern Ireland and Scotland we do not have full powers over areas such as education. We have to negotiate every step of the way. It is therefore essential that we have a close relationship with Parliament so that we can influence legislation at all stages.

Alison Halford: My speech refers to the Freedom of Information Bill. Having fallen foul of the interception of communications tribunal public interest rules associated with chief constables, police authorities, the Press Complaints Commission, the Police Complaints Authority and other august bodies, I hope that I have something constructive to say. The Freedom of Information Bill, when enacted, will apply fully in Wales and thus rightfully concerns this Assembly.

When the Government was elected in 1997 it came with a pledge to introduce a Freedom of Information Act. The White Paper 'Your Right to Know', was developed at Cabinet office level by David Clark. It was published in December 1997 and was widely welcomed. The responsibility of drafting the

mesurau, yn enwedig y rheini a gyflwynir yn y Mesur Llywodraeth Leol, yn debyg o arwain at fwy o ganoli grym. Mae Jenny Randerson eisoes wedi cyfeirio at y strwythurau newydd i gynghorau ac mae hyn yn peri llawer o bryder, oherwydd maent yn fwy tebygol o wneud cynghorau yn fwy dirgel, gan gau meincwyr cefn a chynghorwyr y gwrthbleidiau allan o'r broses benderfynu. Yn wir, mae hyn yn digwydd yn barod. Bydd yn gwneud cynghorau yn llai atebol.

Yn ganolog, efallai, i bob deddfwriaeth yn y dyfodol mae gwelliant rhif 4, sydd yn galw ar y Cynulliad a Senedd y DU i sefydlu peirianwaith deialog. Mae ein system bresennol yn golygu deialog rhwng y Cabinet yng Nghaerdydd a'r Cabinet yn Llundain, ond rhaid ehangu hyn. Mae llunio deddfwriaeth yn dasg holl bwysig i'r Senedd ac mae angen peirianwaith effeithiol arnom er mwyn inni allu cyfleu ein barn wrth Aelodau Seneddol pan fyddant yn drafftio deddfwriaeth newydd. Byddai'r peirianwaith hwn yn hanfodol bwysig i Gymru, oherwydd yn wahanol i Ogledd Iwerddon a'r Alban nid oes gennym bwerau llawn dros feysydd fel addysg. Rhaid inni drafod bob cam o'r ffordd. Mae'n hanfodol felly fod gennym berthynas agos gyda'r Senedd fel ein bod yn gallu dylanwadu ar ddeddfwriaeth ar bob cam.

Alison Halford: Cyfeiria fy araith at y Mesur Rhyddid Gwybodaeth. A minnau wedi dioddef oherwydd y rheolau buddiant cyhoeddus i dribiwnlysoedd ar ymyrryd â chysylltiadau yng nghyswllt prif gwnstabiliaid, awdurdodau heddlu, Comisiwn Cwynion y Wasg, Awdurdod Cwynion yr Heddlu a chyrrff pwysig eraill, gobeithiaf fod gennyf rywbeth adeiladol i'w ddweud. Bydd y Mesur Rhyddid Gwybodaeth, ar ôl dod yn ddeddf, yn cael ei roi ar waith yn llawn yng Nghymru ac mae felly yn fater o ddiddordeb dilys i'r Cynulliad hwn.

Pan etholwyd y Llywodraeth yn 1997, daeth gydag addewid i gyflwyno Deddf Rhyddid Gwybodaeth. Datblygwyd y Papur Gwyn, 'Eich Hawl Chi i Wybod', ar lefel swyddfa'r Cabinet gan David Clark. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1997 a chafodd groeso eang. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddrafftio'r

Bill was then handed to the Home Office. Something happened in transition that has regrettably diluted many of the good points that were enshrined within the White Paper.

The Select Committee appointed to consider the draft Freedom of Information Bill said that there were three principles to embrace. First, the right to access information is a general right of all people and it does not depend on a right to know. However, the White Paper's substantial harm test has been replaced by a prejudice test. I apologise for echoing the words of Ann Widdecombe. That is not my desire. The prejudice test will make it far easier for public bodies to argue against disclosure. On a related point, the Government must publicise the existence of the individual's right to know. How can individuals take the initiative without prior knowledge of their entitlement? Secondly, the Select Committee also thought that there was a need to limit the numbers of exemptions where disclosure would cause harm of some kind. We all accept that, but the Bill includes catch-all exemptions. Information can be withheld if, in the opinion of the Minister, it would prejudice the effective conduct of public affairs. That would seem to give legal weight to ministerial opinion and make it impossible to mount a challenge. Thirdly, there is a right to appeal to an impartial arbiter who has the power to rule that information must be disclosed. The Bill would create an office of an information commissioner and a new information tribunal but their role and power would be restricted. The information commissioner would only have the power to recommend, not compel the release of information in the public interest. The draft Bill fails on all three counts.

Happily, in response to concerns, the Home Secretary has agreed to make changes. First, the role of the information commissioner will be enlarged to allow the commissioner to put pressure on Ministers by calling for discretionary disclosure of information. Secondly, the speeding up of the process of responding to requests for information is important. My lawyer who helped me win a case of phone tapping at the European Court

Mesur wedyn i'r Swyddfa Gartref. Wrth drosglwyddo digwyddodd rhywbeth sydd, yn anffodus, wedi gwanhau llawer o'r pwyntiau da a oedd wedi eu cynnwys yn y Papur Gwyn.

Dywedodd y Pwyllgor Dethol a benodwyd i ystyried y Mesur Rhyddid Gwybodaeth drafft fod tair egwyddor i'w cwmpasu. Yn gyntaf, mae'r hawl i weld gwybodaeth yn hawl gyffredinol a berthyn i bawb ac nid yw'n dibynnu ar hawl i wybod. Fodd bynnag, disodlwyd prawf niwed sylweddol y Papur Gwyn gan brawf rhagfarn. Ymddiheuraf fy mod yn adleisio geiriau Ann Widdecombe. Nid dyna fy nymuniad. Bydd y prawf rhagfarn yn ei gwneud yn llawer haws i gyrff cyhoeddus ddadlau yn erbyn dadlennu. Ar bwynt cysylltiol, rhaid i'r Llywodraeth roi cyhoeddusrwydd i fodolaeth hawl yr unigolyn i wybod. Sut gall unigolion weithredu o'u pen a'u pastwn eu hunain heb wybod ymlaen llaw am eu hawl? Yn ail, teimlai'r Pwyllgor Dethol hefyd fod angen cyfyngu nifer yr eithriadau lle byddai dadlennu yn achosi niwed o ryw fath. Yr ydym i gyd yn derbyn hynny, ond mae'r Mesur yn cynnwys eithriadau dal-popeth. Gellir cadw gwybodaeth yn ôl pe byddai, ym marn y Gweinidog, yn rhagfarnu yn erbyn ymdrin yn effeithiol â materion cyhoeddus. Mae hynny yn ôl pob golwg yn rhoi pwysau cyfreithiol i farn weinidogol ac yn ei gwneud hi'n amhosibl ei herio. Yn drydydd, ceir hawl i apelio at ganolwr diduedd sydd â'r grym i bennu bod yn rhaid dadlennu gwybodaeth. Byddai'r Mesur yn creu swydd comisiynydd gwybodaeth a thribiwnlys gwybodaeth newydd ond cyfyng fyddai eu rôl a'u grym. Grym i argymhell bod gwybodaeth yn cael ei rhyddhau er budd y cyhoedd yn unig fyddai gan y comisiynydd gwybodaeth, nid i orfodi hynny. Mae'r Mesur drafft yn methu ar bob un o'r tri phwynt hyn.

Yn ffodus, mewn ymateb i'm pryderon, mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cytuno i wneud newidiadau. Yn gyntaf, caiff rôl y comisiynydd gwybodaeth ei hehangu i ganiatáu i'r comisiynydd roi pwysau ar Weinidogion trwy alw am ddadlennu gwybodaeth ar sail disgresiwn. Yn ail, mae cyflymu'r broses ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth yn bwysig. Mae fy nghyfreithiwr, a'm helpodd i ennill achos

of Human Rights has now been waiting for two and a half years to speak to the Home Secretary. I appreciate that he is a very busy Minister. Thirdly, the jigsaw clause, which would permit the withholding of sensitive information if it could be harmful, has been removed. Also, public authorities would be required to give reasons for nondisclosure unless such reasons would themselves reveal information that should not be disclosed.

In my humble opinion, fundamental weaknesses remain in the draft legislation. The development of public policy will remain exempt from freedom of information legislation. That cannot be right. The electorate must be allowed to see how the policy process truly operates. I also suggest that the 30-year rule should be reduced. Furthermore, where there are prospects of criminal proceedings, reports and information gathered by accident and health investigators would be exempt from the freedom of information legislation as it stands. For example, that would include information on events such as Clapham Junction, the Paddington rail disaster and the Marchioness incident.

Finally, even with concessions, the power of the information commissioner would be too weak. It should be the responsibility of an independent commissioner to decide what is in the public interest, not those with a vested interest in maintaining secrecy. The Home Secretary has recognised that the Bill may change again before it is enacted. I hope that he listens to the needs of the people who should be given information in so many circumstances.

3:49 p.m.

Helen Mary Jones: I will concentrate on three or four measures in the Government's legislative programme that I feel show a sharp contrast in the level of understanding and responsiveness to devolution between Whitehall departments and possibly between Westminster Ministers. Some of them fall under the same heading.

yn glŷn â dyfais glustfeinio ar y ffôn yn Llys Iawnderau Dynol Ewrop, wedi bod yn disgwyl dwy flynedd a hanner i siarad â'r Ysgrifennydd Cartref. Sylweddolaf ei fod yn Weinidog prysur iawn. Yn drydydd, mae'r cymal jig-so, a fyddai'n caniatáu cadw gwybodaeth sensitif yn ôl pe gallai fod yn niweidiol, wedi ei ddileu. Hefyd, byddai gofyn i awdurdodau cyhoeddus roi rhesymau dros beidio â dadlennu oni bai y byddai'r rhesymau ynddynt eu hunain yn dadlennu gwybodaeth na ddylai gael ei dadlennu.

Yn fy marn ostyngedig i, mae yna wendidau sylfaenol yn y ddeddfwriaeth ddrafft o hyd. Bydd datblygiad polisi cyhoeddus yn dal i gael ei eithrio rhag y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Ni all hynny fod yn iawn. Rhaid caniatáu i'r etholwyr weld sut y mae'r broses polisi yn gweithredu mewn gwirionedd. Awgrymaf hefyd y dylid cwtogi'r rheol 30-mllynedd. Yn ogystal, lle bo posibilrwydd o achos cyfreithiol, byddai adroddiadau a gwybodaeth a gesglir gan ymchwilyr damweiniau ac iechyd yn cael eu heithrio rhag y ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth fel y saif ar hyn o bryd. Er enghraifft, byddai hynny yn cynnwys gwybodaeth ar ddigwyddiadau fel Cyffordd Clapham, trychineb rheilffordd Paddington a thrychineb y Marchioness.

Yn olaf, hyd yn oed gyda chonchesiynau, byddai grym y comisiynydd gwybodaeth yn rhy wan. Dylai'r cyfrifoldeb am benderfynu beth sydd er budd y cyhoedd orffwys gyda chomisiynydd annibynnol, nid gyda'r rheini y mae cynnal cyfrinachedd o fudd iddynt. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi cydnabod y gallai'r Mesur newid eto cyn iddo droi'n ddeddf. Gobeithiaf y bydd yn gwranddo ar anghenion y bobl y dylid rhoi gwybodaeth iddynt mewn cynifer o amgylchiadau.

Helen Mary Jones: Byddaf yn canolbwyntio ar dri neu bedwar mesur yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth sydd, yn fy marn i, yn dangos gwrthgyferbyniad amlwg yn lefel y ddealltwriaeth o ddatganoli, a lefel y parodrwydd i ymateb iddo, rhwng adrannau Whitehall ac o bosibl rhwng Gweinidogion San Steffan. Daw rhai ohonynt o dan yr un pennawd.

I wish to contrast how the Assembly's response to two measures has been dealt with. The first is the Care Standards Bill. I am delighted to say that this measure was brought to the Health and Social Services Committee last summer, while the legislation was still being drafted. It is clear that the primary legislation will make it possible for the Assembly to regulate social care in Wales in the way that it decides is best. That is what devolution is about, and that is as it should be. I commend the Secretary for Health and Social Services for bringing this legislation to us when she did and for how she has taken on board the Committee's views and obviously passed them on to the appropriate quarters.

In sharp contrast, however, is the Children (Leaving Care) Bill. This Bill was also brought to the Health and Social Services Committee in time. We welcome that; it sets a pattern for how future Westminster Government legislation on matters that are of great importance to Wales can hopefully be dealt with by Assembly Committees. However, we seriously regret the way that important elements of the Committee's views have been disregarded in the primary legislation.

We welcome many aspects of the Bill, which should enable us in Wales to provide a better service to our care leavers who, as I am sure colleagues would agree, we have in many cases sadly let down in the past. However, if this Bill is passed it will remove benefit entitlement from 16 and 17-year-olds leaving care. Even the Conservatives did not dare to do that. I will not go into detail about how dangerous that is, but we must all be aware that there will always be a small number of disaffected young people who leave the care system and want no further contact with the authorities. We have to ask ourselves from where those young people will get their income, if they cannot draw social security benefits.

Hoffwn wrthgyferbynnu sut yr ymdriniwyd ag ymateb y Cynulliad i ddau fesur. Y cyntaf yw'r Mesur Safonau Gofal. Pleser yw cael dweud i'r mesur hwn ddod gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr haf diwethaf, tra'r oedd y ddeddfwriaeth yn dal i gael ei drafftio. Mae'n amlwg y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn ei gwneud hi'n bosibl i'r Cynulliad reoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru fel y tybia sydd orau. Dyna yw hanfod datganoli, ac felly y dylai fod. Canmolaf yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ddod â'r ddeddfwriaeth hon atom pan wnaeth ac am y ffordd y mae wedi cydnabod barn y Pwyllgor ac, yn amlwg, wedi ei throsglwyddo i'r manau priodol.

Mewn cyferbyniad llwyr, fodd bynnag, ceir y Mesur Plant (yn Gadael Gofal). Cyflwynwyd y Mesur hwn hefyd gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn pryd. Croesawn hynny, mae'n gosod patrwm, gobeithio, ar gyfer sut y bydd Pwyllgorau'r Cynulliad yn ymdrin yn y dyfodol â deddfwriaeth gan Lywodraeth San Steffan ar faterion sydd o bwys mawr i Gymru. Fodd bynnag, yr ydym yn siomedig eithriadol â'r ffordd y mae elfennau pwysig o farn y Pwyllgor wedi cael eu hanwybyddu yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.

Croesawn lawer o agweddau'r Mesur, agweddau a ddylai ein galluogi ni yng Nghymru i roi gwell gwasanaeth i'r rhai sydd yn gadael gofal, sydd, fel yr wyf yn sicr y bydd fy nghyd-aelodau yn cytuno, wedi cael eu trin yn wael iawn mewn llawer o achosion yn y gorffennol. Fodd bynnag, os caiff y Mesur hwn ei basio, bydd yn dileu hawl pobl ifainc 16 ac 17 mlwydd oed sydd yn gadael gofal i fudd-dâl. Ni feiddiodd hyd yn oed y Ceidwadwyr â gwneud hynny. Nid af i fanlyu ar ba mor beryglus yw hyn, ond rhaid i bawb ohonom fod yn ymwybodol y bydd yna bob amser nifer fechan o bobl ifainc wedi eu dadrithio sydd yn gadael y system gofal nad ydynt am gael unrhyw gyswllt pellach â'r awdurdodau. Rhaid inni holi ein hunain o ble y mae'r bobl ifainc hynny i gael eu hincwm, os na allant gael budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

The Bill makes provision for exemptions. The exemptions that are suggested at the moment are for disabled young people and for young lone parents, which we agree is appropriate. However, a matter of severe regret is that the primary legislation does not give this Assembly the right to make other exemptions in Wales should it see fit. The Committee expressed a clear, though not unanimous, view on this and I have every faith that that view was passed on by the Secretary for Health and Social Services. It seems, however, that it has been ignored completely. I must ask whether the motive for this policy change is to reduce the benefits budget and to shift that cash to the social services budget and whether it has more to do with presentational reasons and the need to meet the right-wing agenda of a Government that has committed itself to reducing the benefits bill. It begs the question whether this Assembly is just to be consulted and ignored. If that is the case, that is not good enough and I ask the Government of Wales to look again urgently at the policies and procedures for the future on this.

Brian Gibbons: Do you agree that the present system is definitely not working? Under the present system, about 15 per cent of children between 16 and 19 disappear into a black hole. Do you agree that this proposed legislation might achieve the results that you suggest will not be achieved?

Helen Mary Jones: We have discussed this at length in the Committee. There are elements of the legislation that will help to deal with that. However, I submit that a proportion of that 15 per cent of young people who disappear are not young people leaving care but those who have been forced out of the parental home because their benefits have been withdrawn and who are now sleeping rough on our streets. There is recent evidence to suggest that. We are not helping our care leavers by taking away their most basic entitlement, although there is much else in that legislation that we can support.

Another measure in the programme that we

Ceir darpariaeth ar gyfer eithriadau yn y Mesur. Mae'r eithriadau a awgrymir ar hyn o bryd yn ymdrin â phobl ifainc anabl a rhieni unigol ifanc, sydd, fe gytunwn, yn briodol. Fodd bynnag, mae'n siom aruthrol nad yw'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon yn rhoi'r hawl i'r Cynulliad hwn wneud eithriadau eraill yng Nghymru pe tybiai fod angen. Mynegwyd barn glir, er nad unfryd, ar hyn gan y Pwyllgor ac mae gennyf bob ffydd bod y farn wedi ei throsglwyddo ymlaen gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, iddi gael ei hanwybyddu yn llwyr. Rhaid imi ofyn ai'r cymhelliad wrth wraidd y newid polisi hwn yw cwtogi'r gyllideb budd-daliadau a throsglwyddo'r arian hwnnw i gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol ac onid oes a wnelo fwy â rhesymau cyflwyniadol a'r angen i gyflawni agenda adain-dde Llywodraeth sydd wedi ymrwymo i ostwng y bil budd-daliadau. Rhaid gofyn ai corff i ymgynghori ag ef yn unig, a'i anwybyddu, yw'r Cynulliad hwn. Os felly, nid yw hynny'n ddigon da a gofynnaf i Lywodraeth Cymru edrych unwaith eto ar fyrder ar y polisiau a'r gweithdrefnau i'r dyfodol o'r safbwynt hwn.

Brian Gibbons: Ydych chi'n cytuno nad yw'r system bresennol yn sicr yn gweithio? O dan y system bresennol mae tua 15 y cant o blant rhwng 16 a 19 yn diflannu i dwll du. Ydych chi'n cytuno y gallai'r ddeddfwriaeth arfaethedig gyflawni'r canlyniadau yr awgrymwch chi na chânt eu cyflawni?

Helen Mary Jones: Yr ydym wedi trafod llawer ar hyn yn y Pwyllgor. Mae yna elfennau o'r ddeddfwriaeth a fydd yn help i ddelio â hynny. Fodd bynnag, byddwn i'n awgrymu nad pobl ifainc yn gadael gofal yw cyfran o'r 15 y cant o bobl ifainc sydd yn diflannu ond mai pobl ifainc ydynt sydd wedi eu gorfodi i adael cartref eu rhieni am nad ydynt yn cael budd-dâl a'u bod bellach yn cysgu ar ein strydoedd. Mae yna dystiolaeth ddiweddar i awgrymu hynny. Nid ydym yn helpu'r rhai sydd yn gadael gofal drwy ddileu eu hawl fwyaf sylfaenol, er bod llawer o bethau eraill yn y ddeddfwriaeth yma yr ydym yn eu cefnogi.

Mesur arall yn y rhaglen a groesawn yn

warmly welcome is the Government's proposals to improve the race discrimination legislation and to expand its remit. This stands in sad contrast to the asylum legislation passed last year, which we debated yesterday. I will not go into that again. However, I ask myself whether this is another example of a Government that has two agendas, two traditions and at least two ideologies competing with one another within one party and one Government.

Equality is close to the heart and to the head of this Assembly. Plaid Cymru—The Party of Wales urges the Government to give urgent consideration to the Equal Opportunities Commission's proposals to amend sex discrimination legislation. As far as I am aware, these are still lying on the table almost a year later. They need to be picked up.

Anyone looking around this Chamber might be forgiven for thinking that there is no need to improve the Sex Discrimination Act 1975 and that gender equality is being achieved. However, we only have to look around Westminster to see that that it is not the case.

This Government programme is a curate's egg for Wales. It is good in parts. Plaid Cymru—The Party of Wales will work with the Government of Wales where we can to move the progressive parts of this agenda forward. However, we reserve the absolute right to fight the regressive right-wing elements tooth and nail at a local level, in the Assembly, in Westminster, and in Europe.

Sue Essex: I support some of the comments that have been made, particularly on the transport legislation. Janet Ryder referred to the need to have greater ability to reflect the transport needs of Wales. That is what we agreed in the Environment and Local Government Committee.

I will concentrate on the wildlife and access to open country legislation. I was pleased to see that we will give greater protection to wildlife, enabling us to meet our biodiversity commitments. Access to the open countryside is frequently referred to as the right to roam,

gynnes yw cynigion y Llywodraeth i wella'r ddeddfwriaeth camwahaniaethu ar sail hil ac ehangu ei chylch. Saif hyn mewn gwrthgyferbyniad trist â'r ddeddfwriaeth lloches a basiwyd y llynedd, a drafodwyd gennym ddoe. Nid ymhelaethaf ar hynny eto. Fodd bynnag, ys gwn i ai esiampl arall sydd gennym yma o Lywodraeth sydd â dwy agenda, dau draddodiad ac o leiaf ddwy ideoleg yn cystadlu â'i gilydd o fewn un blaid ac un Llywodraeth.

Mae cydraddoldeb yn agos at galon a meddwl y Cynulliad hwn. Mae Plaid Cymru—The Party of Wales yn annog y Llywodraeth i roi ystyriaeth frys i gynigion y Comisiwn Cyfle Cyfartal i newid y ddeddfwriaeth camwahaniaethu ar sail rhyw. Hyd y gwn i, mae'r rhain yn dal i orwedd ar y bwrdd bron i flwyddyn yn ddiweddarach. Mae angen gafael ynddynt.

Gellid maddau i unrhyw un a fyddai'n edrych o amgylch y Siambr hon am feddwl nad oes angen gwella Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a bod cydraddoldeb rhyw wedi ei gyflawni. Fodd bynnag, dim ond edrych o amgylch San Steffan sydd raid i weld nad yw hynny'n wir.

Ŵy'r curad yw'r rhaglen hon o eiddo Llywodraeth i Gymru. Mae'n dda mewn rhannau. Bydd Plaid Cymru—The Party of Wales yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru lle y medrwn i symud rhannau blaengar yr agenda hon yn eu blaen. Fodd bynnag, cadwn yr hawl lwyr i ymladd yr elfennau adain-dde, sydd yn lithriad yn ôl, nerth deng ewin ar lefel leol, yn y Cynulliad, yn San Steffan, ac yn Ewrop.

Sue Essex: Cefnogaf rai o'r sylwadau a wnaethpwyd, yn enwedig ar y ddeddfwriaeth trafndiaeth. Cyfeiriodd Janet Ryder at yr angen i allu adlewyrchu mwy ar anghenion trafndiaeth Cymru. Dyna'r hyn a gytunwyd ym Mhwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol.

Byddaf yn canolbwyntio ar y ddeddfwriaeth bywyd gwyllt a mynediad i gefn gwlad agored. Yr oeddwn yn falch o weld y byddwn yn amddiffyn mwy ar fywyd gwyllt, gan ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiaadau bioamrywiaeth. Cyfeirir yn aml at fynediad i

especially in an historical context, when people took it upon themselves to go to Kinder Scout to highlight the need for access to open countryside. However, we must be careful about this. In terms of the legislation, the access is in defined areas of open countryside and it is not an open invitation to roam.

Before proposing this legislation, this Government produced a consultation paper that asked many key questions. It was a thorough consultation exercise because we understand that both sides have strong opinions on this. The Countryside Council for Wales, of which I am a member, was responsible for conducting that exercise in Wales. We tried to look at some of the practical details as well as the theoretical elements of the legislation, and what might be needed to overcome any practical considerations. We talked to all the organisations including the land-owning organisations, the farming unions, the Ramblers Association and others. I was closely involved in the Wales Access Forum where we debated all these elements carefully.

As a consequence of that consultation, the Countryside Council for Wales changed its previously held opinion that voluntary access might be the way forward for open access to the countryside. This is the crunch question for many people. Do we support voluntary or statutory access? When asking that question, there was one inescapable over-riding consideration: certainty of access. I have been involved in public rights issues in the past, and it is a minefield with no certainty of public rights and responsibilities. It was on this basis that the CCW answered the Government's question on certainty and said that the only way of giving certainty was by statutory rights.

I am pleased that that has happened as it will be a major breakthrough on access, as Christine Gwyther said this afternoon. However, we have to turn this into a real opportunity in Wales. I understand rural communities' concerns but if we go about this in the right way we can turn that into an

gefn gwlad agored fel yr hawl i grwydro, yn enwedig mewn cyd-destun hanesyddol, pan benderfynodd pobl ar eu liwt eu hunain fynd i Kinder Scout i dynnu sylw at yr angen am fynediad i gefn gwlad agored. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ofalus ynglŷn â hyn. O ran deddfwriaeth, ceir mynediad mewn rhannau o gefn gwlad agored sydd wedi eu diffinio ac nid yw'n wahoddiad agored i grwydro.

Cyn awgrymu'r ddeddfwriaeth, cynhyrchodd y Llywodraeth bapur ymgynghorol a ofynnai lawer o gwestiynau allweddol. Yr oedd yn ymarferiad ymgynghori trylwyr oherwydd yr ydym yn deall fod barn gref o'r naill ochr a'r llall ar hyn. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr wyf fi'n aelod ohono, oedd yn gyfrifol am gynnal yr ymarferiad hwnnw yng Nghymru. Gwnaethom ymdrech i edrych ar rai manylion ymarferol yn ogystal ag ar elfennau o egwyddor yn y ddeddfwriaeth, a'r hyn y gallai fod ei angen i oresgyn unrhyw ystyriaethau ymarferol. Siaradasom â phob corff gan gynnwys cymdeithasau tîrfeiddianwyr, undebau'r ffermwyr, Cymdeithas y Cerddwyr ac eraill. Yr oeddwn â rhan flaenllaw yn Fforwm Mynediad Cymru, lle y trafodasom yr holl elfennau hyn yn ofalus.

Yn sgîl yr ymgynghori hwnnw, newidiodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ei farn, o gredu'n gyntaf mai mynediad gwirfoddol fyddai'r ffordd ymlaen efallai er mwyn rhoi mynediad agored i gefn gwlad. Dyma'r cwestiwn canolog i lawer o bobl. A ydym yn cefnogi mynediad gwirfoddol neu statudol? Wrth ofyn y cwestiwn hwnnw, yr oedd un ystyriaeth holl bwysig: sicrwydd mynediad. Yr wyf wedi ymwneud ag ystyriaethau hawliau cyhoeddus yn y gorffennol, ac mae'n dir peryglus heb unrhyw sicrwydd o hawliau a chyfrifoldebau cyhoeddus. Ar y sail honno yr atebodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gwestiwn y Llywodraeth ynglŷn â sicrwydd a dweud mai'r unig ffordd o roi sicrwydd oedd drwy hawliau statudol.

Yr wyf yn falch bod hynny wedi digwydd gan y bydd yn gam mawr ymlaen o ran mynediad, fel y dywedodd Christine Gwyther y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni droi hwn yn gyfle gwirioneddol i Gymru. Yr wyf yn deall pryderon cymunedau gwledig ond os awn ni ati yn y ffordd iawn

opportunity.

gallwn droi hynny yn gyfle.

3:59 p.m.

Peter Rogers: I have listened to you intently. There is some doubt about this access, particularly to open countryside. The Countryside Council for Wales has, I think, five pilot schemes throughout Wales. One of those schemes near Swansea includes a lot of private land. I have received telephone calls from people who are concerned about how that scheme is being implemented. The consultation will be over in about a month to five weeks. Many people are coming together to try to find out more about it. There is not an open understanding, as you seem to say. It will be devastating if we push this through and cause more hatred in rural areas.

Peter Rogers: Yr wyf wedi gwranddo'n astud arnoch. Mae yna beth amheuaeth am y mynediad hwn, yn enwedig i gefn gwlad agored. Mae gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, mi gredaf, bum cynllun peilot ledled Cymru. Mae un o'r cynlluniau hynny, ger Abertawe, yn cynnwys llawer o dir preifat. Yr wyf wedi derbyn galwadau ffôn gan bobl sydd yn bryderus ynglŷn â'r ffordd y mae'r cynllun hwnnw yn cael ei weithredu. Bydd yr ymgynghori drosodd mewn tua mis i bum wythnos. Mae llawer o bobl yn dod at ei gilydd i geisio canfod mwy amdano. Nid oes dealltwriaeth agored, fel yr awgrymwch chi. Bydd yn ddinistriol iawn os gwthiwn hwn drwodd gan achosi mwy o atgasedd mewn ardaloedd gwledig.

Sue Essex: Peter referred to the mapping exercise taking place in Wales. The CCW is more advanced because it had the phase 1 habitat maps as a starting point. The CCW could give you the full details, but my understanding is that the CCW has contacted every landowner. Its inability to contact some landowners has caused some delay. However, I know, as a former member of the CCW, that we should be committed to approaching this that way so that landowners have the opportunity to look at the maps drawn up and to respond.

Sue Essex: Cyfeiriodd Peter at yr ymarferiad mapio sydd ar droed yng Nghymru. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru gam ar y blaen gan fod ganddo'r mapiau cynefin cam 1 fel man cychwyn. Gallai Cyngor Cefn Gwlad Cymru roi'r manylion llawn ichi, ond yn ôl a ddeallaf mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cysylltu â phob tîrfeddiannwr. Achoswyd peth oedi am ei fod yn methu cysylltu â rhai tîrfeddiannwyr. Fodd bynnag, gwn i, fel cyn aelod o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, y dylem ymroi i ymdrin â hyn mewn ffordd sydd yn rhoi cyfle i dirfeddiannwyr edrych ar y mapiau a lunnir ac i ymateb.

Jane Davidson: Do you agree that one key issue that we need to address in advance of this legislation is the number of blocked footpaths in Wales? About 42 per cent of our footpaths are blocked or difficult to use. Those paths are meant to be public rights of way. Do you also agree that we need to consider how the Assembly can respond quickly when councils have agreed modification orders and illegally blocked footpaths need to be reopened?

Jane Davidson: Ydych chi'n cytuno mai un mater y mae angen inni roi sylw iddo cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yw'r nifer o lwybrau troed yng Nghymru sydd â rhwystrau ar eu traws? Mae tua 42 y cant o'n llwybrau troed un ai â rhwystrau ar eu traws neu'n anodd i'w defnyddio. Mae'r llwybrau hynny i fod yn hawliau tramwy cyhoeddus. A ydych chi hefyd yn cytuno bod angen inni ystyried sut y gall y Cynulliad ymateb yn gyflym pan fo cynghorau wedi cytuno ar orchmynion newid a bod angen ailagor llwybrau sydd â rhwystrau anghyfreithlon ar eu traws?

Sue Essex: I know that the Countryside Council for Wales has a longstanding programme of working with local authorities

Sue Essex: Gwn fod gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru raglen hirsefydlog o waith gydag awdurdodau lleol a grwpiau

and voluntary groups to open up footpaths and to take up cases of illegal blocking. The link between the existing rights of way and open access to open moorland is important.

I return to my point about turning this into an opportunity for landowners and farmers. If this Bill is enacted, I would like to see this integrated within the rural economy, as happens in other countries. That would require extra funding. The CCW would be able to do that. If it is done in the same way that Tir Gofal supports farmers working in the countryside on environmental schemes, we can ensure that access is beneficial to the economy. For example, work has been carried out on the value of long-distance footpaths such as the Offa's Dyke path. I am sure that Mick and Glyn are aware of this example, where approximately £1 of investment has led to £40 of expenditure. So there is a correlation between access to the countryside and benefits to the economy.

Nick Bourne: People in rural Wales would accept that blocked public footpaths are wrong and that blocking should not happen. However, Wales is different. We must recognise, compared with England, that there are considerable advances in Wales for people who want to roam. The national parks mean that much more of Wales's land is open to access. Does Sue agree that we need to act in a different way in Wales as a result?

Thirdly, and perhaps most significantly, we still oppose many of these proposals and we are concerned about the damage to the environment and livestock. However, we welcome the reassurance, which we received from the Secretary for Agriculture and Rural Development four times, that at least in Wales there will be no additional costs to landowners. That is a significant step forward and she has obviously been listening. We were surprised that she gave that undertaking, for which we pressed her several times. I understand that the ramblers—whom I have just met—and the press are aware of that, and I am sure that it will be welcomed. That will

gwirfoddol i agor llwybrau troed ac ymdrin ag achosion lle mae rhwystrau anghyfreithlon. Mae'r cyswllt rhwng yr hawliau tramwy presennol a mynediad agored i rostiroedd agored yn bwysig.

Dychwelaf at fy mhwynt ynglŷn â throi hwn yn gyfle i dirfeddianwyr a ffermwyr. Os caiff y Mesur hwn ei droi'n ddeddf, hoffwn weld hyn yn cael ei integreiddio o fewn yr economi gwledig, fel sydd yn digwydd mewn gwledydd eraill. Byddai angen cyllid ychwanegol tuag at hynny. Gallai Cyngor Cefn Gwlad Cymru wneud hynny. Os gwneir ef yn yr un ffordd ag y mae Tir Gofal yn cefnogi ffermwyr sydd yn gweithio yng nghefn gwlad ar gynlluniau amgylcheddol, gallwn sicrhau bod mynediad er budd i'r economi. Er enghraifft, gwnaethpwyd gwaith i ganfod gwerth llwybrau hir tebyg i lwybr Clawdd Offa. Mae'n siŵr bod Mick a Glyn yn ymwybodol o'r enghraifft hon, lle mae tua £1 o fuddsoddiad wedi arwain at £40 o wariant. Felly mae cydberthynas rhwng mynediad i gefn gwlad a manteision i'r economi.

Nick Bourne: Byddai pobl yng nghefn gwlad Cymru yn derbyn bod rhwystrau ar draws llwybrau cyhoeddus yn amhriodol ac na ddylai rhwystro ddigwydd. Fodd bynnag, mae Cymru yn wahanol. Rhaid inni gydnabod, o'i chymharu â Lloegr, bod camau sylweddol wedi eu cymryd yng Nghymru o ran y bobl sydd am grwydro. Mae'r parciau cenedlaethol yn golygu bod yna fynediad i lawer mwy o dir Cymru. A yw Sue yw cytuno bod angen inni weithredu'n wahanol yng Nghymru o'r herwydd?

Yn drydydd, ac yn fwyaf arwyddocaol efallai, yr ydym yn dal i wrthwynebu llawer o'r cynigion hyn ac yr ydym yn bryderus ynglŷn â difrod i'r amgylchedd a da byw. Fodd bynnag, croesawn y sicrwydd a roddwyd inni bedair gwaith gan yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, na fydd yna yng Nghymru o leiaf unrhyw gostau ychwanegol ar dirfeddianwyr. Mae hynny yn gam pwysig ymlaen ac mae'n amlwg iddi fod yn gwrando. Yr oeddem yn synnu iddi roi'r addewid hwnnw, yr oeddem wedi pwyso arni amdano sawl gwaith. Deallaf fod y cerddwyr—yr wyf newydd gwrdd â hwy—a'r wasg yn ymwybodol o

put pressure on the agriculture and rural development budget, from which the costs must be met. However, that has eliminated one of our prime objections. We have others, but perhaps they can be addressed.

The Presiding Officer: I take that to be a Conservative speech.

Nick Bourne: It was an intervention.

Sue Essex: In fairness, it was more of a speech than a question. However, I was pleased to hear that the Conservatives are willing to consider working through any differences. Nick says that in Wales we have more open moorland that is traditionally open through voluntary agreements. That is true. However, we also have other precious areas that could benefit from open access.

This is an opportunity. We are at the forefront of thinking, because of the mapping exercise that has been carried out by the Countryside Council for Wales. I hope that we can do this constructively in Wales, by working together with landowners and those who desperately want access to these open areas. However, this is a question of rights and responsibilities. The First Secretary would remind us that people using the facilities in rural areas must appreciate that people also live there and that they have a right to make their living. If we can integrate this into the rural economy, it could work positively for Wales.

Glyn Davies: This is an important debate, but not as important or as significant as it should be. By his absence, the Secretary of State for Wales has greatly diminished the debate. I do not accept the reasons for his absence, which, I believe, is a deliberate snub to the Assembly.

The Presiding Officer: Order. I know that the Secretary of State for Wales is not an Assembly Member, but the courtesy that we extend to Members must also be extended to

hyn, ac yr wyf yn siŵr y caiff ei groesawu. Bydd yn rhoi pwysau ar y gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig, y bydd yn rhaid cwrdd â'r costau ohoni. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael gwared ag un o'n gwrthwynebiadau pennaf. Mae gennym eraill, ond efallai y gellir delio â'r rheini.

Y Llywydd: Yr wyf yn cymryd mai araith Geidwadol oedd honna.

Nick Bourne: Ymyriad ydoedd.

Sue Essex: I fod yn deg, yr oedd yn fwy o araith nag o gwestiwn. Fodd bynnag, yr oeddwn yn falch o glywed bod y Ceidwadwyr yn barod i ystyried gweithio drwy unrhyw wahaniaethau. Dywed Nick bod gennym fwy o rostiroedd agored yng Nghymru sydd yn draddodiadol yn agored drwy gytundebau gwirfoddol. Mae hynny'n wir. Fodd bynnag, mae gennym hefyd ardaloedd gwerthfawr eraill a allai elwa o fynediad agored.

Mae hwn yn gyfle. Yr ydym ar flaen y datblygiadau, oherwydd yr ymarferiad mapio a gyflawnwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Gobeithiaf y gallwn wneud hyn mewn modd adeiladol yng Nghymru, drwy weithio gyda thirfeddianwyr ac eraill sydd yn dyheu am fynediad i'r ardaloedd agored hyn. Fodd bynnag, cwestiwn o hawliau a chyfrifoldebau yw hwn. Byddai'r Prif Ysgrifennydd yn ein hatgoffa bod yn rhaid i'r bobl sydd yn defnyddio cyfleusterau mewn ardaloedd gwledig werthfawrogi hefyd fod pobl yn byw yno a bod ganddynt hawl i ennill eu bywoliaeth. Os gallwn integreiddio hyn i mewn i'r economi gwledig, gallai weithio'n adeiladol er budd Cymru.

Glyn Davies: Mae hon yn ddadl bwysig, ond nid mor bwysig nac mor arwyddocaol ag y dylai fod. Drwy ei absenoldeb, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dibrisio'r ddadl yn fawr. Nid wyf yn derbyn y rhesymau dros ei absenoldeb, sydd, mi gredaf, yn bwrw sen yn fwriadol ar y Cynulliad.

Y Llywydd: Trefn. Gwn nad yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn Aelod o'r Cynulliad, ond rhaid ymestyn yr un cwrteisi ag a estynnir i'r Aelodau i Ysgrifennydd

the Secretary of State for Wales and his representative, in their presence and in their absence.

Glyn Davies: I thought I was being reasonably courteous. The Secretary of State for Wales, whom I greatly admire, is absent.

As well as giving our Assembly its first opportunity to discuss a Queen's Speech, this debate gives us an opportunity to reflect on the way that legislation will be developed in the UK's rapidly changing constitution, and on how power is distributed within the UK and the Assembly. That is particularly relevant this week.

Last week, the Secretary for Education and Children told the Pre-16 Education Committee that its views were no more or less important than any outside organisation that was consulted by the Committee. I thought that that was an outrageous statement, which the First Secretary seemed to support when questioned about it yesterday. Also last week, the Labour administration deliberately undermined the Agriculture and Rural Development Committee by persuading it to delay for a week a meeting in which it would give final consideration to the beef on the bone ban. That was just long enough to allow Labour to nip in and announce an end to the ban, leaving the Agriculture and Rural Development Committee looking like a hapless rubber stamp.

Those of us who serve on that Committee have noticed, at close hand, the other big power struggle that is happening. That is, the one between those of us who want to see the Assembly use the power and influence that the devolution settlement has given it and the control freaks in the Blair Government who have realised, belatedly, that devolution is an event that has taken place and which has its own unpredictable dynamic.

We have seen the Secretary for Agriculture and Rural Development hung out to dry by her Westminster equivalent over the calf processing aid scheme. We have also seen Westminster's deliberate strategy to make the Assembly look ridiculous over the beef on

Gwladol Cymru hefyd a'i gynrychiolydd, yn eu presenoldeb ac yn eu habsenoldeb.

Glyn Davies: Tybiwn imi fod yn weddol gwrtais. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr wyf yn ei edmygu yn fawr, yn absennol.

Yn ogystal â rhoi i'n Cynulliad ei gyfle cyntaf i drafod Araith y Frenhines, mae'r ddatl hon yn rhoi cyfle inni i bwysu a mesur y ffordd y bydd deddfwriaeth yn cael ei datblygu o fewn cyfansoddiad y DU, sydd yn prysur newid, a sut y dosberthir grym o fewn y DU a'r Cynulliad. Mae hynny yn neilltuol o berthnasol yr wythnos hon.

Yr wythnos diwethaf, dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant wrth y Pwyllgor Addysg Cyn-16 nad oedd ei farn yn ddim mwy na llai pwysig na barn corff allanol y mae'r Pwyllgor yn ymgynghori ag ef. Teimlwn fod hwn yn ddatganiad cywilyddus, ac ymddangosai fod y Prif Ysgrifennydd yn ei gefnogi pan holwyd ef ddoe. Yr wythnos diwethaf hefyd, tanseiliodd y weinyddiaeth Lafur y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn fwrriadol drwy ei berswadio i ohirio, am wythnos, y cyfarfod i ystyried y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn am y tro olaf. Yr oedd hynny'n ddigon hir o drwch blewyn i ganiatáu i Lafur sleifio i mewn a chyhoeddi diwedd y gwaharddiad, gan adael y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn edrych fel stamp rwber anffodus.

Mae'r rheini ohonom sydd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor hwnnw wedi sylwi ar yr ymrafael am rym sydd yn mynd rhagddo o dan ein trwynau. Hynny yw, yr ymrafael rhwng y rheini ohonom sydd am weld y Cynulliad yn defnyddio'r grym a'r dylanwad a roddodd y setliad datganoli iddo a'r creaduriaid hynny yn Llywodraeth Blair y mae'n rhaid iddynt wrth reolaeth sydd wedi sylweddoli, yn hwyr yn y dydd, fod datganoli wedi digwydd a bod iddo ei ddynamig ei hun na ellir ei ragweld.

Yr ydym wedi gweld yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn cael ei gadael ar y clwt gan ei chyd-swyddog yn San Steffan dros y cynllun cymorth i brosesu lloi. Yr ydym hefyd wedi gweld strategaeth fwrriadol San Steffan i wneud i'r Cynulliad

the bone ban. We have seen the outrageous way in which MAFF is trying to scupper the Agriculture and Rural Development Committee's attempt to help the Welsh dairy industry by ending dairy hygiene charges.

4:09 p.m.

Wales has an Assembly after much heartache and argument. That is today's reality and the argument is now over. Those of us who opposed its creation have long ago recognised that the only acceptable stance is to work to make devolution a success and a benefit to the people of Wales. If it is not recognised as such by the people, the whole exercise will have been a monumental waste of money. British newspapers are reporting that devolution across the UK is costing £600 million. That would pay for 40,000 extra nurses. In Cardiff Bay, they are extending this building. The First Secretary tells us that the new building will cost £17 million to £20 million. I suggest that we all know that that is a gross underestimate. I was advised that the cost was more likely to be nearer £30 million than £20 million. These issues damage the Assembly. However, it is not so much the cost of the new building that is damaging as the First Secretary's refusal to be open with the people of Wales.

A huge amount of money is being spent on devolution, so let us ensure that it accomplishes something. I am not calling for the Assembly to have any extra powers but for it to use the powers that it already has and for the First Secretary to stop taking orders from Millbank; to stop rearranging the paper clips and answering Cabinet Secretaries' letters and to start exercising the power he was given and show some leadership. The opportunity to give a genuinely Welsh dimension to the Queen's Speech should not be used to give the Blair Government a Welsh spin.

This Assembly cannot succeed until the First Secretary and the Cabinet cut the umbilical

edrych yn wirion dros y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. Gwelsom y ffordd gywilyddus a ddefnyddir gan y Weinyddiaeth Amaeth i geisio difetha ymgais y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i helpu'r diwydiant llaeth yng Nghymru drwy roi diwedd ar y taliadau hylendid mewn lleithdai.

Mae gan Gymru Gynulliad ar ôl llawer o ing a dadlau. Dyna'r realiti heddiw ac mae'r ddatl drosodd erbyn hyn. Mae'r rheini ohonom a wrthwynebai ei sefydlu wedi cydnabod ers tro byd mai'r unig safbwynt derbyniol yw gweithio i wneud llwyddiant o ddatganoli er budd pobl Cymru. Os nad yw pobl yn ei gydnabod felly, bydd yr holl beth wedi bod yn wastraff anferthol o lawer iawn o arian. Mae'r papurau Prydeinig yn dweud bod datganoli ar draws y DU yn costio £600 miliwn. Byddai hynny'n talu am 40,000 o nyrsys ychwanegol. Ym Mae Caerdydd, maent yn ehangu'r adeilad hwn. Dywed y Prif Ysgrifennydd wrthym y bydd yr adeilad newydd yn costio rhwng £17 miliwn ac £20 miliwn. Awgrymaf fod pawb ohonom yn gwybod bod hynny'n danamcangyfrif sylweddol. Cynghorwyd fi y byddai'r gost yn fwy tebygol o fod yn nes at £30 miliwn nag £20 miliwn. Mae'r pethau hyn yn niweidio'r Cynulliad. Fodd bynnag, nid cost yr adeilad newydd sydd yn niweidiol yn gymaint â'r ffaith bod y Prif Ysgrifennydd yn gwrthod bod yn agored gyda phobl Cymru.

Mae swm enfawr o arian yn cael ei wario ar ddatganoli, felly gadewch inni sicrhau ei fod yn cyflawni rhywbeth. Nid wyf yn galw am i'r Cynulliad gael unrhyw bwerau ychwanegol ond am iddo ddefnyddio'r pwerau sydd ganddo'n barod ac am i'r Prif Ysgrifennydd roi'r gorau i gymryd cyfarwyddiadau o Millbank; i roi heibio ad-drefnu'r clipiau papur ac ateb llythyrau Ysgrifenyddion y Cabinet a dechrau arddel y grym a roddwyd iddo a dangos arweiniad. Ni ddylai'r cyfle i roi dimensiwn gwirioneddol Gymreig i Araith y Frenhines gael ei ddefnyddio i roi sbin Gymreig i Lywodraeth Blair.

Ni all y Cynulliad hwn lwyddo hyd nes y bydd y Prif Ysgrifennydd a'r Cabinet yn

cord that links them to Westminster; until they show some political courage and stand up to the bullying, nannying, centralising, Soviet-style control freakery that emanates from the Millbank Kremlin.

It is time we had proper debates in this Chamber on real issues, which involve more straight talking and which will engage the Welsh people. We should engage more with the exercise of power and talk less about inclusive politics, which is the First Secretary's euphemism for 'everybody must agree with me'.

If the Labour administration continues to toady to the Westminster Government instead of telling it to keep its meddling fingers out of the Assembly's power pie and if it continues to undermine the Assembly's Committees simply to prevent any deviation from the Millbank mantra, the Assembly will not grow up. Put simply, it will not grow up until the First Secretary goes. There is no point in us wasting taxpayers' money discussing the Queen's Speech if the Welsh Government's only aim is to nod it through like hypnotised parrots. Politics is about power and not the boring reiteration of platitudes.

The Welsh Conservatives understand the importance of this Assembly and of the exercise of power. That is why we are here, and a debate on the Queen's Speech in this Assembly will not have any real relevance to Wales until the Labour administration also understands that.

Brian Gibbons: I know what the Heineken factor is after that contribution. I imagined Glyn driving along a road and I just wondered where the journey would end once he got into the full flow of his speech.

An important clause in the Representation of the People Bill is clause 4, which extends the voting franchise to people detained in mental hospitals. That is a welcome extension of civil rights in our society. Clause 13 provides new opportunities for disabled people to vote in elections. That is an enlightened and liberal measure.

torri'r llinyn bogail sydd yn eu cysylltu â San Steffan; hyd nes y dangosant rywfaint o ddewrder gwleidyddol a gwrthsefyll bwllian, goruchwyllo, canoli a'r chwant Sofietaidd am rym sydd yn deillio o'r Kremlin ym Millbank.

Mae'n bryd inni gael dadleuon go-iawn yn y Siambr hon ar faterion go-iawn gyda mwy o siarad plaen a fydd yn ennyn diddordeb pobl Cymru. Dylem ymdrin mwy ag arddel grym a siarad llai am wleidyddiaeth gynhwysol, sef geiriau mwys y Prif Ysgrifennydd am 'rhaid i bawb gytuno â mi'.

Os bydd y weinyddiaeth Lafur yn parhau i gynffonni Llywodraeth San Steffan yn lle dweud wrthi am gadw ei bysedd busneslyd allan o gwpan grym y Cynulliad ac os bydd yn parhau i danseilio Pwyllgorau'r Cynulliad i ddim diben uwch nag atal unrhyw wro oddi wrth fantra Millbank, ni wna'r Cynulliad aeddfedu. O'i roi yn syml, ni aeddfeda hyd nes i'r Prif Ysgrifennydd fynd. Nid oes unrhyw ddiben inni wastraffu arian trethdalwyr yn trafod Araith y Frenhines os mai unig nod Llywodraeth Cymru yw ei hamenio fel parotiaid dan hypnosis. Grym sydd wrth wraidd gwleidyddiaeth, nid ailadrodd ystrydebau hyd at ddifflastod.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn deall pwysigrwydd y Cynulliad hwn a phwysigrwydd arddel grym. Dyna pam yr ydym yma, ac ni fydd dadl ar Araith y Frenhines yn y Cynulliad hwn yn berthnasol mewn gwirionedd i Gymru hyd nes y bydd y weinyddiaeth Lafur yn deall hynny.

Brian Gibbons: Gwn beth yw'r ffactor Heineken ar ôl y cyfraniad yna. Dychmygwn Glyn yn gyrru ar hyd ffordd a dyfalwn tybed a fyddai'r siwrnai'n dod i ben unwaith y byddai geiriau'r araith yn llifo yn eu hanterth.

Cymal pwysig ym Mesur Cynrychiolaeth y Bobl yw cymal 4, sydd yn ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl a gedwir mewn ysbytai meddwl. Mae hynny yn estyniad i'w groesawu o ran hawliau sifil yn ein cymdeithas. Rhydd Cymal 13 gyfleoedd newydd i bobl anabl bleidleisio mewn etholiadau. Mae hynny yn gam goleuedig a rhyddfrydol.

Clause 10 deals with pilot schemes of innovative voting methods. Most of us who were disappointed by the level of participation in recent elections will welcome various trials aimed at encouraging people to vote and to partake in the electoral process. I plead that the UK Government should also consider pilot schemes and experiments in opening the political process to people who have disabilities. In particular, I have had representations from the Neath and Port Talbot access group. One of their problems is the particular difficulty faced by people with sensory disabilities in getting access to electoral literature. All political parties would find it difficult to replicate their electoral literature for all the people who have various sensory disabilities.

In a number of constituencies, a small number of people from ethnic minorities would benefit from the translation of electoral literature. Perhaps the Representation of the People Bill could consider the possibility of having a central resource centre to which electoral literature would be sent and where people with disabilities could request the reproduction of electoral literature in a way that is friendly to them. That would be a constructive proposal to expand people's opportunity to be involved in the political and electoral process, particularly the people who find it most difficult to engage in the political process at the moment.

A provision also exists for a new Act on special needs legislation. According to press reports, there is particular concern about the fact that about 3 per cent of pupils in England and Wales have a statement of special educational need. The level in Wales is 3.4 per cent. Those are average figures, but I am worried that there is a significant variation—probably an unexplained variation—in the figures for different local education authorities in Wales. I would be happy if I felt that the variation reflected need. However, the statistics show, for example, that 5 per cent of pupils in Blaenau Gwent are labelled as having special educational needs, whereas in Rhondda Cynon Taff the figure is less than 2 per cent. I cannot believe

Mae Cymal 10 yn delio â chynlluniau peilot o ran dulliau pleidleisio arloesol. Bydd y rhan fwyaf ohonom a oedd yn siomedig â lefel y pleidleisio yn yr etholiadau diweddar yn croesawu'r amryw brofion sydd â'r nod o annog pobl i bleidleisio a chymryd rhan yn y broses etholiadol. Erfyniaf hefyd ar i Lywodraeth y DU ystyried defnyddio cynlluniau peilot ac arbrofion wrth agor y broses wleidyddol i bobl sydd ag anableddau. Yn arbennig, yr wyf wedi cael sylwadau oddi wrth grŵp mynediad Castell Nedd a Phort Talbot. Un o'u problemau hwy yw'r anhawster neilltuol a wynebir gan bobl â nam ar eu synhwyrâu o ran delio â llynyddiaeth etholiadol. Byddai pob plaid wleidyddol yn ei chael hi'n anodd atgynhyrchu eu llynyddiaeth etholiadol ar gyfer yr holl bobl sydd â gwahanol anableddau ar eu synhwyrâu.

Mewn nifer o etholaethau, byddai nifer fechan o bobl o leiafrifoedd ethnig yn elwa o gyfieithu llynyddiaeth etholiadol. Efallai y gallai Mesur Cynrychiolaeth y Bobl ystyried y posibilrwydd o gael canolfan adnoddau ganolog lle y byddid yn anfon llynyddiaeth etholiadol a lle y gallai pobl ag anableddau ofyn am atgynhyrchu llynyddiaeth etholiadol mewn ffordd sydd yn hawdd iddynt hwy ei thrin. Byddai hynny yn gynnig adeiladol i ehangu'r cyfle i bobl fod yn rhan o'r broses wleidyddol ac etholiadol, yn enwedig y bobl sydd yn ei chael hi'n fwyaf anodd i gymryd rhan yn y broses wleidyddol ar hyn o bryd.

Mae darpariaeth hefyd ar gyfer Deddf newydd ar ddeddfwriaeth anghenion arbennig. Yn ôl adroddiadau yn y wasg, mae pryder neilltuol am y ffaith bod gan tua 3 y cant o ddisgyblion Cymru a Lloegr ddatganiad am angen addysgol arbennig. Mae'r lefel yng Nghymru yn 3.4 y cant. Ffigurau cyfartaledd yw'r rhain, ond yr wyf yn bryderus bod yna amrywiad arwyddocaol—amrywiad nad oes esboniad amdano mae'n bur debyg—yn y ffigurau ar gyfer gwahanol awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Byddwn yn fodlon pe teimlwn fod yr amrywiadau yn adlewyrchu'r angen. Fodd bynnag, dengys yr ystadegau, er enghraifft, fod 5 y cant o ddisgyblion Blaenau Gwent wedi eu labelu yn rhai ag anghenion addysgol

that there is that much difference between those two local authorities and I suspect that factors other than special educational needs affect those figures. Therefore, if we are to have legislation that will address this issue, we need more rigorous mechanisms to identify what constitutes special educational need.

Christine Humphreys touched on the issue of mandatory drug testing of people arrested for various offences. While I accept that there may be civil liberty concerns, we must recognise that a large number of people come into contact with the law as a result of their activities relating to substance abuse. If mandatory testing were introduced, people could be offered the personal assistance that they need. Often, people's criminal activity is a reflection of their underlying substance abuse problem. If we can identify people with such problems in this way, we may be able to offer them the individual help that they desperately need.

4:19 p.m.

We have not dealt with the other end of the substance abuse chain, namely the godfathers and the drug pushers. All of us who have lived in communities badly affected by substance abuse know who the godfathers are—those who get rich on the back of substance abuse problems—but we are powerless to do anything about them. A way forward on this would be to consider the possibility of introducing confiscation proposals against such people. Something similar is being tried in the Irish Republic, where people are made to account for their ill-gotten gains. That is, people who have unexplained examples of wealth are made to explain where that wealth has come from. If we introduced something similar in this country, we could begin to tackle the people in our communities who drive around in big 4x4 cars, live in posh houses and have no visible means of support. If we are serious about tackling our drug problem we must accept that mandatory testing may help individual people, but we also need to be

arbennig, tra bo'r ffigur yn llai na 2 y cant yn Rhondda Cynon Taf. Ni allaf gredu bod cymaint â hyn o wahaniaeth rhwng y ddau awdurdod lleol ac yr wyf yn amau bod ffactorau ar wahân i anghenion addysgol arbennig yn effeithio ar y ffigurau hyn. Felly, er mwyn cael deddfwriaeth i ymdrin â'r mater hwn, mae angen peirianwaith mwy trylwyr arnom i ganfod beth a gynhwysir fel angen addysgol arbennig.

Cyffyrddodd Christine Humphreys â mater profion cyffuriau gorfodol i bobl sydd yn cael eu harestio am droseddau amrywiol. Tra'r wyf yn derbyn y gallai fod pryderon am iawnderau sifil, rhaid inni gydnabod bod nifer fawr o bobl yn dod i gysylltiad â'r gyfraith o ganlyniad i'w gweithgareddau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Pe câi profion gorfodol eu cyflwyno, gellid cynnig i bobl y cymorth personol sydd ei angen arnynt. Yn aml, mae gweithgarwch troseddol pobl yn adlewyrchu eu problem waelodol yn camddefnyddio sylweddau. Os gallwn adnabod pobl sydd â phroblemau o'r fath yn y modd hwn, efallai y gallwn gynnig yr help unigol iddynt y mae cymaint o'i angen arnynt.

Nid ydym wedi delio â phen arall y gadwyn camddefnyddio sylweddau, sef y pen bandits a'r pedlerwyr cyffuriau. Mae pawb ohonom sydd wedi byw mewn cymunedau yr effeithiwyd yn ddrwg arnynt gan gamddefnyddio sylweddau yn gwybod pwy yw'r pen bandits—y rheini sydd yn ymglyfoethogi ar gefnau problemau camddefnyddio cyffuriau—ond nid oes grym gennym i wneud unrhyw beth ynglŷn â hwy. Ffordd ymlaen ar hyn fyddai ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cynigion atafaelu yn erbyn pobl o'r fath. Mae rhywbeth tebyg ar brawf yng Ngweriniaeth Iwerddon, lle mae'n rhaid i bobl roi cyfrif am eu budrelw. Hynny yw, mae pobl sydd yn arddangos cyfoeth na ellir ei esbonio yn gorfod egluro o ble y daeth y cyfoeth hwnnw. Pe baem yn cyflwyno rhywbeth tebyg yn y wlad hon, galledd ddechrau mynd i'r afael â'r bobl yn ein cymunedau sydd yn gyrru ceir mawr 4x4 ac yn byw mewn tai crand heb unrhyw fodd gweladwy o'u cynnal eu hunain. Os ydym o ddifrif ynglŷn â thaclo ein problem gyffuriau,

serious about getting tough with the pushers and the godfathers.

Mick Bates: I want to address my remarks about the Queen's Speech to the word 'fairness' in the context of rural people. Fairness is one of the stated aims of this Speech. Since this Government came to power in 1997, rural people have increasingly become the victims of urban solutions. Note the effects of the fuel escalator on road haulage and the lack of acknowledgement of the essential nature of a car to rural people. Note the difficulties rural post offices will face because of the Postal Services Bill. Note the lack of any measure to help alleviate the current agricultural depression.

Above all, the right to roam legislation will have the biggest impact on rural Wales. Enforced access is never as successful as voluntary agreements. This attitude sends a negative message to those in rural areas. If access was subject to voluntary agreements through inclusive local access forums it would be far more positive and empowering. There are many examples of such agreements proving successful. There are real problems in this legislation with liability for accidents, the protection of wildlife, definition and access to the land. There must be a balance between the interests of those whose livelihoods depend on the countryside and those who use it for recreation.

Sue Essex: I want to ensure that the wrong messages are not being sent out. Glyn Davies mentioned confiscation. There is no confiscation. You did not mention that, Mick. To clarify matters, it is about right of way and access by foot over land. All the evidence shows that this is liability neutral. It does not increase liability on farmers. Much work has been done to ensure that. If that is one of Mick's concerns, I hope that he speaks to the Countryside Council for Wales, because this has been a concern and it has been discussed with insurance agencies. The answer is that there is no increased liability for farmers.

mae'n rhaid inni dderbyn y gallai profion gorfodol helpu pobl unigol, ond mae angen hefyd inni fod o ddifrif ynglŷn â delio'n llym â'r pedlerwyr a'r pen bandits.

Mick Bates: Hoffwn seilio fy sylwadau am Araith y Frenhines ar y gair 'tegwch' yng nghyd-destun pobl cefn gwlad. Dywedwyd mai tegwch yw un o amcanion yr Araith hon. Ers i'r Llywodraeth hon ddod i rym yn 1997, mae pobl cefn gwlad wedi gorfod dioddef mwy a mwy o atebion trefol. Sylwch ar effeithiau'r dreth gynyddol ar danwydd ar gludo nwyddau ar y ffyrdd a'r diffyg cydnabyddiaeth bod car yn hanfodol i bobl yng nghefn gwlad. Sylwch ar yr anawsterau a wynebir gan swyddfeydd post gwledig oherwydd y Mesur Gwasanaethau Post. Sylwch nad oes unrhyw fesur i helpu i liniaru'r dirwasgiad amaethyddol presennol.

Uwchlaw popeth, ar Gymru wledig y caiff y ddeddfwriaeth hawl i grwydro yr effaith fwyaf. Nid yw mynediad drwy orfodaeth fyth mor llwyddiannus â chytundebau gwirfoddol. Mae'r agwedd hon yn anfon neges negyddol i'r rheini mewn ardaloedd gwledig. Pe bai mynediad yn destun cytundebau gwirfoddol drwy fforymau mynediad lleol cynhwysol, byddai'n llawer mwy cadarnhaol a grymus. Mae llu o enghreifftiau o gytundebau o'r fath yn llwyddo. Mae problemau gwirioneddol yn y ddeddfwriaeth hon o ran atebolrwydd am ddamweiniau, gwarchod bywyd gwyllt, diffiniad a chyrchu at y tir. Rhaid wrth gydbwysedd rhwng buddiannau'r rheini y mae eu bywoliaeth yn dibynnu ar gefn gwlad a'r rheini sydd yn ei ddefnyddio ar gyfer mwyniant.

Sue Essex: Yr wyf am wneud yn siŵr nad oes negeseuon gwallus yn mynd ar led. Soniodd Glyn Davies am atafaelu. Nid oes atafaelu. Ni sonioch am hynny, Mick. I fod yn glir, mae'n fater o hawl tramwy ac o fynediad ar droed dros dir. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod yr atebolrwydd hwn yn niwtral. Nid yw'n rhoi mwy o atebolrwydd ar ffermwyr. Gwnaethpwyd llawer o waith i sicrhau hynny. Os yw hyn yn un peth sydd yn pryderu Mick, gobeithiaf y bydd yn siarad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, oherwydd bu hyn yn bryder ac mae wedi ei drafod gydag asiantaethau yswiriant. Yr ateb yw nad oes unrhyw atebolrwydd

ychwanegol ar ffermwyr.

Mick Bates: I put it to you that increasing access increases the risk of farmers' liability by the very nature of opening up more land. You will recall that there have been court cases where farmers have been shown to be liable for livestock, and attacks induced by the presence of dogs on the land. Please remember that. I hope that the Bill will provide a right of appeal to an independent arbitrator if there is a dispute.

We welcome the increased protection for important wildlife sites, but again the carrot is always better than the stick, and we feel that measures to encourage preservation of sites that allow landowners to see their value is better than saying 'If you do not do this we will penalise you'. It is hard to reconcile that when the Bill refers to the increased building on green-field sites. Although it is not part of the Speech, I welcome the announcement of an inquiry into the effects of banning hunting with hounds. I would like to put on record that in Wales we should be moving towards our own independent inquiry. I remain deeply concerned that rural issues are not understood and addressed by the Queen's Speech. I hope that the vacuum of power that has been exposed in Wales will be addressed and that in the future the input from the Assembly will be greater, for the benefit of rural people in Wales.

Lorraine Barrett: I wanted to intervene during Glyn Davies's contribution regarding the alleged ties between the Labour Group in the Assembly and Labour in Westminster. Are Glyn Davies and the Conservative Group tied to their Westminster party and the views of their Westminster leaders in not supporting the abolition of section 28?

Nick Bourne: The visit of our leader last week when he stayed for three times as long as the Prime Minister did during his only visit, shows that we have our own Welsh view. We are not tied to our party headquarters in Smith Square in the way that Labour is tied to Millbank. We keep our leader informed but we form our own views. He has made clear on numerous occasions that we have our own views but I am happy

Mick Bates: Onid yw'n wir bod agor mwy o dir i'r cyhoedd i gynyddu mynediad o ran ei natur yn cynyddu risg ffermwyr o atebolrwydd. Cofiwch y cafwyd achosion llys lle dangoswyd bod ffermwyr yn atebol am dda byw, ac ymosodiadau a ysgogwyd gan bresenoldeb cŵn ar y tir. Dylech gofio hynny. Gobeithiaf y bydd y Mesur yn rhoi'r hawl i apelio at ganolwr annibynnol os ceir anghydfod.

Croesawn y warchodaeth ychwanegol i safleoedd bywyd gwylt pwysig, ond unwaith eto mae moronyn bob amser yn well na ffon, a theimlwn fod mesurau i annog cadw safleoedd, sydd yn caniatáu i dirfeddianwyr weld eu gwerth, yn well na dweud 'Os na wnewch chi hyn, cewch eich cosbi'. Mae'n anodd cysoni hyn pan fo'r Mesur yn cyfeirio at fwy o adeiladu ar safleoedd tir glas. Er nad yw'n rhan o'r Araith, yr wyf yn croesawu'r cyhoeddiad bod ymchwiliad i'w gynnal i effeithiau gwahardd hela gyda chŵn. Hoffwn gofnodi ar glawr a chadw y dylem ni yng Nghymru fod yn symud tuag at ein hymchwiliad annibynnol ein hunain. Yr wyf yn dal yn dra phryderus nad yw materion cefn gwlad wedi eu deall nac yn cael sylw yn Araith y Frenhines. Gobeithiaf yr eir i'r afael â'r gwactod grym sydd wedi dod yn amlwg yng Nghymru ac y bydd y cyfraniad o du'r Cynulliad yn fwy i'r dyfodol, er budd pobl cefn gwlad Cymru.

Lorraine Barrett: Yr oeddwn am godi pwynt yn ystod cyfraniad Glyn Davies ynglŷn â'r cysylltiadau honedig rhwng y Grŵp Llafur yn y Cynulliad a Llafur yn San Steffan. A yw Glyn Davies a'r Grŵp Ceidwadol wedi eu clymu i'w plaid yn San Steffan a barn eu harweinwyr yn San Steffan wrth beidio â chefnogi dileu adran 28?

Nick Bourne: Mae ymweliad ein harweinydd yr wythnos diwethaf, pryd yr arhosodd deirgwaith cyn hired ag y gwnaeth y Prif Weinidog yn ystod ei unig ymweliad, yn dangos bod gennym ein barn Gymreig ein hunain. Nid ydym wedi ein clymu i bencadlys ein plaid yn Smith Square yn y ffordd y mae Llafur wedi ei chlymu i Millbank. Rhoddwn wybodaeth gyson i'n harweinydd ond lluniwn ein barn ein hunain.

to reiterate that today for Lorraine's benefit.

Mae wedi ei gwneud yn glir droeon fod gennym ein barn ein hunain ond yr wyf yn barod i ailadrodd hynny heddiw er budd Lorraine.

Lorraine Barrett: I am glad that you have followed the same pattern that we do. I want to speak about electoral procedures. Brian Gibbons has covered a fair amount of what I wanted to say. It is not only about getting more votes, although I am sure we would all appreciate that. It is about people feeling part of the democratic process and having a stake in the decisions made on their behalf by their elected representatives.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn falch eich bod chi wedi dilyn yr un patrwm ag a wnawn ninnau. Hoffwn siarad am y trefniadau etholiadol. Mae Brian Gibbons wedi ymdrin â chyn lawer o'r hyn yr oeddwn am ei ddweud. Nid dim ond mater o gael mwy o bleidleisiau yw hyn, er yr wyf yn siŵr y byddai pawb ohonom yn gwerthfawrogi hynny. Mae'n fater o bobl yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses ddemocrataidd a bod ganddyntlais yn y penderfyniadau a wneir ar eu rhan gan eu cynrychiolwyr etholedig.

I often wonder how many of those who contact us to complain about various issues have voted. However, after I suggested to one gentleman that he should exercise his right to vote, he told me that it was his right not to vote. I do not agree with that but we must all take responsibility for our own futures while at the same time trying to contribute to the future of others to ensure a better quality of life wherever possible.

Yr wyf yn fy holi fy hun yn aml tybed faint o'r rheini sydd yn cysylltu â ni i gwyno am wahanol bynciau sydd wedi pleidleisio erioed. Fodd bynnag, wedi imi awgrymu wrth un gŵr bonheddig y dylai arddel ei hawl i bleidleisio, dywedodd wrthyf fod ganddo hawl i beidio â phleidleisio. Nid wyf yn cytuno â hynny ond mae'n rhaid i bawb ohonom ysgwyddo cyfrifoldeb am ein dyfodol ein hunain tra ar yr un pryd yn ceisio cyfrannu at ddyfodol pobl eraill i sicrhau gwell ansawdd bywyd pa le bynnag y mae hynny'n bosibl.

The new proposals set out in the Queen's Speech make it easier for people to vote. The one thing worse than someone who does not want to vote, is someone who wants to and cannot because he or she is not on the register for whatever reason. Hopefully, these proposals will do away with that frustration. I am delighted by the suggestions put forward by the Howarth working party to set up pilot schemes for weekend voting and mobile polling stations. Why on earth do we have to be stuck with Thursdays?

Mae'r cynigion newydd yn Araith y Frenhines yn ei gwneud hi'n haws i bobl bleidleisio. Yr un peth sydd yn waeth na rhywun nad yw am bleidleisio yw rhywun sydd eisiau gwneud ond sydd yn methu am nad yw ar y gofrestr am ba reswm bynnag. Gobeithio y bydd y cynigion hyn yn gwneud i ffwrdd â'r rhwystredigaeth honno. Yr wyf wrth fy modd â'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan weithgor Howarth i sefydlu cynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio ar benwythnosau a gorsafoddd pleidleisio symudol. Pam yn y byd y mae'n rhaid inni gadw at ddydd Iau?

Michael German: Do you agree that one of the best ways to encourage people to vote would be to have a fairer form of voting for local government in Wales, similar to what they will have in Scotland? People may be more encouraged to vote if they know that their votes will count so that they will no longer be faced with monolith local councils.

Michael German: Ydych chi'n cytuno mai un o'r ffyrdd gorau o annog pobl i bleidleisio fyddai cael system bleidleisio decach ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, yn debyg i'r hyn a gânt yn yr Alban? Efallai y byddai pobl yn fwy parod i bleidleisio pe baent yn gwybod y bydd eu pleidleisiau yn cyfrif ac na fyddant mwyach yn gorfod wynebu

cynghorau lleol monolith.

Lorraine Barrett: Well, that did not happen in the Assembly elections and the European elections. People in Wales need convincing about proportional representation. I now turn to access to polling stations. I asked the First Secretary about this matter recently, and Richard Edwards and I attended a workshop held by Disability Wales. One issue raised by almost everyone there was access to polling booths. We are all now more aware than ever of equal opportunities except, it seems, when it comes to disabled people exercising their democratic right to vote. It is difficult for us to imagine how demeaning it is to be in a wheelchair in the rain outside a portacabin waiting for a clerk to come and hand you the ballot paper as if you were a pathetic little old dear. However, that is one of the starkest examples of how we must ensure that everyone has the same opportunity to take part in this process. Electronic voting in libraries, as Brian mentioned, may be something that we should consider.

Lorraine Barrett: Wel, ni ddigwyddodd hynny yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiadau Ewropeaidd. Mae gofyn argyhoeddi pobl Cymru am gynrychiolaeth gyfrannol. Trof yn awr at fynediad i orsafoedd pleidleisio. Holais y Prif Ysgrifennydd am y mater hwn yn ddiweddar, a bu Richard Edwards a minnau mewn gweithdy a gynhaliwyd gan Anabledd Cymru. Un mater a godwyd gan bawb bron oedd mynediad i fythau pleidleisio. Mae pawb ohonom yn fwy ymwybodol nag erioed o'r blaen o gyfle cyfartal, ac eithrio, mae'n ymddangos, pan ddaw pobl anabl i arddel eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio. Mae'n anodd inni ddychmygu peth mor ddiraddiol yw bod mewn cadair olwyn yn y glaw y tu allan i bortacabin yn disgwyl i glerc ddod â phapur pleidleisio ichi fel rhyw hen greadur truenus. Fodd bynnag, dyna un o'r enghreifftiau mwyaf byw o sut y mae'n rhaid inni sicrhau bod gan bawb yr un cyfle i chwarae rhan yn y broses hon. Efallai, fel y soniodd Brian, fod pleidleisio electronig mewn llyfrgelloedd yn rhywbeth y dylem ei ystyried.

4:29 p.m.

Another, more controversial, area that I would like us to pursue is compulsory voting. I do not think that it is mentioned in the Queen's Speech. It works in other countries, therefore why should it not work here? There might be a feeling out there that we are not quite ready for it, but I see no harm in at least considering the issue and its implications.

Elfen arall, fwy dadleuol, yr hoffwn inni fynd ar ei thrywydd yw pleidleisio gorfodol. Ni thybiaf fod sôn am hynny yn Araith y Frenhines. Mae'n gweithio mewn gwledydd eraill, felly pam na fyddai'n gweithio yma? Efallai fod yna deimlad nad ydym yn barod ar gyfer hynny, ond ni welaf unrhyw ddrwg mewn ystyried y peth a'i oblygiadau o leiaf.

David Davies: I appreciate that there is a genuine desire to encourage more people to vote, but would you not accept that compulsory voting would be a fundamental breach of people's human rights to decide whether they wish to stay at home? That is one way that you can exercise a choice, which is an important human right.

David Davies: Gwerthfawrogaf yr awydd diffuant i annog mwy o bobl i bleidleisio, ond oni fyddech chi'n derbyn y byddai pleidleisio gorfodol yn groes i iawnderau dynol sylfaenol pobl i benderfynu a ydynt am aros gartref? Mae hynny'n un ffordd o arddel dewis, sydd yn hawl ddynol bwysig.

Lorraine Barrett: As I said, it has worked in other parts of the world. You can spoil your ballot paper and I believe that you can register your abstention, so there are ways to look at it. It is something that we could consider, whatever the final result of that

Lorraine Barrett: Fel y dywedais, mae wedi gweithio mewn rhannau eraill o'r byd. Gallwch ddifetha eich papur pleidleisio a chredaf y gallwch gofrestru eich bod yn ymatal, felly mae yna ffordd o edrych ar hyn. Mae'n rhywbeth y gallem ei ystyried, beth

consultation might be.

Going back to access to polling booths, I accept that it is not always easy to find suitable premises in each electoral ward, but it is our duty to work with the local authorities to do everything that we can to open up every possible avenue for people to vote.

When I consider how the working class, and women in particular, fought to obtain the vote, I feel ashamed sometimes at the low numbers who vote in this country—both in Wales and the UK. As politicians, we also have a responsibility to show people that it is worth bothering to vote and that their vote will make a difference. None of us will ever please all the people all of the time, but as long as everything that we do in our political and personal lives is done with integrity and for the right reasons we cannot be faulted.

Yesterday's launch of the Young Voice initiative was quite appropriate. Engaging young people with the Assembly is a fine start to ensuring that future generations take an interest in our democracy. When they reach the age of 18 they will, I hope, understand why they need to vote and will also want to vote.

Ieuan Wyn Jones: Diolchaf am y cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon ar Araith y Frenhines. Bu'r ddadl heddiw yn hynod ddiddorol gan fod nifer o Aelodau o bob plaid wedi gwneud pwyntiau perthnasol ynglŷn â chynnwys yr Araith a sut y bydd yn yffeithio ar y Cynulliad.

Yr oedd Araith y Frenhines eleni yn un hanesyddol gan ei bod yn nodi dechrau sesiwn lawn gyntaf y Senedd ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban. Yr oeddem yn disgwyl, felly, y byddai Mesurau'r Llywodraeth eleni yn cadarnhau bod datganoli yn ffaith a bod angen i'r holl Fesurau sydd yn debygol o effeithio Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ystyried hynny.

bynag fyddai canlyniadau terfynol yr ymgynghori.

I fynd yn ôl at fynediad i fythau pleidleisio, yr wyf yn derbyn nad yw bob amser yn hawdd canfod adeilad addas ym mhob ward etholiadol, ond mae'n ddyletswydd arnom i weithio gyda'r awdurdodau lleol i wneud popeth a fedrwn i hwyluso pob cyfle posibl i bobl allu pleidleisio.

Wrth imi feddwl am y ffordd yr ymladdodd y dosbarth gweithiol, a menywod yn arbennig, er mwyn cael pleidlais, mae gennyf gywilydd weithiau o'r niferoedd isel sydd yn pleidleisio yn y wlad hon—yng Nghymru a'r DU fel ei gilydd. Fel gwleidyddion, mae gennym gyfrifoldeb hefyd i ddangos i bobl ei bod yn werth ymdrechu i bleidleisio ac y bydd eu pleidlais yn gwneud gwahaniaeth. Ni fydd neb ohonom yn plesio pawb bob amser, ond cyhyd ag y bo popeth a wnawn yn ein bywydau gwleidyddol a phersonol yn cael ei wneud gydag uniondeb ac am y rhesymau cywir, ni ellir gweld bai arnom.

Yr oedd lansio cynllun y Llais Ifanc ddoe yn gymharol briodol. Mae ennyn perthynas rhwng pobl ifainc a'r Cynulliad yn ddechrau da tuag at sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cymryd diddordeb yn ein democratiaeth. Pan gyrhaeddant 18 oed byddant, gobeithio, yn deall pam fod angen iddynt bleidleisio a byddant hefyd am bleidleisio.

Ieuan Wyn Jones: I am grateful for the opportunity to take part in this discussion on the Queen's Speech. Today's debate has been particularly interesting as several Members from each party have made relevant points regarding the contents of the Speech and how it will affect the Assembly.

The Queen's Speech this year was an historic one as it notes the start of the first full Parliamentary session since the establishment of the National Assembly for Wales and the Scottish Parliament. We expected, therefore, that the Government's Bills this year would confirm that devolution is a fact and that it was necessary for all Bills that are likely to affect Wales, Scotland and Northern Ireland to take this into consideration.

Mae'r Araith yn cadarnhau fod y The Speech confirms that the Government Llywodraeth

'...are committed to making devolution in Scotland and Wales work'.

Gan nad yw'r Araith yn ymhelaethu ynglŷn â'r modd y bwriada'r Llywodraeth wneud hynny, rhaid inni edrych ar gynnwys yr Araith yn nhermau'r dadleuon a ddigwyddodd yn ei sgîl yn San Steffan.

As the Speech does not elaborate on how the Government intends to do this, we must look at the contents of the Speech in terms of the debates that followed it in Westminster.

Os yw'r Llywodraeth o ddifrif ynglŷn â gwneud i ddatganoli weithio yn yr Alban a Chymru, y mae'n rhaid i raglen deddfwriaethol y sesiwn hon adlewyrchu hynny. Mae'r wladwriaeth Brydeinig wedi dechrau ar gynllun datganoli er bod ganddi beth ffordd i fynd eto i sicrhau trefniant derbyniol. Rhaid i'r Mesurau—yn arbennig yng Nghymru, gan nad oes gennym bwerau deddfwriaethol eto—sicrhau bod cynnwys Deddfau yn sensitif i hawl y Cynulliad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth eilaidd. Yr ydym am i'r Llywodraeth adeiladu hyblygrwydd o'r fath i mewn i'r Mesurau a gyflwynir.

If the Government is serious about making devolution work in Scotland and Wales, the legislative programme for this session must reflect that. The British state has started on a devolution programme although it has some way to go yet to ensure an acceptable settlement. The Bills must—especially in Wales, as we do not yet have legislative powers—ensure that the contents of Acts are sensitive to the Assembly's right to present subordinate or secondary legislation. We want the Government to build such flexibility into the Bills presented.

Rhoddaf enghreifftiau o Fesurau y mae angen yr hyblygrwydd hwnnw arnynt. Yn gyntaf, croesawn yr egwyddor o sefydlu awdurdod rheilffyrdd strategol er y byddem yn dymuno gweld awdurdod o'r fath yn delio'n benodol â'r rheilffyrdd sydd yng Nghymru. Fodd bynnag, gobeithiaf y gall y corff ddadwneud rhywfaint o'r llanast y mae preifateiddio wedi'i achosi. Mae nifer ohonom sydd yn teithio i'r Cynulliad yn y trên yn dystion i'r hyn sydd wedi digwydd i'r gwasanaethau. Rhaid sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer delio â phroblemau rheilffyrdd Cymru a gwella ansawdd ein gwasanaeth. Llongyfarchaf Edwina Hart ar ei chyllideb ddiwygiedig, sydd wedi dangos ei bod yn fodlon argymhell neilltuo arian i wella a chryfhau'r gwasanaeth rhwng gogledd a de Cymru.

I shall give examples of Bills that need that flexibility. First, we welcome the principle of establishing a strategic rail authority although we would like to see such an authority dealing specifically with railways in Wales. However, I hope that this body will be able to undo some of the mess that privatisation has caused. Many of us who travel by train to the Assembly bear witness to what has happened to the services. We must ensure sufficient provision to deal with the problems of Wales's railways and to improve the quality of our service. I congratulate Edwina Hart on her revised budget, which shows that she is willing to recommend that money is earmarked to improve and strengthen services between north and south Wales.

Mae'r ail enghraifft yn ymwneud â deddfwriaeth hawl i grwydro, ac mae nifer o siaradwyr wedi dangos a chadarnhau bod problemau Cymru o safbwynt hawl i grwydro yn wahanol i rai Lloegr a'r Alban. Felly, rhaid i'r Mesur adlewyrchu'r ffaith y byddwn yn edrych ar batrwm gwahanol yng Nghymru. Yn yr un modd, rhaid i'r

The second example concerns right to roam legislation, and many speakers have shown and confirmed that Wales's right to roam problems are different to those of England and Scotland. Therefore, the Bill must reflect the fact that we will look at a different pattern in Wales. Similarly, the changes to local government must be appropriate for Wales,

newidiadau i lywodraeth leol fod yn addas ar gyfer Cymru, yn hytrach na cheisio datrys problemau dinesig a threfol yn Lloegr yn unig. Rhaid i'r newidiadau hyn gael sêl bendith Aelodau'r Cynulliad.

Brian Hancock: Do you agree that the UK Government's proposals for post offices, in the Post Office reform White Paper, and the use of automated credit control is a detrimental step? That is because pensioners who have never had a bank account will be forced to have one, as will people on benefits. Often, these are disadvantaged people who perhaps would not be considered for a bank account. People would be forced to accept benefits monthly rather than weekly when they need that money weekly. Also, post offices and sub-post offices throughout Wales would be closed. That would take away responsibilities, resources and facilities not only from urban but also from semi-rural situations. Do you agree that the Government of Wales should give a message to London about the effects of such proposals on Wales?

Ieuan Wyn Jones: Diolchaf i Brian am dynnu ein sylw at effeithiau niweidiol y cynlluniau hynny. Gobeithiaf fod y Llywodraeth yn y Cynulliad yn sylweddoli'r niwed sylweddol a wneid i'r gwasanaethau post, yn arbenning mewn ardaloedd trefol ac mewn nifer o ardaloedd diwydiannol pe byddai'r polisïau hynny yn cael eu gweithredu'n llawn. Gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn cymryd sylw o hynny.

Fel y dywedais, mae'n bwysig fod y newidiadau ar gyfer llywodraeth leol yn delio ag anghenion Cymru ac yn sensitif i'n problemau mewn llywodraeth leol, yn hytrach na delio â phroblemau'r cynghorau yn ardaloedd trefol Lloegr yn unig.

4:39 p.m.

We have heard much about the need to adopt a consensual style of politics in the Assembly, and in recent weeks we have had different versions of what we think consensus politics is. The Plaid Cymru—The Party of Wales Group in the Assembly has always understood that consensus politics must mean

rather than solely trying to solve the problems in England's cities and towns. These changes must have the blessing of Assembly Members.

Brian Hancock: A ydych chi'n cytuno bod cynigion y Llywodraeth ar gyfer swyddfeydd post, yn y Papur Gwyn ar ddiwygio Swyddfa'r Post, a defnyddio rheolaeth gredyd awtomataidd yn gam niweidiol? Mae hynny oherwydd y bydd pensiynwyr sydd heb fod â chyfrif banc erioed yn cael eu gorfodi i agor un, fel y bydd pobl ar fudd-daliadau. Yn aml, mae'r rhain yn bobl â diffyg mantais na fyddent efallai yn cael eu hystyried am gyfrif banc. Câi pobl eu gorfodi i dderbyn budd-daliadau'n fisol yn hytrach nag wythnosol pan fo angen yr arian arnynt yn wythnosol. Hefyd, byddai swyddfeydd post ac is-swyddfeydd post ledled Cymru yn cau. Byddai hynny nid yn unig yn tynnu cyfrifoldebau, adnoddau a chyfleusterau allan o sefyllfaoedd trefol ond hefyd o sefyllfaoedd lled-wledig. A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru roi neges i Lundain am effeithiau cynigion o'r fath ar Gymru?

Ieuan Wyn Jones: I thank Brian for drawing our attention to the detrimental effects of those plans. I hope that the Government in the Assembly realises the significant damage that would be done to the postal service, especially in urban areas and in many industrial areas if those policies were fully implemented. I hope that the Government will note that.

As I was saying, it is important that the changes for local government deal with Wales's needs and are sensitive to our problems in local government, rather than dealing only with the problems of councils in England's urban areas.

Yr ydym wedi clywed llawer am yr angen i fabwysiadu dull gwleidyddiaeth cydsyniol yn y Cynulliad, a thros yr wythnosau diwethaf yr ydym wedi cael fersiynau gwahanol o'r hyn a dybiwn ni yw gwleidyddiaeth gydsyniol. Mae Grŵp Plaid Cymru—The Party of Wales yn y Cynulliad wedi deall erioed fod

that parties agree where there is agreement across party lines and do not oppose every policy for opposition's sake. However, consensual politics means that this is a four-way, three-way or two-way process, depending on the circumstances of a particular policy.

We want an understanding with the Government in the Assembly and with the other opposition parties that this Queen's Speech, insofar as it effects Wales, needs to be sensitive to the kind of proposals that we want brought forward. I mentioned the strategic rail authority in my contribution in Welsh. We need to ensure that the Bill, when introduced and debated in Parliament, reflects the fact that we should have more control over rail services in Wales, that the Assembly should have the power to appoint a Welsh member of the strategic rail authority board and that we should have influence over the way rail franchises operating in Wales are given.

I have said from the rostrum on many occasions that we want a positive approach to Europe. I was pleased to see such a positive approach to Europe in the Queen's Speech. That highlights the Conservative Party in London's isolation on the European question. We have had some enlightened approaches to the European question from Conservative Assembly Members. However, the Labour Administration in the Assembly needs to understand that there will be measures introduced in Westminster of which the Assembly as a collective body will not always approve. For example, are abolishing the automatic right to trial by jury, linking teachers' pay to pupils' performance and privatising air traffic control the actions of a progressive Government? Are these our traditional Welsh values? Is that the kind of programme we expected a Labour Government in Westminster to introduce?

We want the Labour Administration in the Assembly, in agreement with the other parties, to accept that we are here to stand for

gwleidyddiaeth gydsyniol o reidrwydd yn golygu bod y pleidiau yn cytuno ar draws llinellau plaid ac nad ydynt yn gwrthwynebu pob polisi er mwyn gwrthwynebu. Fodd bynnag, mae gwleidyddiaeth gydsyniol yn golygu bod hon yn broses bedair-ffordd, deir-ffordd neu ddwy-ffordd, gan ddibynnu ar amgylchiadau polisi penodol.

Yr ydym am gael cyd-ddealltwriaeth gyda'r Llywodraeth yn y Cynulliad a chyda'r gwrthbleidiau eraill fod angen i Araith y Frenhines, cyn belled ag y mae'n effeithio ar Gymru, fod yn sensitif i'r math o gynigion yr ydym am eu dwyn ymlaen. Soniais am yr awdurdod rheilffyrdd strategol yn fy nghyfraniad yn y Gymraeg. Mae angen inni sicrhau bod y Mesur, pan gaiff ei gyflwyno a'i drafod yn y Senedd, yn adlewyrchu'r ffaith y dylem fod â mwy o reolaeth dros wasanaethau rheilffordd yng Nghymru, y dylai'r Cynulliad fod â'r grym i benodi aelod o Gymru i fwrdd yr awdurdod rheilffyrdd strategol ac y dylai fod gennym ddylanwad dros y ffordd y mae masnachfreintiau rheilffordd sydd yn gweithredu yng Nghymru yn cael eu rhoi.

Yr wyf wedi dweud yma droeon ein bod am weld agwedd gadarnhaol ar Ewrop. Yr oeddwn yn falch o weld agwedd mor gadarnhaol tuag at Ewrop yn Araith y Frenhines. Mae hynny'n amlygu i gymaint graddau y mae'r Blaid Geidwadol yn Llundain wedi ei hynysu ei hun ar gwestiwn Ewrop. Yr ydym wedi cael rhai agweddau goleuedig tuag at Ewrop gan Aelodau Ceidwadol y Cynulliad. Fodd bynnag, mae angen i'r Weinyddiaeth Lafur yn y Cynulliad ddeall y caiff mesurau eu cyflwyno yn San Steffan na fydd y Cynulliad fel corff torfol bob amser yn eu cymeradwyo. Er enghraifft, ai gweithredoedd Llywodraeth flaengar yw dileu'r hawl awtomatig i dreial gan reithgor, cysylltu cyflogau athrawon â pherfformiad disgyblion a phreifateiddio'r gyfundrefn i reoli traffig yn yr awyr? Ai'r rhain yw ein gwerthoedd Cymreig traddodiadol? Ai dyma'r math o raglen y byddem yn disgwyl i Lywodraeth Lafur yn San Steffan ei chyflwyno?

Yr ydym am i'r Weinyddiaeth Lafur yn y Cynulliad, mewn cytundeb â'r pleidiau eraill, dderbyn ein bod yma i sefyll dros werthoedd

Yn ei gyfraniad ef, pwysleisiodd Michael German bwysigrwydd y bartneriaeth rhwng y Senedd a'r Cynulliad, a rhwng y ddau Gabinet. Yr wyf yn falch bod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig wedi ymweld â'r Cynulliad i gwrdd â chadeiryddion y Pwyllgorau ac i drafod cydweithredu a chynigion ar y cyd ar faterion yn effeithio ar Gymru. Mae'r rhain yn faterion pwysig. Mae'r ddadl heddiw, lle siaradodd llawer o feincwyr cefn, wedi adlewyrchu materion tebyg.

Llongyfarchaf Richard Edwards ar y modd y cyflwynodd y ddadl. Yn Nhŷ'r Cyffredin, rhyw hen begor neu ryw lefnyn ifanc seimllyd yn chwilio am ei gyfle sydd yn cyflwyno'r cynigion hyn fel arfer. Ni feiddiaf ddweud i ba ddsbarth yr ydych chi'n ffitio, Richard. Fodd bynnag, yr oedd yr angerdd a gafwyd yn eich araith i'w groesawu ac mae'r Llywodraeth yn rhannu'r thema o gyfle i bawb.

Soniodd Janet Ryder am y Mesur Trafnidiaeth. Yr ydym yn ymwybodol o'r pwyntiau gwerthfawr a wnaethpwyd gennych, Janet. Yr ydym yn ystyried sut y gallwn ddatblygu awdurdodau rheilffyrdd strategol o fewn rhwydwaith cenedlaethol, oherwydd mae gwasanaethau trên yng Nghymru yn croesi'r ffin i Loegr. Ceir cynrychiolydd o Gymru ar yr awdurdod rheilffyrdd strategol a bydd cyfle i glywed yr hyn a ddywedwyd gan Aelodau'r Cynulliad heddiw yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae pwyntiau David ar y gwasanaeth iechyd yn haeddu sylw dyledus, ond gan y Cynulliad yn hytrach na Thŷ'r Cyffredin, oherwydd rhaglen ddeddfwriaethol yw hon a dylid trafod pwyntiau David yn y Siambr hon, yn hytrach nag yng nghyd-destun y DU.

In the spirit of co-operation, I disagree with Christine about the agenda being one for England. We have an opportunity today to consider several other Bills which, once passed, will give the Assembly great powers to put things into a Welsh context. I hope we can share and consider those issues in that way. The ETAG report, the Local Government Bill and drug testing are valuable and can be put into a Welsh context by giving powers to the Assembly to take them forward.

I was interested in Alison's points on the Freedom of Information Bill, which, she will be pleased to know, had its second reading yesterday. Whatever her criticisms—I know and understand them—and whatever the limitations that Members believe exist in this Bill, we have not had one before. It will soon be on the statute book, having received its second reading last night, which is a positive development.

Helen Mary Jones mentioned the Children (Leaving Care) Bill and I take her points on board. I am sorry that she is not here at the moment. The money that would have been spent on benefits for 16 to 17-year-olds, is not being lost or cut, but transferred to local authorities so that they can look at how best to use that resource.

The points that Sue Essex and Glyn Davies made on the Countryside Bill are part of the political debate, which I do not want to get into today. However, it is a manifesto commitment. The Government has not yet published the Bill, so when it is published, I hope you will look at it, examine it in Committee and bring forward proposals for the Government to consider. I had a discussion with Christine Gwyther on Monday about the nature of the Bill and how it might impact upon Wales.

We take on board John's points about voting innovations and disability issues and I want to see that happen. Lorraine also mentioned how we can extend and develop voting patterns in our community. Both are important issues. We need to look at how to

Yn ysbryd cydweithredu, anghytunaf â Christine mai agenda i Loegr yw hon. Mae gennym gyfle yma heddiw i ystyried sawl Mesur arall a fydd, unwaith y'u deddfir, yn rhoi pwerau sylweddol i'r Cynulliad i roi pethau mewn cyd-destun Cymreig. Gobeithiaf y gallwn rannu ac ystyried y materion hynny yn y ffordd honno. Mae adroddiad y Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, y Mesur Llywodraeth Leol a phrofion cyffuriau yn werthfawr a gellir eu rhoi mewn cyd-destun Cymreig drwy roi pwerau i'r Cynulliad i'w datblygu.

Yr oedd gennyf ddi-ddordeb ym mhwyntiau Alison ar y Mesur Rhyddid Gwybodaeth a gafodd, bydd yn falch o wybod, ei ail ddarlleniad ddoe. Beth bynnag ei beirniadaeth—gwn beth yw ac yr wyf yn ei deall—a pha gyfyngiadau bynnag y cred yr Aelodau sydd yna yn y Mesur hwn, nid ydym wedi cael un o'r blaen. Cyn bo hir bydd ar y llyfr statud, gan iddo gael ei ail ddarlleniad neithiwr, sydd yn gam cadarnhaol.

Soniodd Helen Mary Jones am y Mesur Plant (yn Gadael Gofal) a derbynias ei phwyntiau. Mae'n ddrwg gennyf nad yw yma ar hyn o bryd. Nid yw'r arian a fyddai wedi cael ei wario ar fudd-daliadau i rai 16 i 17 mlwydd oed yn cael ei golli na'i dorri, ond ei drosglwyddo i awdurdodau lleol fel y gallant ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r adnodd hwn.

Mae'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Sue Essex a Glyn Davies ar y Mesur Cefn Gwlad yn rhan o'r ddadl wleidyddol, nad wyf am ymhelaethu arni heddiw. Fodd bynnag, mae'n addewid yn y maniffesto. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'r Mesur eto, felly pan gaiff ei gyhoeddi, gobeithiaf y byddwch yn edrych arno, yn ei archwilio mewn Pwyllgor ac yn cyflwyno cynigion i'w hystyried gan y Llywodraeth. Cefais drafodaeth gyda Christine Gwyther ddydd Llun ynglŷn â natur y Mesur a sut y gallai effeithio ar Gymru.

Cydnabyddwn bwyntiau John ynglŷn â dulliau pleidleisio newydd ac ystyriaethau anabledd ac yr wyf am weld hynny'n digwydd. Cyfeiriodd Lorraine hefyd at y ffordd y gallwn ymestyn a datblygu'r patrymau pleidleisio yn ein cymuned. Mae'r

approach voting issues and how to increase voter participation. In answer to Mick Bates's point on rural issues, I hope that you will discuss the right to roam and feed those things through. It was a manifesto commitment. The Bill also looks at special sites of scientific interest and strengthening protection for much of the countryside.

5:09 p.m.

We will take on board what was said by Ieuan and Andrew. Their comments will form part of the political debate that we will have later. I have one point on automated credit control, which was mentioned by Brian earlier. The Government's intention is that people who wish to collect their cash from Post Offices can continue to do so after 2003 if they choose. I hope that that is reassuring for Members.

Finally, I will serve on three of the Committees that will consider the legislation. I will have responsibility for the Local Government Bill, the Care Standards Bill and Post-16 Education and Training Bill, and possibly others, such as the Transport Bill. I shall be taking through the Welsh clauses that give the Assembly powers as part of the partnership so that it can take those matters forward and provide a Welsh gloss on local government, care standards and on post-16 education. The Assembly Cabinet has agreed to Assembly officials briefing me on the points of view taken by the Assembly in its Committees. This is valuable so that I can communicate those viewpoints to colleagues outside the Assembly, in Cabinet Committees and elsewhere. Such briefing is essential in defending what the Assembly wants to Members of Parliament who may not want to see those developments or may have some points about those developments. Also under consideration are amendments that will bring forward some of the issues that have been raised today in a wider context.

Next year, I hope that we can build on this process in a strong, productive way. We have

ddau bwynt hwn yn rhai pwysig. Mae angen inni ystyried sut mae ymdrin â materion pleidleisio a sut i gael y pleidleiswyr i gymryd mwy o ran. Mewn ateb i bwynt Mick Bates ar faterion cefn gwlad, gobeithiaf y byddwch yn trafod yr hawl i grwydro ac yn bwydo'r pethau hyn yn eu blaen. Yr oedd yn addewid yn y maniffesto. Mae'r Mesur hefyd yn edrych ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a rhoi mwy o warchodaeth i lawer o gefn gwlad.

Byddwn yn cydnabod yr hyn a ddywedwyd gan Ieuan ac Andrew. Bydd eu sylwadau yn rhan o'r ddadl wleidyddol a gawn yn ddiweddarach. Mae gennyf un pwynt ar reolaeth greyd awtomataidd, a grybwyllwyd gan Brian yn gynharach. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd pobl sydd am gasglu eu harian o Swyddfeydd Post yn gallu parhau i wneud hynny ar ôl 2003 os dymunant. Gobeithiaf y bydd hynny'n tawelu meddyliau'r Aelodau.

Yn olaf, byddaf yn gwasanaethu ar dri o'r Pwyllgorau a fydd yn ystyried y ddeddfwriaeth. Bydd gennyf gyfrifoldeb am y Mesur Llywodraeth Leol, y Mesur Safonau Gofal a'r Mesur Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, ac eraill o bosibl, fel y Mesur Trafnidiaeth. Myfi fydd yn tywys y cymalau Cymreig sydd yn rhoi pwerau i'r Cynulliad fel rhan o'r bartneriaeth fel y gall ddatblygu'r elfennau hynny a rhoi arlliw Cymreig i lywodraeth leol, safonau gofal ac addysg ôl-16. Mae Cabinet y Cynulliad wedi cytuno bod swyddogion y Cynulliad i'm briffio ar safbwyntiau'r Cynulliad yn ei Bwyllgorau. Mae hyn yn werthfawr fel y gallaf gyfleu'r safbwyntiau hynny i gydweithwyr y tu allan i'r Cynulliad, ym Mhwyllgorau'r Cabinet ac mewn mannau eraill. Mae briffio o'r fath yn holl bwysig wrth amddiffyn yr hyn y mae'r Cynulliad yn ei ddeisyf gerbron Aelodau Seneddol nad ydynt, efallai, am weld y datblygiadau hynny neu sydd â rhai pwyntiau am y datblygiadau hynny efallai. Mae gwelliannau dan ystyriaeth hefyd a fydd yn dwyn i'r amlwg rai o'r materion a godwyd yma heddiw mewn cyd-destun ehangach.

Y flwyddyn nesaf, gobeithiaf y gallwn adeiladu ar y broses hon mewn ffordd gref,

a Memorandum of Understanding, which provides for the UK Government to consult with the Assembly on a legislative programme. I hope that partnership will work in practice, even more than it has done so far, because partnership is essential in helping to improve people's lives in Wales. A partnership is a two-way process. We want to hear about what you plan to do and we want to hear your views on what we plan to do. I plan to keep in touch with Assembly Secretaries. As the First Secretary and the Secretary of State for Wales meet weekly, I intend to meet all the Assembly Secretaries regularly to discuss the views of the Cabinet in the Assembly. I have an offer for Committee Chairs and members. I am happy, as the Parliamentary Under-Secretary of State for Wales, to come along and to listen, as I have done today, to Committee deliberations on future legislation if you feel it is appropriate. I am happy to talk to Committees about legislation as it goes through the Commons, subject to my commitments there. I am also happy to talk about future legislation, as you want it and as the Government wants it in the United Kingdom as a whole. I am happy to meet Committee Chairs informally and formally in this Chamber and outside.

We have all signed up to the Memorandum of Understanding. We just need to get into the habit of working it. There is no best way to do that apart from by trial and error over the next year. We have been out of synch over this past year. I hope that we will walk hand in hand together towards the next Queen's Speech.

I shall leave you with the thought that I represent Wales in the House of Commons with the Secretary of State. There are 40 Welsh Members of Parliament there. There are 60 Assembly Members here.

Alun Pugh *rose—*

The Presiding Officer: Order. I think that David Hanson is coming to the end of his

gynhyrchiol. Mae gennym Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ac ynddo ddarpariaeth i Lywodraeth y DU ymgynghori â'r Cynulliad ar raglen ddeddfwriaethol. Gobeithiaf y bydd partneriaeth yn gweithio yn ymarferol, yn fwy hyd yn oed nag y gwnaeth hyd yma, oherwydd mae partneriaeth yn hanfodol er helpu i wella bywydau pobl Cymru. Mae partneriaeth yn broses ddwy ffordd. Yr ydym am glywed am yr hyn y bwriadwch ei wneud ac yr ydym am glywed eich barn am yr hyn y bwriadwn ni ei wneud. Bwriadaf gadw mewn cysylltiad ag Ysgrifenyddion y Cynulliad, Fel y mae'r Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cwrdd bob wythnos, bwriadaf finnau gwrdd â holl Ysgrifenyddion y Cynulliad yn rheolaidd i drafod barn Cabinet y Cynulliad. Mae gennyf gynnig i'r Cadeiryddion Pwyllgorau a'r aelodau. Fel Is-Ysgrifennydd Seneddol, yr wyf yn barod iawn i ddod draw i wrando, fel y gwneuthum heddiw, ar drafodaethau'r Pwyllgor ar ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol os tybiwch fod hynny'n briodol. Yr wyf yn fodlon siarad â'r Pwyllgorau am ddeddfwriaeth wrth iddi fynd drwy Dŷ'r Cyffredin, yn amodol ar fy ymrwymiadau yno. Yr wyf hefyd yn barod i siarad am ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol, fel y byddech yn ei dymuno ac fel y mae'r Llywodraeth yn ei dymuno yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Yr wyf yn barod i gwrdd â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn anffurfiol ac yn ffurfiol yn y Siambr hon a'r tu allan iddi.

Yr ydym i gyd wedi derbyn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Y cyfan sydd ei angen yw inni ddod i'r arfer o weithio yn unol ag ef. Nid oes un ffordd orau o wneud hynny, ac eithrio drwy brofi a methu dros y flwyddyn nesaf. Nid ydym wedi bod yn cydsymud dros y flwyddyn ddiwethaf. Gobeithiaf y byddwn yn symud law yn llaw tuag at Araith nesaf y Frenhines.

Wrth adael, gofynnaf ichi gofio fy mod yn cynrychioli Cymru yng Nhŷ'r Cyffredin gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae yno 40 o Aelodau Seneddol o Gymru. Mae 60 o Aelodau o'r Cynulliad yma.

Alun Pugh *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Credaf fod David Hanson yn dirwyn ei araith i ben. A ydych chi'n

speech Are you taking an intervention?

fodlon derbyn ymyriad?

David Hanson: I am happy to take an intervention if you wish, Presiding Officer.

David Hanson: Yr wyf yn fodlon derbyn ymyriad os dymunwch, Mr Llywydd.

The Presiding Officer: Time is short.

Y Llywydd: Mae amser yn fyr.

David Hanson: I shall finish on this. Perhaps Alun can see me afterwards for a discussion.

David Hanson: Yr wyf yn gorffen. Efallai y gallai Alun fy ngweld wedyn i gael trafodaeth.

The 40 Welsh Members of Parliament and 60 Assembly Members are charged with making a difference in Wales. We will be judged on our legislative programme in two years or whenever the general election is. The Assembly will be judged at the future Assembly election on how some of the programmes are implemented. In the meantime, we are together in partnership and will be judged by the people of Wales. They will judge whether the Care Standards Bill, the Local Government Bill, the Post-16 Education and Training Bill, and the other Bills mentioned today in debate, make a difference on the streets we represent. I hope that we can work in partnership. Thank you for the privilege of addressing you and listening to your debate as someone who has fought long and hard for the existence of this Chamber. [*Applause.*]

Ymddiriedwyd i'r 40 Aelod Seneddol o Gymru a'r 60 Aelod o'r Cynulliad y dasg o wneud gwahaniaeth yng Nghymru. Cawn ein barnu ar ein rhaglen ddeddfwriaethol ymhen dwy flynedd neu ba bryd bynnag y bydd yr etholiad cyffredinol. Bernir y Cynulliad yn etholiad y Cynulliad yn y dyfodol ar sut y gweithredir rhai o'r rhaglenni. Yn y cyfamser, yr ydym ynghyd mewn partneriaeth a chawn ein barnu gan bobl Cymru. Byddant yn barnu a yw'r Mesur Safonau Gofal, y Mesur Llywodraeth Leol, y Mesur Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, a'r Mesurau eraill a grybwyllwyd heddiw yn y ddadl, yn gwneud gwahaniaeth ar y strydoedd a gynrychiolwn. Diolch ichi am y fraint o'ch annerch ac o wrando ar eich dadl fel rhywun sydd wedi ymladd yn hir a chaled dros fodolaeth y Siambr hon. [*Cymeradwyaeth.*]

The Presiding Officer: Thank you very much, David.

Y Llywydd: Diolch yn fawr iawn ichi, David.

Adroddiad Grant Arbennig ar y Gronfa Bartneriaeth Plant ac Ieuentid The Special Grant Report on the Children and Youth Partnership

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

the Assembly, under section 88B of the Local Government Finance Act 1988, and in accordance with Standing Order No. 19.10, approves the Special Grant Report (No. 3) (Wales) 1999, which was laid in the Table Office on 24 November 1999.

y Cynulliad, o dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.10, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) 1999, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 1999.

This motion concerns the first round of payments to local authorities under the children and youth partnership fund. Members may recall that we had a similar motion for the Sure Start initiative just a month ago. Like Sure Start, the children and

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cylch cyntaf o daliadau i awdurdodau lleol o dan y gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid. Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio inni gael cynnig tebyg ar gyfer y cynllun Cychwyn Cadarn fis yn ôl. Fel Cychwyn Cadarn, mae taliadau o'r

youth partnership fund payments are classed as a special grant under the Local Government Finance Act 1998. The real focus of this debate is a programme that will enrich children and young people's lives and help them to fulfil their potential. It is far more than a technical issue.

The children and youth partnership fund will complement and fill in the gaps in mainstream education, leisure, health and social services. It will develop ways of lifting young people's educational achievement and encourage them away from crime, drugs, vandalism and truancy. It will help those most at risk of social exclusion to grow up into independent i with self-esteem, who are sure of themselves, their potential and achievements, and who can make a positive contribution to their local communities.

In April, Alun Michael launched this Welsh initiative as part of the social inclusion fund, and announced that investment would be £25 million over three years. As with the Sure Start initiative, the resources for the children and youth partnership fund are allocated to local authority areas using the indicators for children's services within the standard spending assessment formula. This method of distribution takes account of population and deprivation. It ensures a measure of targeting but still provides a reasonable share of the available funding to each local authority area.

Like Sure Start, the fund is based on a commitment to partnership working. Programmes will be delivered at a local level by partnerships that will be able to plan in the light of local knowledge. The partnerships already include representatives from a range of bodies concerned with services for children and young people, including the Further Education Council for Wales, the Higher Education Council for Wales, training and enterprise councils, local employers, health service bodies and voluntary organisations. Those partnerships have developed strong cross-cutting links at a local level with other organisations such as youth offending teams, crime reduction partnerships and drug and alcohol action

gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid wedi eu pennu'n grant arbennig o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998. Gwir ganolbwynt y ddadl hon yw rhaglen a fydd yn cyfoethogi bywydau plant a phobl ifainc gan eu helpu i gyflawni eu potensial. Mae'n llawer mwy na mater technegol.

Bydd y gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid yn ategu ac yn llenwi'r bylchau mewn addysg brif ffrwd, hamdden, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn datblygu ffyrdd o wella cyflawniadau addysgol pobl ifainc ac yn eu hannog oddi wrth droseddu, cyffuriau, fandaliaeth a thriwantiaeth. Bydd yn helpu'r rheini sydd â'r risg fwyaf o ddieithrwch cymdeithasol i ddatblygu'n bobl ifainc annibynnol gyda hunan-barch, sydd yn siŵr o'u hunain, eu potensial a'u cyflawniadau, ac yn gallu cyfrannu'n adeiladol i'w cymunedau lleol.

Fis Ebrill, lansiodd Alun Michael y cynllun Cymreig hwn fel rhan o'r gronfa cynhwysiad cymdeithasol, a chyhoeddodd y byddai'r buddsoddiad yn £25 miliwn dros dair blynedd. Fel gyda'r cynllun Cychwyn Cadarn, caiff adnoddau'r gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid eu dyrannu i ardaloedd awdurdodau lleol gan ddefnyddio'r dangosyddion i wasanaethau plant o fewn fformwla'r asesiad gwariant safonol. Mae'r dull dosbarthu hwn yn cymryd y boblogaeth ac amddifadedd i ystyriaeth. Mae'n sicrhau rhywfaint o dargedu ond yn dal i ddarparu cyfran resymol o'r cyllid sydd ar gael i ardal pob awdurdod lleol.

Fel Cychwyn Cadarn, mae'r gronfa wedi ei seilio ar ymrwymiad i weithio drwy bartneriaeth. Caiff rhaglenni eu cyflwyno ar lefel leol gan bartneriaethau a fydd yn gallu cynllunio yng ngoleuni gwybodaeth leol. Mae'r partneriaethau eisoes yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o gyrff sydd yn ymdrin â gwasanaethau i blant a phobl ifainc, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, cynghorau hyfforddiant a menter, cyflogwyr lleol, cyrff gwasanaethau iechyd a mudiadau gwirfoddol. Mae'r partneriaethau hyn wedi datblygu cysylltiadau trawsbynciol cryf ar lefel leol gyda chyrff eraill megis timau sydd yn gweithio gyda throreddwyr ifanc,

teams.

The original profile of expenditure was £5 million this year, and £10 million in each of the next two years. However, we are aware from our contact with local authorities that it could be difficult for partnerships to use this year's funding in full by the end of the financial year. I have therefore decided to release a lower level of funding of £3.5 million this year, and, with the agreement of the Finance Secretary, the remaining £1.5 million will be allocated in future years, giving partnerships more time to develop their use of the funding. The overall level of funding available under the children and youth partnership fund will still be £25 million. By approving today's motion, the Assembly will allow resources to be released to local authorities for this financial year so that they can begin to implement their plans.

I am pleased to announce that all 22 local partnership plans have been approved for this financial year. As with Sure Start, I will look closely at targets, monitoring and evaluation arrangements before approving plans for future years. We need Wales-wide targets for this scheme as well as local targets. It is a brand new initiative and we may wish to refocus resources in the future. The partnerships will be able to review their plans before the end of the programme in the light of changing priorities and achievements.

I am particularly interested in our statutory duty to promote equality of opportunity and to counteract discrimination and promote the needs and rights of the groups who are most excluded, often as a result of discrimination against their race, ethnicity, gender or disability. It is interesting that the projects that have been put forward include one to mentor ethnic minority children, and a Black Caribbean project identifying children most at risk from exclusion and under-achievement.

This scheme will link with other initiatives addressing, for example, the concern about

partneriaethau i ostwng lefelau troseddu a thimau gweithredu ym maes alcohol.

Y proffil gwariant yn wreiddiol oedd £5 miliwn eleni, a £10 miliwn y flwyddyn dros y ddwy flynedd nesaf. Fodd bynnag, gwyddom o'n cyswllt gydag awdurdodau lleol y gallai fod yn anodd i bartneriaethau ddefnyddio cyllid y flwyddyn hon yn llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr wyf felly wedi penderfynu rhyddhau lefel is o gyllid, £3.5 miliwn, eleni a, chyda chytundeb yr Ysgrifennydd Cyllid, caiff yr £1.5 miliwn arall ei ddyrannu yn y dyfodol, gan roi mwy o amser i'r partneriaethau i ddatblygu eu defnydd o'r arian. Bydd cyfanswm y cyllid sydd ar gael o dan y gronfa bartneriaeth plant ac ieuencid yn dal yn £25 miliwn. Drwy gymeradwyo'r cynnig heddiw, bydd y Cynulliad yn caniatáu i adnoddau gael eu rhyddhau i'r awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon fel y gallant ddechrau rhoi eu cynlluniau ar waith.

Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod pob un o'r 22 cynllun partneriaeth leol wedi ei gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fel gyda Cychwyn Cadarn, byddaf yn edrych yn fanwl ar dargedau a'r trefniadau monitro ac arfarnu cyn cymeradwyo cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae angen targedau i Gymru-gyfan ar gyfer y cynllun hwn yn ogystal â thargedau lleol. Mae'n gynllun newydd sbon ac efallai y byddwn am roi canolbwynt newydd i'r adnoddau yn y dyfodol. Gall y partneriaethau adolygu eu cynlluniau cyn diwedd y rhaglen yng ngoleuni blaenoriaethau a llwyddiannau cyfnewidiol.

Mae gennyf ddiddordeb neilltuol yn ein dyletswydd statudol i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle ac i weithio yn erbyn camwahaniaethu a hybu anghenion a hawliau'r grwpiau sydd yn cael eu hallgáu fwyaf, yn aml oherwydd camwahaniaethu yn erbyn eu hil, eu hethnigrwydd, rhyw neu anabledd. Mae'n ddiddorol gweld ymysg y prosiectau a gyflwynwyd un prosiect i fentora plant o leiafrifoedd ethnig, a phrosiect Du Caribïaidd sydd yn nodi'r plant sydd dan fwyaf o risg o ymddieithrio a thangyflawni.

Bydd y cynllun yn cydgysylltu â chynlluniau eraill sydd yn mynd i'r afael, er enghraifft,

the high rate of teenage pregnancies in Wales. The sexual health strategy, which will shortly go out to consultation, notes the link between teenage pregnancy and social exclusion, low expectations and low educational attainment. The strategy will seek to address this issue through education and health initiatives. I am sure that we will see many more projects coming through the partnerships, which, for example, will take on board sexual health strategy issues.

â'r pryder ynglŷn â'r gyfradd feichiogi uchel ymysg merched yn eu harddegau yng Nghymru. Mae'r strategaeth iechyd rhyw, y dechreuir ymgynghori yn ei chylch yn fuan, yn nodi'r cysylltiad rhwng beichiogi yn yr ardegau a dieithrio cymdeithasol, disgwyliadau isel a chyraeddiadau addysgol isel. Bydd y strategaeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gynlluniau addysg ac iechyd. Yr wyf yn siŵr y byddwn yn gweld llawer mwy o brosiectau yn dod drwy'r partneriaethau a fydd, er enghraifft, yn ymdrin ag elfennau oddi mewn i'r strategaeth iechyd rhyw.

5:19 p.m.

In today's questions to Rosemary Butler we discussed combating substance misuse as part of a wider range of policies to renew our communities. For young people in their early to mid-teens there are strong links between drug and alcohol problems, exclusion or truancy from school, family break-up and initiation into criminal activity. We will address those issues through the partnerships.

Yn y cwestiynau i Rosemary Butler heddiw yr ydym wedi trafod ymladd camddefnyddio sylweddau fel rhan o ystod ehangach o bolisiau i adnewyddu ein cymunedau. I bobl ifainc rhwng dechrau a chanol eu harddegau, mae cysylltiadau cryf rhwng problemau alcohol a chyffuriau, cael eu gwahardd o'r ysgol neu chwarae triwant, teuluoedd yn chwalu a dechrau ymgymryd â gweithgareddau troseddol. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn oll drwy'r partneriaethau.

I referred earlier to the role of the children and youth partnership fund in raising educational achievement. The vast majority of young people pass through the education system having gained the maturity and skills to face their adult lives with confidence. However, some drop out of education, training and work. Children and youth partnership fund activities will complement the youth access initiative in supporting these disaffected young people. In addition, funds under the Grants for Education Support and Training programme will enable local education authorities, in collaboration with schools and other local partners, to address disaffection in the classroom. The new children and youth partnership fund is a key element of the Assembly's work in tackling the dangers of social exclusion and the problems of disadvantaged children and young people, and one which will develop a range of projects for children and young people. I urge you to support this motion.

Cyfeiriais yn gynharach heddiw at rôl y gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid yn codi cyflawniadau addysgol. Mae'r mwyafrif llethol o bobl ifainc yn mynd drwy'r system addysg gan fagu'r aeddfedrwydd a'r sgiliau i wynebu bywyd oedolyn yn hyderus. Fodd bynnag, mae rhai yn rhoi'r gorau i addysg, hyfforddiant a gwaith. Bydd gweithgareddau'r gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid yn ategu cynllun mynediad yr ifanc drwy gefnogi'r bobl ifainc hyn sydd wedi eu dadrithio. Yn ogystal, bydd arian o dan y rhaglen Grantiau Cefnogaeth a Hyfforddiant ym maes Addysg yn galluogi awdurdodau addysg lleol, mewn cydweithrediad ag ysgolion a phartneriaid lleol eraill i ymdrin â dadrithio yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r gronfa bartneriaeth plant ac ieuentid yn elfen allweddol o waith y Cynulliad yn mynd i'r afael â pheryglon dieithrio cymdeithasol a phroblemau plant a phobl ifainc sydd wedi eu dadrithio, ac yn un a fydd yn datblygu ystod o brosiectau ar gyfer plant a phobl ifainc. Fe'ch anogaf i gefnogi'r cynnig hwn.

Owen John Thomas: Plaid Cymru

Owen John Thomas: Mae Plaid Cymru yn

recognises that social inclusion is a vital ingredient in the development of a healthy and harmonious society. We further recognise that the best starting point for the promotion of social inclusion is among the younger members of society. London-imposed policies of limited public spending forced the Assembly to restrict severely the number of target areas in which children and youth partnership projects will operate. Many Members derived great pleasure last Monday week from listening to young people speaking of their uplifting experiences with community service volunteers. It confirmed my belief that people are a country's greatest asset.

The children and youth partnership fund scheme will be largely additional to the work of community service volunteers, but we welcome the fact that local authorities, working in partnership with the health service and other agencies, including the voluntary sector, will promote the scheme and produce children and youth partnership fund plans.

It is reassuring that the plans target a wide range of problems that have led to the social exclusion of children and young people in areas across Wales. Those problems include parental abuse and neglect, underachievement, ethnic exclusion, poverty and disadvantage, disaffection, truancy, behavioural problems, reintegration after exclusion from school, learning difficulties, youth unemployment and coping with being a young parent. The projects within these local government plans all offer ways of improving the quality of life of individuals and consequently of whole communities. Targeting groups gives each project a sharper focus and the likelihood of being more effective. Plaid Cymru welcomes this.

However, when the extent of the plans is viewed in the wider context, one's enthusiasm is dampened. The first year sum set aside for the projects throughout Wales is only £3.5 million, although I appreciate that that is for a proportion of the year, and will leave many areas and groups untouched. The prospect of jobs for many youngsters embraced by the plans remains poor.

cydnabod bod cynhwysiant cymdeithasol yn elfen holl bwysig yn natblygiad cymdeithas iach a chytûn. Cydnabyddwn hefyd mai'r man cychwyn gorau ar gyfer hybu cynhwysiant cymdeithasol yw ymysg aelodau iau cymdeithas. Gorfodwyd y Cynulliad i gyfyngu'n ddifrifol ar nifer yr ardaloedd targed lle bydd prosiectau partneriaeth i blant a phobl ifainc ar waith gan bolisiâu sydd yn cyfyngu ar wariant cyhoeddus, a orfodwyd arnom o Lundain. Cafodd llawer o'r Aelodau bleser mawr ddydd Llun diwethaf yn gwrandao ar bobl ifainc yn siarad am eu profiadau gwerth chweil gyda gwirfoddolwyr ar wasanaeth cymunedol. Cadarnhaodd fy nghred mai pobl yw ased penaf gwlad.

Bydd cynllun y gronfa bartneriaeth plant ac ieuencid yn ychwanegol gan mwyaf at waith gwirfoddolwyr ar wasanaeth cymunedol, ond croesawn y ffaith y bydd awdurdodau lleol, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r gwasanaeth iechyd ac asiantaethau eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol, yn hybu'r cynllun ac yn llunio cynlluniau dan y gronfa bartneriaeth plant ac ieuencid.

Mae'n galonogol bod y cynlluniau yn targedu ystod eang o broblemau sydd wedi arwain at ddiethrwch cymdeithasol i blant a phobl ifainc mewn ardaloedd ar hyd a lled Cymru. Ymysg y problemau hyn mae camdriniaeth ac esgeulustod gan rieni, dieithrio ethnig, tloidi ac anfantais, dadrithio, triwantiaeth, problemau ymddygiad, ailintegreiddio ar ôl gwaharddiad o'r ysgol, anawsterau dysgu, diweithdra ymysg pobl ifainc ac ymdopi â bod yn rhiant ifanc. Mae'r prosiectau o fewn y cynlluniau llywodraeth leol hyn i gyd yn cynnig ffyrdd o wella ansawdd bywyd unigolion ac, yn sgîl hynny, ansawdd bywyd cymunedau cyfan. Drwy dargeddu grwpiau rhoddir ffocws cliriach i bob prosiect gyda'r tebygolrwydd y bydd yn fwy effeithiol. Mae Plaid Cymru yn croesawu hyn.

Fodd bynnag, o ystyried cwmpas y cynlluniau yn y cyd-destun ehangach, ni ellir bod mor obeithiol. Nid yw'r swm a neilltuir i'r prosiectau ledled Cymru yn y flwyddyn gyntaf ond £3.5 miliwn. Er fy mod yn sylweddoli mai ar gyfer rhan yn unig o'r flwyddyn y mae hyn, bydd yn gadael llawer o ardaloedd a grwpiau heb eu cyffwrdd. Mae'r rhagolygon gwaith i lawer o bobl ifainc a

fydd yn cael eu cynnwys o fewn y cynlluniau yn dal yn wael.

Having spent half my life teaching, it is difficult not to see an enormous gap left in the battle against social exclusion. Although disaffection is targeted, it is often simply the outcome of a gradual loss of self-esteem, which stems from the narrow culture of our education system. The system's confining, overwhelmingly academic measures condemn as failures many pupils whose talents remain undetected and undeveloped.

If only we in Wales had the confidence to venture into and explore an education system that from an early stage would seek a balance between the teaching of academic and non-academic skills, and in doing so bring out the best in all, not just those with an academic inclination.

We are considering plans to tackle social exclusion among children and young people. Sound ideas emanating from Whitehall are implemented and developed by local authorities in Wales. While welcoming these projects, let us not stop there. We must look forward to producing, piloting and refining our own ideas for an education system that creates social inclusion through the practice of educational inclusion. We applaud the Assembly's commitment to a three-year funding project and the allocation of £21.5 million for the next two years. Anything less would have led to accusations that this was just a cosmetic exercise.

We welcome the children and youth partnership fund and we wish to flag up the need to raise young people's hopes further by improving employment prospects and developing a fairer education system wherein academic and non-academic skills are given parity of esteem.

Jonathan Morgan: We welcome any proposal that tackles issues relating directly to children and young people. However, Government schemes must be well-defined and proactive. As with the Sure Start programme, we want achievable and

Ar ôl treulio hanner fy oes yn dysgu, anodd yw peidio â gweld bod bwlch enfawr yn cael ei adael yn y frwydr yn erbyn dieithrio cymdeithasol. Er y targedir dadrithiad, yn aml nid yw ond canlyniad colli hunan-barch yn raddol, a hynny'n deillio o ddiwylliant cul ein system addysg. Mae llinyn mesur cyfyng, academiaidd i raddau llethol, y system yn condemnio fel methiant lawer o ddisgyblion y mae eu talentau yn aros heb eu canfod na'u datblygu.

O na bai gennym ni yng Nghymru yr hyder i fentro i mewn i ac archwilio system addysg a fyddai, o gyfnod cynnar, yn ceisio cydbwysedd rhwng dysgu sgiliau academiaidd ac anacademiadd, ac wrth wneud hynny yn dod â'r gorau allan o bawb, nid dim ond y rheini sydd â doniau academiaidd.

Yr ydym yn ystyried cynlluniau i fynd i'r afael â dieithrio cymdeithasol ymysg plant a phobl ifainc. Caiff syniadau da sydd yn deillio o Whitehall eu rhoi ar waith a'u datblygu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Tra'n croesawu'r prosiectau hyn, gadewch inni beidio â stopio yn y fan hon. Rhaid inni edrych ymlaen tuag at gynhyrchu, treialu a chaboli ein syniadau ein hunain am system addysg sydd yn creu cynhwysiant cymdeithasol drwy arfer cynhwysiant addysgol. Cymeradwywn ymrwymiad y Cynulliad i brosiect cyllido tair-blynedd a'r dyraniad o £21.5 miliwn ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Byddai unrhyw beth yn llai wedi arwain at gyhuddiadau nad oedd hwn yn ddim ond ymarferiad cosmetig.

Croesawn y gronfa bartneriaeth plant ac ieuenctid a dymunwn dynnu sylw at yr angen i godi gobeithion pobl ifainc ymhellach drwy wella rhagolygon gwaith a datblygu system addysg decach lle y rhoddir yr un parch i sgiliau academiaidd a rhai anacademiadd.

Jonathan Morgan: Croesawn unrhyw gynig i ymdrin â materion sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â phlant a phobl ifainc. Fodd bynnag, rhaid i gynlluniau Llywodraeth fod wedi eu diffinio'n glir a bod yn rhagweithiol. Fel gyda'r rhaglen Cychwyn

measurable targets for spending this money. I am pleased that the Secretary for Health and Social Services has given that commitment today.

I have two points. The first relates to the quality assurance thresholds. The submitted plans must display an assessment of need and the action that will be taken by the local partnerships. The Assembly would want those plans to reflect its priorities, particularly in combating social exclusion and promoting active community participation. Parents should be involved in the process and must always be actively involved in anything that relates directly to their children. We must not seek to replace their role. Any proposal that seeks to actively engage with parents and their responsibilities will be widely welcomed.

My second point is about how this money is spent. I ask only that, after one year of the programme's operation, we are able to see the success that we hope it will achieve.

Jenny Randerson: We welcome the project, which has many laudable aims. It would be difficult for any political party to disagree with it. I have concerns about some of the details. I realise that there will not be time for Jane to reply to this. One issue, on which I would welcome more information, is that past evidence has shown that some of the poorer local authorities have not benefited as much as was hoped from the opportunities of grants such as this. They have lacked the necessary expertise to apply fully for grants. I would welcome information on how the Assembly is seeking to help those authorities that most need the money so that they can benefit from it. It is generally those authorities with the highest level of social exclusion that find the grant application process most difficult.

I welcome the fact that some of the money will be deferred to next year. I have previously raised similar issues relating to the difficulty of spending the money this year. It

Cadarn, yr ydym am gael targedau dichonadwy a mesuradwy ar gyfer gwario'r arian hwn. Yr wyf yn falch bod yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi'r addewid hwnnw heddiw.

Mae gennyf ddau bwynt. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r trothwyon sicrhau ansawdd. Rhaid i'r cynlluniau a gyflwynir ddangos asesiad angen a pha gamau a gymerir gan y partneriaethau lleol. Byddai'r Cynulliad am i'r cynlluniau hynny adlewyrchu ei flaenoriaethau, yn enwedig o ran ymladd dieithrwch cymdeithasol a hybu cyfranogiad byw yn y gymuned. Dylai rhieni fod â rhan yn y broses a rhaid iddynt bob amser fod â rhan fyw yn unrhyw beth sydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu plant. Rhaid inni beidio â cheisio cymryd lle eu rôl hwy. Caiff unrhyw gynig sydd yn ceisio perthynas fyw gyda rhieni a'u cyfrifoldebau ei groesawu'n eang.

Mae fy ail bwynt yn delio â sut y caiff yr arian hwn ei wario. Y cyfan a ofynnaf yw y byddwn, ar ôl i'r rhaglen fod ar waith am flwyddyn, yn gweld y llwyddiant yr ydym yn gobeithio amdano.

Jenny Randerson: Croesawn y prosiect hwn, sydd ag amcanion canmoladwy. Byddai'n anodd i unrhyw blaid wleidyddol anghytuno ag ef. Mae gennyf bryderon am rai o'r manylion. Sylweddolaf na fydd amser i Jane ymateb i hyn. Un mater, y byddwn yn croesawu mwy o wybodaeth arno, yw bod tystiolaeth o'r gorffennol wedi dangos nad yw rhai o'r awdurdodau lleol tlotach wedi elwa cymaint ag yr oeddid wedi ei obeithio o'r cyfleoedd a ddeuai o grantiau fel hwn. Nid oedd ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol i ymgeisio yn llawn am grantiau. Byddwn yn croesawu gwybodaeth ar sut y mae'r Cynulliad yn ceisio helpu'r awdurdodau hynny sydd â mwyaf o angen yr arian fel y gallant elwa ohono. Yn gyffredinol, yr awdurdodau hynny sydd â'r lefel uchaf o ddieithrwch cymdeithasol sydd yn cael y broses ymgeisio am grantiau yn fwyaf anodd.

Croesawaf y ffaith y caiff peth o'r arian ei ohirio tan y flwyddyn nesaf. Yr wyf wedi codi materion tebyg yn ymwneud â pha mor anodd fyddai gwario'r arian eleni o'r blaen.

is better to defer and to spend the money well next year rather than spending it in haste this year. This is an ambitious project and we are expecting a tremendous amount for £25 million. I do not suppose that we will see a revolution for £25 million but I hope that this is the first step on the ladder.

5:29 p.m.

The Finance Secretary (Edwina Hart): I thank Members for their contributions. Local partnerships, as Owen John Thomas said, are essential to the working of this scheme. I particularly welcomed his comments about young people and inclusiveness. This is not just about social inclusion but the inclusion of all young people in the life of Wales.

Jonathan Morgan referred to targets and the quality assurance threshold and a partnership's actions reflecting the Assembly's priorities. I agree that that is essential. As a parent myself, I fully understand your comments about responsibility and the involvement of parents in any actions that we take as an Assembly on some of these key issues.

At the end of 12 months, I would also want to evaluate these programmes and see what they have delivered in real terms. There is no point in having them unless they add value to peoples' lives and are seen to be working. That is essential.

Jenny made a point about the poorer local authorities. Jane Hutt will look into that issue and give you a response.

Even though this has been a short debate, it has indicated some of the Assembly's priorities in how we want to work together on the key issues that affect young people in Wales.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

*Pleidlais y Cynulliad oedd: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
The Assembly divided: For 36, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Mae'n well gohirio a gwario'r arian yn dda y flwyddyn nesaf na'i wario'n frysiog eleni. Mae hwn yn brosiect uchelgeisiol ac yr ydym yn disgwyl llawer iawn am £25 miliwn. Mae'n siŵr na welwn ni chwyldro am £25 miliwn ond gobeithiaf fod hyn yn gam cyntaf ar yr ysgol.

Yr Ysgrifennydd Cyllid (Edwina Hart): Diolchaf i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae partneriaethau lleol, fel y dywedodd Owen John Thomas, yn holl bwysig i'r cynllun hwn. Croesawaf yn arbennig ei sylwadau am bobl ifainc a chynwysoldeb. Nid dim ond mater o gynhwysiant cymdeithasol yw hwn ond o gynnwys pob person ifanc ym mywyd Cymru.

Cyfeiriodd Jonathan Morgan at dargedau a'r trothwyon sicrhau ansawdd ac y dylai gweithredoedd partneriaeth adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynulliad. Cytunaf fod hynny'n hanfodol. Fel rhiant fy hun, deallaf yn llwyr eich sylwadau am gyfrifoldeb ac am gynnwys rhieni mewn unrhyw gamau gweithredu a gymerwn fel Cynulliad ar rai o'r materion allweddol hyn.

Ar ddiwedd 12 mis, byddwn innau hefyd am arfarnu'r rhaglenni hyn a gweld beth y maent wedi ei gyflawni mewn termau real. Nid oes unrhyw bwynt iddynt onid ydynt yn ychwanegu gwerth i fywydau pobl a'u bod i'w gweld yn gweithio. Mae hynny'n holl bwysig.

Gwnaeth Jenny bwynt am yr awdurdodau lleol tlotaf. Mae hwn yn fater y bydd Jane Hutt yn edrych arno ac yn rhoi ateb ichi.

Er mai dadl fer fu hon, mae wedi amlygu rhai o flaenoriaethau'r Cynulliad yn y ffordd yr ydym am weithio gyda'n gilydd ar y materion allweddol sydd yn effeithio ar bobl ifainc yng Nghymru.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Gareth
Law, Peter
Lewis, Huw
Lloyd, David
Melding, David
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Y Llywydd: Diolch i'r Aelodau i gyd ac, wrth gwrs, hoffem gyfleu ein dymuniadau da i Dafydd Wigley a Karen Sinclair.

The Presiding Officer: I thank all the Members and, of course, we would like to convey our good wishes to Dafydd Wigley and Karen Sinclair.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.33 p.m.

The session ended at 5.33 p.m.